



Byd y Dyn Hysbys

Swyngyfaredd yng Nghymru



Kate Bosse Griffiths



Pwysu y Ffynnon

Lolfa

Argraffiad cyntaf: Mai 1977

© K.Bosse Griffiths 1977

Byd y Dyn Hysbys

Swyngyfaredd yng Nghymru

Rhifau ISBN:

0 904864 24 3 (clawr meddal)

0 904864 25 1 (clawr caled)

Kate Bosse Griffiths

Y Lolfa

Argraffwyd a chyhoeddwyd yng Nghymru gan Y Lolfa,
Talybont, Dyfed SY24 5ER; ffôn Talybont (097 086) 304.

Cyflwynedig i Llinos, a ddangosodd y ffordd i mi

CYDNABOD

Argraffwyd rhannau o bennod wyth a naw yn *Barn* ac yn yr *Evening Post*, Abertawe.

Rwy'n ddyledus i Adran Llawysgrifau'r Llyfrgell Genedlaethol am eu cymorth, ac yn arbennig am y copïau *Xerox* o'r swyn "Lonsiws" (76) ac o dudalen o'r *Holograph Book* yn eiddo i'r Doctor John Harries, Cwrtycadno (77).

Hoffwn ddiolch i'r Dr Prys Morgan, Abertawe, am ddangos i mi y Maen Magl sydd yn perthyn i'w deulu ac am y llun ohono, hefyd am dynnu fy sylw at nifer o erthyglau diarffordd am swyngyfaredd yng Nghymru.

Tynnodd ein cyfaill Roy Lewis lun y Pennaeth Megemba yn Rhodesia ym 1964. Mawr ddiolch iddo amdano ac hefyd i Roger P.Davies, ffotograffydd Adran y Celfyddydau, Coleg y Brifysgol, Abertawe, am ei gymorth gyda'r lluniau craill. Tynnwyd y lluniau o Pantcoy, cartref y Doctor John Harries, Cwrtycadno, ac o Eglwys Myddfai gan fy mab Heini.

CYNNWYS

I	Rhagarweiniad: Y Lle Cynefin	7
II	Y Dyn Hysbys	15
III	Llyfr Cyfrin Y Dyn Hysbys	38
IV	Swyn a Llundun	51
V	Iachâu Swyngyfareddol	68
VI	Darogan	82
VII	Dirgelion	94
VIII	Y Gelfyddyd Ddu	102
IX	Y Tylwyth Teg	116
	Llyfryddiaeth	135
	Mynegai	139
	Rhestr Llundun	143

Ni laddwyd yr un Dyn Hysbys yng Nghymru am ei weithgareddau anuniongred; ac ni chafodd yr un wrach ei llosgi na'i boddi. Y mac'r ffeithiau hyn yn unig yn ddigon o ysgogiad i edrych i fewn i anian arbennig y Dyn Hysbys a phopeth sydd ynghlwm ag ef. Ond Llinos Davies a'm hudodd gyntaf i dir cynefin y Dyn Hysbys (pan oedd hi yn Geidwad y Llyfrau Prin yn Llyfrgell Coleg y Brifysgol, Abertawe) drwy roi ar fenthyg i mi lyfr o nodiadau cyfrin a sgrifennwyd gan Ddyn Hysbys o Sir Ddinbych â'i law ei hun, yn y ganrif ddiwethaf.

Aeth dros ddeng mlynedd heibio bellach, ac erbyn heddiw dysgais ychydig mwy am lyfrau'r Dynion Hysbys, am swynion a darogan a meddyginiathau swyngyfareddol, a hefyd am agweddau ar y "Gelfyddyd Ddu". Ac nid ofer mo'r coelion hyn; maent yn rhan sylfaenol a naturiol o feddwl dyn.

Yn y llyfryn hwn byddaf yn olrhain fy mhrofiadau a'm hymchwil fy hunan yn y maes, gan edrych yn bennaf ar ddigwyddiadau yng Nghymru, er bod gwreiddiau'r coelion a'r arferion hyn, fel y caf ddangos, yn ymestyn ar draws y byd i gyd.

Dewin, gwyddon, hudwr, swyngyfareddwr, brudiwr, chwidog, widw, dyn cyfarwydd, consuriwr, Dyn Hysbys —ond nid *rheibiwr*. Y mac Dynion Hysbys ar gael hyd y dydd heddiw. Gwn am un o arweinwyr crefyddol Cymru a gafodd driniaeth lwyddiannus gan Ddyn Hysbys ar gyfer tyfiant o dan ei lygad. Fe ddywedwyd am y Dyn Hysbys hwnnw fod cleifion yn dod ato o bellter a hyd yn oed o'r Unol Daleithiau. Fe aeth y Dyn Parchedig i gwrdd â'r Dyn Hysbys mewn tafarn. Derbyniodd —am bris sylweddol— eli na wyddai neb arall y gyfrinach o'i wneuthuriad, ac fe gafodd iachâd.

2. *Rhag Darddenau*. Kymet sebon du a dod yndo y trayan or halen ar deuparth or sebon ai kymysgu hwynt yn da a dod yn blastr ynghylch bôn y darddenau ag ef ai tyrr odifewn ac ai dilea ar hynnt pa le [bynag] i bon ai ar law, ai ar droed, ai ar lygad neu lle arall. (1,1.39)*

Gwyddys fod Dynion Hysbys yn arbennig o lwyddiannus gyda chlefydau sy'n agored i driniaeth y meddwl (clefydau "seicosomatig" a defnyddio'r gair ffasiynol), a hefyd anhwylderau y gellir eu gwella â meddyginaeth lysieuol. A dyna lle mae'r holi'n dechrau am y cyfryngau sy'n gallu dylanwadu ar enaid dyn er mwyn ei iacháu yn gorff ac yn enaid. Cyfryngau ydynt sy'n anelu at ei synhwyrâu, ei reddfau, ei deimladau, ei ewyllys ...at unrhyw beth ond at ei allu i resymu.

Yn y ganrif ddiwethaf byddai Dynion Hysbys yn gwneud llawer o bethau eraill ar wahân i drin clefydau yn felodramatig. Disgwylid iddynt gyflawni gorchwylion fel dadreibio, darganfod pethau a gollwyd, darogan a galw ar ysbrydion. Mewn cylch-grawn crefyddol rhoddodd Brutus, fel golygydd, ddisgrifiad craff o ddwy agwedd ar y Dyn Hysbys yn ei gyfnod ei hun, sef y Dyn Hysbys yn ei gylch cyfrin gyda'r ysbrydion, a'r Dyn Hysbys gartref gyda'r cwsmeriaid (49,t.72):

Pan fyddo y Dewin yn myned at y gorchwyl o gonsuriaeth cyfarwyddir ef yn ôl y rheolau perthynol i'r gelfyddyd, i ddeithol lle neillduol, oblegid bod rhyw fannau yn fwy manteisiol na'u gilydd gyda golwg ar lwyddiant y gwaith. Gwedi penodi ar y fan, y gorchwyl nesaf ydyw tynnu cylch dair gwaith, a rhwng y llinellau hyn y mae yn rhaid ysgrifenu enwau amrywiol angelion gyda lluniau eraill, ac enwau y goruchaf Arglwydd yn yr iaith Hebraeg. Yn nesaf, rhaid taenellu dwf sanctaidd ar y cylch er mwyn ei gysegru; ac wedi gwneuthur pob peth yn barod y mae y Dewin mewn *gwenwig* i sefyll yn y canol, ac yno i ddarllen y gweddïau perthynol i'r achos.

ond (49,t.76):

Pan eir at y Dewin (sef yn ei dŷ) ceir ef fel dynion eraill: ac annerchir yr ymofynydd i gofyniadau o fath y rhai canlynol:—
 "Pa beth yw eich enw chwî?
 Gŵr o ha le ydych chwî?
 Pa beth ydyw eich neges?"

*Cyfeiria'r ffigurau hyn at y Llyfryddiaeth, tudalen 135. Dynoda'r ffigur cyntaf y llyfr ei hun, a'r ail ffigur y dudalen berthnasol.



1: Y DEWIN YN Y CYLCH
 "yn darllen gweddïau perthnasol"
 (Y Doctor Faustus, llun a ymddangosodd ym 1636)

Pa beth a ddygwyd oddi arnoch? Pa faint?
 Pa un ai yn y dydd neu yn y nos?"

Cyfeddyf Brutus, serch hynny, fod rhywrai yn barod i ddywedyd bod rhywbeth yn y gelfyddyd wedi'r cwbl (49,t.77).

Yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Pffagan ceir profion am weithgareddau'r Dynion Hysbys mewn *dadreibio*, sef gwrthweithio dylanwadau drwg ar eiddo, nad oes neb yn siŵr sut na pham y daethant. Papurau bach ydynt ac arnynt swynion gwarchodol yn enw person arbennig. Fe'u gosodid mewn poteli bach o wydr a'u cuddio mewn mannau arbennig, a photeli o'r fath sy'n awr yn yr Amgueddfa. O'r Oesoedd Canol, yn ôl pob tebyg, y daeth y traddodiad am yr hyn sy'n digwydd pan fydd

gwartheg yn cael eu rheibio a sut i fynd ati i ddad-wneud y rheibio. (*Rheibio*, wrth gwrs, yw'r dylanwad neilltuol sy'n cadw dyn neu anifail rhag cyflawni ei briod waith.) Yn y *Llyfr Cyfrin* (80,t.143) adroddir hanesyn am yr hyn a wnaethpwyd yn ymyl Wrecsam i ddadreibio gwartheg yn y flwyddyn 1832. Mae'n werth ei ddyfynnu yn y ffurf Saesneg a roddwyd ar bapur gan y Dyn Hysbys, gan newid ond ychydig ar yr orgraff:

Upon Oct.25, 1832.

A Farmer from the parish of Hope, Flintshire, met with me in Wrexham, And complained much that his cattle and milk had been witched. And that some of the cattle had lost their dids. [-teats] I asked him how long had it being [sic] so. He told me between two and three months and his loss was very great, and that all his cheese were spoilt. And I asked whether he had not being with anyone trying to get cured. And he told me that his son had being seven times with a wise man that was called Shon y Rhose but no better and that he could not do the work three moons, and I persuaded that I should be cured in that time.

Therefore I was persuaded to go to one W.Allwood, a gentleman Farmer near Hope. And he ordered me to comply to you. And I hope that you will endeavour to bring me out of the ruinous concern.

And I promised him that I would without delay. Accordingly I did through God's assistance to the great astonishment and satisfaction of the Farmer and his family. For they told me that the first cheese that was made after was richer and better than could be expected.

Sylwer i'r Dyn Hysbys hawlio bod ei lwyddiant yn ddyledus i gymorth Duw, a hynny yn hollol ddiragrith. Oherwydd y mac galw ar Dduw ac ar y Drindod yn gyffredin gyda swynion iach-aol. Y mac'r ffin rhwng gweddi sydd yn gofyn am iechyd, a swyn yn enw Duw a'r Drindod yn denau iawn, ac nid yw'n bosibl penderfynu bob tro beth a wnaeth y swynwr, ai cam-ddefnyddio enw'r Duwdod ar gyfer ei amcanion ei hun neu ynteu weddio am gymorth Duw.

Yng Nghymru, pobl ddysgedig y Brifysgol a gweinidogion yr Efengyl yw'r rhai sydd wedi dangos y diddordeb mwyaf yn y Dynion Hysbys a'u gwaith, pobl fel yr Athro T.Gwynn Jones (32), yr Athro Thomas Jones (35), y Prifathro J.Humphreys Davies (15), y tri ohonynt o Aberystwyth: hefyd y Parch Evan Isaac (24), y Parch Elias Owen (52), y Parch Glasnant Jones (31) a'r Parch D.G.Williams, Ferndale (70).

Y mac rhai ohonynt, braidd yn rhagfarnllyd, yn siarad ar un-



2: PANTCOY, cartref y Dewin a'r ffusigwr John Harries, Cwrtycadno, fel y saif heddiw -a'r dŵr yn "cyrchu ato" o hyd.

waith am y "Gelfyddyd Ddu", fel y gwnaeth y Parch D.G. Williams yn y traethawd a sgrifennodd ar gyfer Eisteddfod Llanelli ym 1896. O dan y pennawd *Dewiniaeth* y mae'n datgelu: "Dichon fod Sir Gaerfyrddin yn gwybod ei rhan am ryfeddodau amrywiol y 'gelfyddyd ddu.'" (70,t.320)

Byddai eraill yn defnyddio enw'r diafol yn ofer. Dywedodd J.Jones: "Gweithred ffugiol yw dewiniaeth yn dynodi amrywiol gelfyddydau a arferid i ddarganfod neu i ragddangos y dyfodol." Ychwanega mai "drwy offerynoliaeth y diafol" y gwneir pethau tebyg (30,t.110).

Y *diafol!* Tybir bod enwi'r diafol gystal â chlatsian y drws yn wyneb yr ymbolydd a sgrifennu mewn llythrennau breision coch: "Perygl bywyd! Cadwch draw!"

Ond beth sy'n digwydd os agorir y drws? Gwelir yn gyntaf fod cyfoeth o eiriau ar gael, yn yr iaith Gymraeg, sy'n ymwneud â swyngyfaredd. Mae hynny ynddo'i hun yn ddigon i brofi bod swyngyfaredd ar gael a bod hawl gennym a dyletswydd arnom i chwilio amdani.

Yn ail, gwelir bod modd iacháu clefydau drwy gyfrwng swyngyfaredd a gwelir hefyd fod defodau swyngyfareddol yn apelio at ddynion yr un fath â defodau Gorsedd y Beirdd yn yr Eisteddfod neu ganu geiriau emosiynol ac afresymol mewn emynau. Eto, y mae rhai ar gael sy'n gallu sylu ar y gwir, fel y Parch Evan Isaac (24,t.146), pan ddywedodd:

Arferir yn awr ddefodau gan filoedd na feddant y gradd lleiaf o wybodaeth am eu cychwyn a'u hanes ...ond credant yn eu heffeithiolrwydd.

Datganodd yr Athro T.Gwynn Jones mewn beirniadaeth ddydd Calan, 1921 (24,t.13) fod y sawl sy'n trafferthu i chwilio am *ben ofergoelion* a thraddodiadau, a'u cofnodi, yn gwneud gwaith da:

Yr ydys bellach yn gweled mai colled fu'r agwedd a oedd mae gyffredin yng Nghymru yn ystod y ganrif ddiwethaf tuag at bethau a elwir yn "Ofergoelion". Collodd y Cymry agos bob lliw o'u bywyd a'u harferion cenedlaethol drwy'r agwedd honno...

Hyd yn oed er bod yn wir mai ofer oedd llawer o'r coelion a gollwyd yr ydys erbyn hyn yn gweled mai drwyddynt hwy y gellir astudio hanes meddwl dyn, ac yn fynych iawn bod rhywbeth hanfodol yn gorwedd weth wraidd y goel.

Aeth Penardd yntau ati o ddifrif i ymweld â thŷ lle'r oedd Dyn Hysbys wedi bod yn byw (15,t.147), i edrych ar y llyfrau a adawodd ar ei ôl (hwyrach gyda'r amcan o'u cael ar gyfer y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth a oedd heb ei hadciladu eto) ac i ofyn i'w gyfoedion am eu gwybodaeth amdano. Penardd, efallai, a ddaeth agosaf at wir fyd y Dyn Hysbys drwy gyfrwng serch a oedd yn gymysg ag ysgolheictod. Ond fe fethodd mewn un peth: ni ddaeth o hyd i *lyfr cyfrin* arbennig John Harries, Cwrtycadno, er iddo chwilio yn ddygn amdano.

Cychwynnais fy ymchwil, fel y dywedais yn barod, gyda llyfr y Dyn Hysbys o Sir Ddinbych (80). Fe gododd hwn fy chwil-frydedd am fod rhan ohono yn yr iaith Gymraeg, ond nid oeddwn yn siŵr, ar y dechrau, ynglŷn ag arwyddocâd y nodiadau. Sylwais yn fuan fod Cymru yn llawn o ddynion hysbys a chredais mai da o beth fyddai rhoi sylw arbennig i lyfr y Dyn Hysbys o Sir Ddinbych a bywyd y Dyn Hysbys o Gwrtycadno. Darllenais y llyfr cyfrin o'r gogledd ac ymwelais, yn y de, â'r manau lle bu dylanwad John Harries, Cwrtycadno.

Anlais at un gorchwyl yr oedd T.Gwynn Jones, yn amlwg, wedi ei osgoi yn fwriadol. Dyma a ddywed (32,t.viii):

It has also been considered better generally to avoid elaboration of any theories as to the origin and meaning of beliefs and customs.

Osgoi mynd yn rhy ddwfn a wnaeth felly er iddo fod yn ymwybodol "bod yn fynych iawn rywbeth hanfodol yn gorwedd wrth wraidd y goel" (24,t.13). Penderfynais innau yn hytrach i chwilio am y peth hanfodol sydd wrth wraidd y coelion yng Nghymru hyd yn oed pan fu'n rhaid chwilio amdano mewn gwledydd eraill ac mewn cyfnodau ymhell cyn yr oes Gristnogol. Er enghraifft, fe ddefnyddiwyd *abracadabra*, wedi ei sgrifennu mewn ffurf driongllog, gan ddynion hysbys yng Nghymru i roi cymorth yn erbyn rheibio. Nid oedd neb ohonynt yn gwybod pam y sgrifennwyd y swyn yn y ffurf arbennig hon, nac ychwaith beth oedd ei ystyr ...ond fe gefais innau'r boddhad o allu gweld cysondeb y traddodiad dros ganrifoedd lawer trwy ddarganfod y *peth hanfodol* a oedd yn gorwedd wrth wraidd y goel.

Yn groes i dyb y dyn cyffredin (a borthwyd â storïau am wrachod a'r gŵr drwg) y mae'r gred mewn deddfau a threfn yn

anheggor i swyngyfaredd, sef y gred bod yr un achos yn cael yr un effaith *bob* tro: yr un gred ag eiddo'r gwyddonwyr. A dyna un rheswm, beth bynnag, pam yr oedd y traddodiad yn gallu parhau bron yn ddi-dor am filoedd o flynyddoedd. Gallwn, fe allwn fynd yn ôl at y gwreiddiau.

Peth arall a ddaeth yn amlwg i mi oedd y ffaith fod y Dynion Hysbys yng Nghymru wedi cadw i raddau helaeth ymddangosiad ac urddas yr offeiriad sydd yn cymodi rhwng Duw a dyn. Mae enghreifftiau syfrdanol ar gael lle yr oedd y Duwdod yn siarad drwy dafod y Dewin gan ddilyn traddodiad darogan sydd yn fwy amlwg yn Iwerddon.

Wrth ddilyn y "saith chwaer gwasanaethgar" fe'u gwelais yn derbyn y Brenin Arthur ar Ynys Afallon, yn barod i iacháu ei glwyfau.

Dysgais wahaniaethu rhwng y swynion ar ffurf gweddi, yn llawn o arwyddluniau awgrymiadol, yn nhraddodiad y Filid o Iwerddon, a'r swynion ar ffurf chwedl grefyddol yn nhraddodiad y cyfandir.

Canfûm ar ba sail yr oedd Henry Harries, Cwrtycadno yn medru cyfiawnhau ei honiad —yr oedd cymaint o bobl yn ei gamddeall ef a'i ddireidi— ei fod yn gallu rhag-ddweud digwyddiadau pwysig ym mywyd dynion heb eu gweld, dim ond drwy osod horosgob.

Sylweddolais nad yr offeren ddu a ddathlwyd yn eglwys fach esgymunedig Tal-y-bont, Llandcilo ym 1974, ond mai ymgais ydoedd yn hytrach i gyflawni'r weithred lawer mwy dynol o ladd dol yn ddefodol yn lle lladd cariadferch anffyddlon.

Ac wedi dysgu "crefft y gwynt" (*the trade of wind*) am saith mlynedd fel disgybl i Ddynion Hysbys yng Nghymru, gwelaf fod yr amser wedi dod i ddatgan fy mhrofiad terfynol a syfrdanol, sef bod cyfryngau anweledig yn gallu cael effeithiau gwladwy, bod Duwdod yn nechreud popeth a bod *ystyr ym mboeth*.

II Y DYN HYSBYS

Yn y flwyddyn 1840 cyhoeddodd *Yr Haul*, cylchgrawn misol yr Eglwys, a ddisgrifir fel "trysorfa o wybodaeth hanesiol a gwlad-wriaethol", o dan y pennawd *Cwrt y Cadno*, adroddiad sydd yn gorffen fel yma (74,t.286):

...ond gan y myn dynion fod yn ffyllaid, nid oes ond gadael iddynt ymgyngori â Mr Harris, Cwrtycadno, a myned i draul ar bwys ei gelwydd a'i dwyll. Y mae yn waeth na lleidr ei fod yn twyllo dynion fel y mae; ac y mae eisiau tost i'w gael i afael y gyfraith a rhoddi *tread-mill* iddo am ychydig o fisoedd, fel y gwneir â'i gyd-dwyliwyr yn Lloegr.

Daw'r ymosodiad llym ar ddiwedd llythyr sy'n disgrifio digwyddiad anffodus, pan aeth pobl yr ardal i "hanner cant punt o draul" wrth chwilio am gorff dyn a oedd mewn gwirionedd o hyd yn fyw, a hynny oherwydd iddynt gael eu camgyfeirio gan "Oraci Cwrtycadno".

Dyma a ddywedodd golygydd *Yr Haul*:

Nid oes dim gwybodaeth pa un a agorwyd y llyfr a'r clo egwyd neu beidio, ond dangosodd Mr Harris ddeheurwydd anghyffredin wrth dynnu ei *Horoscopes*, ac awgrymodd fod dyn wedi cael ei ladd yn y tŷ tafarn, ac i'r corff gael ei dafu i hen wynch ydoedd gerllaw...

Fel tystiolaeth hanesyddol y mae'r adroddiad hwn yn datgelu llawer mwy na degau o storïau am arian a gwartheg a gollwyd ac a ddygwyd yn ôl gyda chymorth y Dewin o Gwrtycadno. Bu farw'r Doctor John Harries, Cwrtycadno, sef y tad, yn gynnar ym 1839, ac y mae'n amlwg mai ei fab Henry —yr un a gafodd ei hyfforddi gan y sêr-ddewin Raphael yn Llundain— a oedd yn gyfrifol am y camgymeriad ffwdrus a gododd wrychyn golygydd *Yr Haul*.

Mewn sefyllfa gyffelyb dangosodd y tad lawer mwy o urddas ac o gyfrwystra na'r mab. Fe genid cân ar lafar gwlad sy'n cyfeirio at yr ymosodiad ar y tad a hefyd at y ffaith bod y bobl yn edrych arno fel "Dyn Hysbys" (45,t.218):

Awn yn alarus
At Doctor Harries
Am ei fod yn hysbys,
I 'mofyn hanes hon;
Dywedai ei bod yn gorwedd
Gerllaw Maes yr On;
Mae oeu-bren mawr o wenwyn
Yn tyfu bwys y lle,
A nant yn rhedeg heibio
Lle'i lladdwyd ganddo fe.

Roedd sefyllfa'r Doctor John Harries, mewn gwirionedd, yn llawer mwy argyfyngus. Achwynwyd ar y mab yn unig am iddo dwyllo dynion, ond fe gyhuddwyd y tad o fod yn gyd-cuog o ladd merch ifanc. A dyma pam: wedi i ferch ddiflannu o'r ardal aeth pobl at y Dyn Hysbys ac fe gyfeiriodd y Doctor John Harries nhw at y lle iawn, sef gerllaw Maes yr Onnen, gan enwi hefyd y llofrudd, sef llanc ifanc a fu'n caru'r ferch. Fe gyfaddefodd hwnnw ei fod yn euog. Ond yn awr fe drôdd y bobl yn erbyn y Doctor Harries ei hun a'i gyhuddo o fod mewn cysylltiad â'r llofruddiaeth a'i orfodi i ymddangos o flaen y Llys yn Llandyfri.

Yno, yn lle ei amddiffyn ei hun a dadlau ei achos o flaen y ddau ustus lleol, sef Llwyd Glansein a Gwyn Glan Brân, fe gynigiodd y Dyn Hysbys roi prawf o'i wybodaeth aruchel drwy ddweud wrthynt y dydd y byddent farw:

"Dywedwch chwi yr awr y daethoch chwi i'r byd,

Mi ddywedaf finnau yr awr yr ewch chwi allan ohono."

Roedd hynny yn ddigon i ddychryn y ddau ustus ac fe ollyngwyd y Doctor John Harries yn rhydd.

Y mae'r adroddiad ymosodol yn *Yr Haul* yn erbyn Cwrtycadno yn ddadlennol gan ei fod yn dangos fod pawb yn gwybod am "y llyfr â'r clo egwyd", a hefyd oherwydd y disgwyl y byddai cyfraith Lloegr yn delio yn wahanol iawn gyda phobl o natur Henry Harries.

Y mae yn ffaith na laddwyd yr un Dyn Hysbys yng Nghymru, hyd yn oed yn ystod cyfnod crdedigaeth ffyrnig yr unfed ganrif ar bymtheg pryd y crogwyd ac y llosgwyd cannoedd o *witches* a *witches* yn Lloegr ac yn yr Alban ac yn arbennig ar y cyfandir. O leiaf, nid oes mymryn o dystiolaeth am ladd pobl felly yng Nghymru.

Sylwer mai John Harries a'i fab Henry yw'r unig rai o enwogion Cymru y cofnodwyd eu bywyd yn y *Bywgraffiadur* (9, t. 37/8) am eu bod yn swynwyr. Am ryw reswm dirgel, un erthygl sy'n trafod y ddau o dan enw'r mab, Henry. Dywedir am y ddau gyda'i gilydd: "Cyfrifir Henry Harries a'i dad ymysg yr enwocaf o swynwyr Cymreig y cyfnod cymharol ddiweddar."

Wedi nodi eu gallu i "swyno poen i ffwrdd, darganfod lladron, gwrthweithio effaith rheibiaeth, a gorchymyn i ysbrydion ymddangos", mae'r erthygl yn dod i ben gyda'r sylw nawddogol:

Nid oes ddadl na bu i wŷr fel John a Henry Harries chwarae rhan bwysig ym mywyd y wlad yn eu hoes hwy. Ychydig o feddygon trwyddedig a oedd o fewn cyraedd trigolion y rhannau gwledig, ychydig o heddegeid-waid i helpu i ddarganfod troseddau a throeddweyr, ac ychydig hefyd o feddygon anifeiliaid y gellid cael eu barn pan fyddai anifeiliaid yn wael rhoddai'r dewiniaid gymorth ym mhob un o'r amgylchiadau hyn. Yr oedd eu lle a'u gwasanaeth yn y gymdeithas yr oeddent yn rhan ohoni yn gyffelyb i eiddo'r "medicine men" ymysg rhai llwythau anllythrennog yn Affrica a de-ddwyrain Asia.

Yn awr, os yw'r Athro Emrys George Bowen, Aberystwyth, awdur yr erthygl yn y *Bywgraffiadur*, yn ceisio awgrymu bod pobl Pumsaint a Chaeo a Llandyfri yn "anllythrennog" ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, y mae ym mhell iawn oddi wrth y gwir. Ond os ydyw am ddweud bod y parch tuag at y Dynion Hysbys yn y gwledydd Celtaidd yn tarddu o'u safle fel arweinwyr ysbrydol y llwythau yn yr oesau cyn-Gristnogol, y mae'n werth dilyn y traddodiad yn ofalus.

Y peth syfrdanol am y Doctor John Harries yw'r ffaith iddo fod yn feddyg a oedd yn cymryd arno ei fod yn Ddyn Hysbys, yn hytrach nag yn Ddyn Hysbys a oedd yn ymddiddori mewn meddyginiaeth. Dyma a ddywedir ar ei garreg fedd ym mynwent yr eglwys, Caeo:

JOHN HARRIES PANTCOY

Surgeon who died May 11

1839 aged 54 years

A barnu oddi wrth rai o'i lyfrau a ddaeth o Pantcoy i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, nid oes le i amau na chafodd John Harries hyfforddiant sylweddol fel meddyg. Pwy arall fyddai yn cadw llyfr gyda dros bum cant o gyfarwyddiadau meddygol (78) a rhestr fanwl o gyffuriau yn erbyn pob math o



3: EGLWYS MYDDFAI, tarddle "Meddygon Myddfai".

glefyd gan gynnwys *gout* a *Lues Veneris*? Mae hefyd yno y *Treatise of Urine* a'r *Medical Lectures* a'r *Patients Day Books*.

Ond ei bersonoliaeth arbennig a oedd yn ei alluogi i fod yn feddyg ac yn Ddyn Hysbys. Fe aeth John Humphreys Davies (cyn iddo fynd yn brifathro Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth) i ffermdy Pantcoy, ym 1896, ar adeg pan oedd merch-yng-nghyfraith John Harries yn dal i fyw yno, ac yr oedd cyf-odion ar gael o hyd a oedd yn adnabod John Harries. Dyma a ddywed J.H.Davies amdano:

Gwisgai ddillad o frethyn cartref... Golwg wladaid oedd arno. Ni eilliai ei farf, a gwisgai glos penlin a hosannau llwydion. Yr oedd ei ddau lygad yn fywiog, ac fe ddywedir fod ei wyneb bob amser yn siriol lawn.

Anaml y gwelid un prudd-der ar ei wedd, a siaradai yn gyflym, ac yr oedd rhyw gerddoriaeth dyner yn ei lais. Yn ôl y disgrifiad a rydd yr hen bobl ohono y mae yn amlwg fod natur wedi bod ar ei gorau yn ei gynhwysu i fod yn feddyg llwyddiannus.

Heb fod yn rhy bell o Gaeo a Llandyfri, ym mynediad Eglwys Myddfai, cadwyd carreg fedd arall er cof am *Surgeon*:

Here lieth the body of Mr David Jones of Methvey, Surgeon who was an honest, charitable and skilful man. He died September 14th Anno Domini 1719, aged 61.

Pentref bach, unwaith eto, gydag eglwys fawr a chof am feddyg llwyddiannus a charedig. Roedd hwnnw yn blodeuo tua chanrif cyn y Doctor John Harries, ond ef oedd yr olaf hwyrach o res hir o feddygon a ddechreuodd yn y drydedd ganrif ar ddeg. Yn agos i'r pentre mae'r enwau lleol yn cadw cof amdanynt: ffermydd gyda'r enwau *Llwyn Ifan Feddyg* a *Llwyn Meredydd Feddyg*, hefyd *Llidiart y Meddygon* a *Pant y Meddygon*.

Y cyntaf ohonynt i gyd oedd Rhiwallon a oedd yn feddyg yn Llys Rhys Gryg, Arglwydd Llandyfri a Dinefwr. Honnir amdano iddo dderbyn ei wybodaeth helaeth am lysiau a meddyginiaethau oddi wrth ei fam a oedd yn perthyn i fyf y Tylwyth Teg, rhiain a oedd yn byw yn Llyn y Fan Fach ac a briododd ddyn meidrol a rhoi iddo dri mab. Yn ôl y chwedl, fe aeth hi yn ôl i'r llyn, ond yr oedd yn dal i gwrrd â'i meibion yn achlysurol a rhoi hyfforddiant iddynt (1,t.xxi). Fe sgrifennodd y mab hynaf, Rhiwallon, yr hyfforddiant i lawr mewn llyfr ar gyfer ei feibion, Gruffudd, Cadwgan ac Einion, ac unrhywun arall a fyddai'n hoffi dysgu oddi wrtho: Cymraeg oedd iaith y llyfr, ac y mae copiau ohono ar gael o hyd o dan yr enw *Meddygon Myddfai*. Nid peth dibwys yw bod hyd yn oed y llawysgrif gynharaf o'r llyfr yn gwybod am Ddynion Hysbys neu *yspisswyr*, ac yn defnyddio'r wybodaeth am lysiau a oedd gan Ddynion Hysbys yr oes (17,t.138):

Rac gwewyr kais y dialtean, y hwnn a fydd gan yr yspisswyr, a gorey yn lwnnw rac pob dolur.

Mae'n amlwg i'r reddf o gynhyrchu meddygon barhau yn yr ardal hyd yn oed yn y ddeunawfed ganrif, oherwydd o amgylch 1810 gwnaeth Brutus (sef David Owen, golygydd *Yr Haul*, a ym-



FACSIMILE OF THE FIRST PAGE OF THE ORIGINAL MANUSCRIPT.
(By permission of Messrs. Barrow & Wilcock).

4: Tudalen blaen "LLYFR MEDDYGINIAETH" o'r unfed ganrif ar bymtheg (39) gyda hyfforddiant "Rhag Davadenav".

osododd mor ffyrnig ar Henry Harries) hefyd ymgais i fod yn feddyg. Roedd tad Brutus yn grydd ac yn glochydd yr Eglwys yn Llanpumsaint, ond fe gafodd Brutus y cyfle i ddysgu Lladin. Pan gafodd y syniad o fynd yn feddyg, anfonwyd ef i fyw gyda'r Doctor Thomas o Aberduar, ger Llanbedr Pont Steffan. Fe ddysgodd yno o leiaf sut i wneud pelenni (*pills*) a chymysgu "cyfferi" (31a,t.214).

Y mae'n hysbys i Brutus, pan oedd o hyd yn llanc, hiraethu

am ddysgu'r "gelfyddyd ddu" a cheisio cael Mr Lewis, offeiriad plwyf Cynwyl, yn athro, oherwydd meddai hwnnw'r enw o fod yn ddewin medrus. Ond pan fwrriadodd Brutus wedyn fynd yn bregethwr (wedi iddo droi o'r Eglwys at y Bedyddwyr), symudodd i Goleg y Bedyddwyr Seisnig ym Mryste. Nid arhosodd yno chwaith yn fwy na blwyddyn, ond wedi iddo fethu fel meddyg ac fel dewin ac fel pregethwr, yr oedd digon o wenwyn yn ei enaid iddo ddefnyddio ei fedr sylweddol yn yr iaith Gymraeg i droi yn newyddiadurwr ymosodol.

Ceir disgrifiad manwl o Brutus yn ei ddyddiau olaf yn y *Traetbodydd* am 1867 (31,t.426/7), sydd yn awgrymu bod ynddo fwy o lymder ac anian chwerw'r *conspirator* nag o natur siriol dyn hysbys llwyddiannus fel y Doctor John Harries, Cwrtycadno.

Yr oedd o ran taldra yn ymylu at chwe' troedfedd o uchder... Pan na fyddai yn siarad, yr oedd mynegiant ei wynebpryd yn tueddu at y llymchwerw; ond pan fyddai wrth ei fodd, ac yng nghymdeithas y sawl a hoffai, newidid dull ei wyneb a phelydrai goleuni o'i lygaid bychain, ond treiddiol, a chwarauai o gylch ei enau crwn, thws, wên o'r fath fwyaf swynol... Yr oedd rhywbeth yn nhiro ei lygaid mor lladradaidd fel na allem byth gael gwared o'r argraff fod llawer o'r *conspirator* yn cael ei fradychu gan ei wynebpryd, yn enwedig gan y llygaid.

Yr oedd Brutus yn *well built*; a phan ymwisgai yn drwsiadus, yr hyn a wnaï yn awr ac eilwaith yn ei ddyddiau olaf, yr oedd golwg gyfrifol, a beon urddasol, arno... Cariai ddigon o gnawd o gylch ei esgyrn i'w wneyd yn llyfndew... Yr oedd ei lais yn lleddf, a diagynai ei dônan yn hynod o dyner a mwynaidd ar y glust... Yr oedd, o ran tymher naturiol, y caredical o feibion gwagedd; ac er na fedrai ymgadw rhag rhoddi darluniadau gor chwerthinus o bersonau...eto, nid oedd ynddo y tipyn leiaf o deimlad brwnt tuag atynt...

Rhaid i ni fod yn ddiolchgar am ei ymosodiadau ar yr Harriesiaid, oherwydd oni bai am ei ddieter, ni byddai tystiolaeth gyfoes ar gael am y gweithgareddau hynod yn ffermdy diarffordd Pantcoy ac am fywyd cudd yr ardal. Nid oes raid derbyn ei farn, ond y mae'n bosibl dysgu llawer iawn oddi wrth y ffeithiau y mae yn eu cynnig. Yr oedd yn adnabod y pethau yr oedd yn eu casáu, ac fel Catwlws gynt, yr oedd yn gallu caru a chasáu yr un pryd. Wedi iddo ymosod yn ddi-drugaredd ar Henry Harries mewn erthygl yn *Yr Haul* o dan y pennawd "Tyngedfeniaeth" (50,t.318), y mae wedyn yn rhoi cyngor tadol, fel petai'n

cofio'r pethau a ddywedodd ei dad wrtho pan glywodd hwnnw am ei ymdrechion i ddysgu'r "gelfyddyd ddu"; a hyd yn oed yma y mae adlais o genfigen yn llais Brutus:

...wela Henry Harries yn cyhoeddi ei hun yn *Fortuneteller*, ac yn galw sylw y wlad ato, ac yn y Canrif XIX o'r grefydd Gristionogol! ...Rhag cywilydd! Dyn ieuanc yn gwastraffu ei amser, i ymhyrtaeth â chelfyddyd gelwyddog a thwyllodrus o'r fath hyn! Ni all ddisgwyl cael ei dderbyn i un gwmniaeth barchus, ac ni all ddisgwyl i un o gymeradwy-aeth lai na'i osgoi, megis pe byddai yng nghanol y gwahanglwyf ysol!

Myfyried ryw gelfyddyd sydd ag egwyddorion cywir iddi, ac os gall wasanaethu ei genhedlaeth yn anrhydeddus drwyddi, ac a wna ei goffadwriaeth yn barchus pan fyddo ef yn llwch ac yn llidw ym mhridellau'r dyffryn. Dyn ieuanc yn gwastraffu ei amser i fyfyrio hudoliaethau Raphael's *Witch*, y *Book of Fate*, ynghyd â baldardd gymyaglyd twyllwyr nad ydynt ond gwawd gwir ddysgeddigion, a llyfrau y rhai sydd esgymunedig o'r llyfrgelloedd. Ac y mae yn drueni mawr bod cynnifer o ffyliaid yn ein plith, yn credu hudoliaethau Henry Harries a'i gyffelyb.

Byddai yn gysur i Brutus petai yn gallu darllen y geiriau ar goflech iddo yn eglwys Llywel, a osodwyd iddo gan ei gyfeillion wedi iddo farw ym 1866, yn 71 mlwydd oed (36,t.xiv):

Er Cofadwriaeth am David Owen
"Brutus"

Golygydd "Yr Haul" am 30% o Fynyddau
Awdur "Brutusiana" ec., ec.

O Brutus fedrus fydrwr!—marw a fu
un mor fawr fel awdur!

Ni wela Gwalia un glor

Byth rydd waith fath ryddieithwr.

Y Doctor JOHN HARRIES, CWRTYCADNO

Y mae gan ddydd reswm, greddfau a theimladau; bydd pob math o swyngyfaredd yn anelu at y greddfau a'r teimladau yn hytrach nag at y meddwl a'r deall. Triniaeth hollol wahanol sydd cisiau ar gyfer asgwrn sydd wedi ei dorri i driniaeth ar gyfer calon doredig.

Yn eu hymateb i "swyngyfaredd" bydd pobl yn adweithio yn deimladol hefyd, rhai yn ysol drosti ac eraill yn ormodol o gas

yn ei herbyn. Gan y gelynyddion cawn adroddiad o'r math yma:

Harris, Cwrt-y-Cadno, lived, I believe, somewhere in the Vale of Towy, Carmarthenshire. His fame as a conjurer extended all over South Wales about thirty or forty years ago... This "wise" old fool (Harris) really thought at one time that he could even cure mad persons through the instrumentality of his "llyfrau witcho"...(57a,t.373)

neu:

From the fabulous days of Merlin wizards held an influential place in the every-day life of the country communities in Wales. They were supposed to possess supernatural powers and by their uncanny knowledge of the movements of their enemies, they were able to inflict upon them incalculable harm. Wizards were credited with having powers to raise storms, to advise men in the events of their lives, to foretell the future, to bewitch animals, all of which power they received directly from Satan himself.

Of all Welsh wizards, it is probable that none have had a greater reputation than Dr Harries of Pantcoy, Cwrt-y-Cadno, Carmarthenshire, who lived during the first part of the 19th century...(26a,t.47)

Ac yr oedd Brutus, wrth reswm, yn perthyn i'r un cwmni, ond iddo sgrifennu ei ymosodiadau yn enw rheswm a chrefydd yn yr iaith Gymraeg:

Dywed yr Ysgrhythur Lân na wŷr dyn pa beth a ddisgwylid mewn diwrnod; ond y mae Henry Harries yn taflu y celwydd i'r Gair Sanctaidd, oblegid y mae, drwy ddwfn ddysgeidiaeth y sêr, yn gwybod pa beth a ddisgwylid i ddydd drwy ei oes...(50,t.317)

Ar yr ochr arall, fe adroddir storïau di-rif am wyrthiau'r Doctor John Harries, yn arbennig mewn cysylltiad â phethau a gollwyd ac â dynion gwallgôf a gafodd driniaeth lwyddiannus ganddo. Er mwyn deall natur ac effaith y Doctor Harries yn well, ceisiaf wahaniaethu rhwng y ffeithiau y gellir eu profi a'r storïau a sibrydd amdano ar hyd y wlad.

Y Physigwr cas i'r cryf
Gŵr gwych i'r gwan a'r methiant lu
Ymhle bynnag bo ei dŷ
Bydd dŵr yn cyrchu ato. (39,t.iiii)

Un o'r pethau na ellir eu datgysylltu oddi wrth yrfa'r Doctor John Harries yw sefyllfa Pantcoy, y tŷ lle yr oedd yn byw yng nghanol y wlad ar lethr mynydd uwchben Afon Cothi. Er i gan-noedd a miloedd gyrchu at y tŷ ar gefn ceffyl neu ar wadnau'u traed tra oedd yr Harriesiaid yn weithgar yno, John Humphreys Davies oedd y cyntaf, am wn i, i ddisgrifio ar bapur ei bererindod "i chwilio am olion ei hanes", sef hanes John Harries (45,t.215-219). Fe aeth yno, ym 1896, o eglwys Cao a'i mynwent lle claddwyd John Harries, ei dad Henry a'i fab John a'i deulu. Mi welodd J.H.Davies yno goflech y Doctor John Harries, a sgrifennwyd yn yr iaith Saesneg. A dim ond flynydd-oedd wedi ei ymweliad y gosodwyd yno hefyd garreg fedd ar gyfer ei fab, John, a'i wraig, Margaret Harries, a'u merched bach, Margaret ac Elizabeth. Mae'r arysgrifen ar honno yn Gymrac:

Er cof annwyl am John Harries, Pantcoy, o'r phwyf hwn
a fu farw Mawrth 15fed 1863 yn 36 mhwydd oed
Hefyd Margaret ei briod
fu farw Gorffennaf 17fed 1902 yn 75 mhwydd oed...

Oddi yno dringodd y rhiw serth o ddwy filltir o hyd "a'r rhan fwyaf o honi yn rhedeg trwy goedwig dew o goed derw... cyn cyrraedd pen y mynydd ar ochr yr hwn y llecha yr amaethdy bychan a fu yn gyrchfan dieithriaid a phererinion lawer o flynyddau yn ôl".

Dywedodd Hedd Molwynog (sef J.H.Davies) mai tŷ to gwellt oedd y tŷ gwreiddiol a beudy ac ysgubor ynghlwm wrtho, a pherllan afalau y tu cefn i'r tŷ. Pan aeth ef yno, safai tŷ arall yn ei lle, ond merch-yng-nghyfraith John Harries a gadwai'r tŷ yno o hyd: Margaret, gwraig John Harries, y mab iau, oedd hi, mac'n bur debyg —yr un a fu farw ym 1902 yn 75 mlwydd oed.

Dros hanner canrif yn ddiweddarach disgrifiodd Ancirin Talfan Davies, yn ei lyfr *Crwydro Sir Gâr*, sut y cafodd ef olwg ar Pantcoy o'r pellter, o bentref Cwrtycadno, wedi iddo ddilyn troelliadau Afon Cothi (13,t.54):

Yr oedd yn rhaid aros i ofyn i bostmon ...am Bantcoy, cartref y Doctor John Harries y dewin, a dangosodd ef i mi dyddyn bychan ar y llech-wedd gerllaw. Yr oedd yn anodd meddwl am bobl yn teithio o bobman i'r tyddyn anghysbell hwn i ymfyn am gynghorion y gŵr hysbys...

O gyfeiriad Cwrtycadno y daethom ninnau hefyd i ymweld â

Pantcoy, nid ar gefn ceffyl ac nid ar wadnau ein traed chwaith, ond mewn car teulu ar ddiwrnod tesog o fis Mehefin, 1974. Roedd y ffordd yn gul a droellai o'r heol fawr (sy'n arwain drwy Ddolau Cothi i Lanbedr) i fyny at Gapel y Methodistiaid Calfinaidd yn Cwrtycadno (a adeiladwyd ym 1890). A chulach fyth oedd y llwybr a oedd yn arwain oddi yno dros Afon Cothi i gyfeiriad Pantcoy. Ond cyn cyrraedd yno, daethom at ysgoldy'r Bwrdd (wedi ei gau ychydig yn ôl) yng nghysgod derwen fawr ac ar ei dô lwynog ar ben ffon hacarn, arwyddlun Cwrtycadno. Yn adeg y Doctor Harries yr oedd yn yr un lle dafarny, yng nghysgod yr un dderwen, a'i enw Ysgubor Nera (45,t.218). Cedwid hwn gan berthynas i'r Doctor; a dim ond ychydig i fyny safai ffermdy Pantcoy mewn gardd.

Gwnaeth Ancirin Talfan gangymeriad wrth beidio â mynd yn agos at y tŷ a cholli, felly, y cyfle i deimlo naws y lle: tŷ ar lechwedd wedi'i guddio ymysg coed ond gyda golygfa cang ar draws y wlad, a'r bont, a'r ffordd, —a'r pererinion ar y ffordd. Roedd yr awyr yn ysgafn, a'r tawelwch yn llesmeiriol. Er fy syndod gwelais nant yn rhedeg dros risiau heibio i ochr y tŷ: y dŵr sy'n cyrchu at dŷ y ffusigwr.

Curais y drws â chnociwr ar ffurf pen cadno, ond nid oedd neb gartref. Er gwaethaf hynny, roedd hi'n amlwg fod rhywun yn byw yno heddiw; un prawf oedd y blodau rhyfeddol o liwgar yn ymyl y nant a oedd yn creu teimlad o ddieithrwb a balchder.

Mae gennyf, yn naturiol ddigon, ychydig o ffeithiau pendant sy'n ddi-ramant braidd ynddynt eu hunain ond sy'n gymorth i ddeall sut yr oedd y Dyn Hysbys yn byw.

Fel pob meddyg arall byddai'r Dr John Harries yn anfon dylebau at y bobl a gawsai driniaeth ganddo am "*Medicine and Medical Attendance as per account rendered*" (79). Anfonid y rhain nid o Bantcoy ond o Bant-teg, gan berthynas i'r Doctor. Cafodd un frawddeg yn y ddyleb ystyriaeth arbennig gan fwy nag un sylwedydd, sef:

Unless the above amount is paid to me, on or before the.....day of..... next, adverse means will be resorted to for the recovery.

Awgrymodd Ancirin Talfan, er enghraifft, fod rhybuod cudd yn y geiriau yn awgrymu y byddai'r Doctor yn defnyddio swyn-

gyfaredd yn erbyn dyledwr araf. Ond o'm rhan i fe'i caf yn anodd i weld yn y geiriau unrhywbeth gwaeth na iaith fygythiol y gyfraith. Wedi'r cyfan, dim ond y cleifion cyffredin, a âi ato fel meddyg, a fyddai'n derbyn dyleb. Byddai'n rhaid talu ar un-waith am bob math o wasanaeth swyngyfareddol, fel y tystir gan nifer o'r storiâu sy'n dilyn.

Datgelwyd ychydig o ffeithiau hefyd am Henry Harries, ei fab, a oedd yntau yn sêr-ddewin. Hwyrach iddo ystyried fod sêr-ddewiniaeth yn fwy addas iddo gan nad oedd ganddo na'r ieched na'r bersonoliaeth gref sy'n rhoi hyder i'r cleifion:

Henry Harries had a pale face, very dark hair, hanging down in ringlets over his narrow shoulders, grey eyes, and a very high narrow forehead... His health was very delicate, owing to a weak chest. (60,t.56)

Ym 1832, yn ystod y cyfnod pan oedd Henry Harries yn mynychu "*Commercial Academy*" Mr G.C. Bird yng Nghaco, derbynai weithiau Alexander Pope gyda chyflwyniad oddi wrth ei dad.

Bu farw John Harries ym 1839 pan syrthiodd oddiar ysgol wrth geisio diffodd tân yn nho ei dŷ (60,t.55). Ni adawodd cwyllys a rhoddodd y Swyddfa Prawf yng Nghaerfyrddin lythyr gweinyddiad ar gyfer ei eiddo. Priododd ei fab Henry bedair mlynedd wedi marw ei dad, ym 1843, fel y gwyddom oddi wrth y *Bidding Letter* a anfonwyd ganddo ef a'i wraig Hannah o'u tŷ ym Mhlwyf Caec:

Having lately entered the matrimonial state, we are encouraged by our friends to make a Bidding on Thursday and Friday ...when and where the favour of your good and agreeable company is humbly solicited... (60,t.54 a 56).

Braidd yn drist yw'r llun olaf o Henry —gan lygad-dyst— yn ccisio parhau gyda gorchwylion ei dad. Yn allanol y mae popeth bron yr un fath â chynt: y claf ffyddiog yn dod o bellter ar draws y mynydd; y bwyd cartrefol ar ei gyfer wrth gyrraedd; y doctor hysbys yn disgwyl y claf yn ei fyfyrgecell. Ond y mae ysbryd yr hen Ddewin doeth, síriol wedi gadael y lle. Meddai J. Rowland (Giraldus) ym 1889:

Forty-six years ago I accompanied a young man from the neighbourhood of Aberystwyth, who had been ailing for a long time, to the conjurer's den. We had to walk over the mountains from Llanddewi

Breif. After we arrived there, we entered a large kitchen and called for some home-brewed ale, and bread and cheese. When we were discussing the ale and the oatmeal cake, a female kept questioning my companion as to his ailments, symptoms &c. The Doctor's room was at the east end, where every word from the kitchen could be clearly heard. At last we were summoned into the *sanctum sanctorum*, a dusty, musty room.

In a chair sat a young man dressed in black, his coat looking rather shiny. He had long black hair hanging over his shoulders, and he looked ill. There were a great many old books on the shelves. He took them down and began to read the young man's "planet". It was a large folio volume. Of course he knew the symptoms and cause of illness, &c. &c. and gave him a recipe. The Doctor could read English like a boy in Standard III, but was thoroughly ignorant. He died soon after and his patient.

His brother tried to carry on the same trade, but the star of Court y Cadno had set. (60a,t.30)

Gan nad oedd y brawd ond deuddeng mlwydd oed pan fu farw ei dad, mae'n amlwg na chafodd lawer o gyfle i ddisgleirio yn y grefft o ddewino.

Tua hanner canrif wedi marw y Doctor John Harries, atgyfododd y diddordeb ynddo mewn pryd i alluogi rhai o'i gyfoedion i ddatgelu yr hen hanes yn cofn. Erbyn hyn mae'r man lle'r oedd John Harries yn byw bron yn angof. Fel ateb i gwestiwn yn y *Red Dragon* (75,t.282-3), ac ysgrif ar "A Welsh Archimago", sgrifennodd Helen Watney ei bod yn credu iddo fyw yn agos i Gaerfyrddin gan y byddai rhai o'r gweision Cymraeg yn ei thŷ yn mynnu dweud am rywun: *he had gone down below Carmarthen to consult the wise man*. Dywedodd Beili Glas mewn cysylltiad â'r un testun (75,t.373): "Harris, Court y Cadno, lived, I believe, somewhere in the Vale of Towey, Carmarthenshire." Gallodd Glanffrwd Thomas yntau fod yn fwy penodol drwy ddyfynnu'r union eiriau a ddefnyddid gan y bobl a fwriadai ymweld â'r Doctor, sef (74a,t.117): "Ni awn at ddyn hysbys Cwrt-y-Cadno."

Wrth ddarllen storiâu am weithredoedd honedig John Harries, Cwrtycadno, mewn llyfrau a chylchgronau a argraffwyd wedi 1886, mae lle i synnu sut y casglodd hanesion o amgylch person a oedd, wedi'r cwbl, bron yn gyfoes, gan greu arwr uwchraddol, un sy'n barod i roi cyngor hawdd ei gael mewn cyfyngder, un sy'n edrych o'r pellter ar weithgareddau dynion —yn gellweirus

weithiau, ond hefyd yn dadol: tad sy'n gallu helpu a chosbi yn ôl yr haeddiant, ond sy bob amser yn barod i wrando ar eu cwynion a'u gofodau: un sy'n hoffi dynion er gwaethaf eu holl wendidau.

Ymysg y storiâu a ddaeth i lawr, gellir gwahaniaethu rhwng nifer o fathau arbennig:

- storiâu am iacháu dynion gwallgof;
- storiâu am fesmereiddio;
- storiâu am ddarganfod pethau a gollwyd, ac am gosbi lladron;
- storiâu am alw ysbrydion.

Trin Dynion Gwallgof

Byddai'r gwallgofiaid yn lletya mewn ysgubor wrth ochr y tŷ a chael lle yn yr ardd i gerdded o gwmpas. Mae Penardd yn sôn am ddau ddull gwahanol o driniaeth. Yr un cyntaf oedd triniaeth drwy ddychryn sydyn – *shock treatment*, a weinyddir yn ein hoes oleuedig ni drwy gyfrwng ergyd drydanol. Arferai'r Doctor Harries gerdded gydag un dyn gwallgof ar lan Afon Cothi:

ond rhyw dro, pan yr oeddent yn sefyll uwchben pwll dwfn yn yr afon, rhoes Harris hwp yn sydyn iddo, nes yr oedd y gwallgof druan dros ei ben a'i glustiau ynghanol y pwll... Gwaeddai ar Harris i'w achub, ond ni syflai y meddyg o'r fan. Dychrynodd y dyn gymaint, fel y dywedir iddo ennill ei synnwyr yn ôl a chael ei lwyr iacháu. (15,t.154)

A dyna'r driniaeth seicolegol-gadarnhaol arall honno sy'n gweithio gyda'r claf ac nid yn ei erbyn, gyda chymorth ychwanegol tipyn o ffusig cyfogi – oni wneir rhywbeth tebyg heddiw gydag alcoholwyr? Dywedir bod perthnasau dyn prudd-glydfus ynwaith wedi ceisio'i berswadio yn rhesymegol nad oedd y diafol yn preswyllo ynddo. Aethpwyd at feddygon y wlad a rhodéwyd iddo gyffuriau i'w lyncu. Ond cryfhau a wnaeth yr ysbryd mileinig ynddo ar ôl pob cais. O'r diwedd penderfynwyd mynd yr holl ffordd at Harries Cwrtycadno. Trôdd John Harries yn gas yn erbyn y perthnasau – a hynny o fewn clyw'r claf – a'u beio am fynd ag ef at "y cwacs a'u tipyn o ddŵr drewedig". Ac wedi sefydlu ei awdurdod fel yma, trôdd at

y claf a dweud yn ffyddiog: "Y mae un o'r cythreuliaid gwaethaf wedi aflonyddu arnoch. Ond wrth lwc nid yw yn rhy ddiweddar i gael gwared ar hwn."

Awgrymai'r Doctor Harries i'r claf lyncu penbwl wrth yfed dŵr o ffynnon, a bod y penbwl wedi tyfu yn froga erbyn hyn, ac yn y driniaeth a ddilynai fe ddefnyddiai'r Doctor lyfr yn ogystal â galw ar yr ysbrydion. Felly fe ddilynodd y Doctor yr egwyddor sylfaenol o enwi achos y clefyd. Ar ôl hynny nid oedd eisiau dim byd ond cael gwared o'r achos gweladwy, ac fe wnaeth hynny drwy achosi i'r claf gyfogi a gofalu bod broga yn y cyfog. Gwelodd y gwallgof y broga a sgrechain: "Dyma fe'r diawl. Mi'th gefais ti o'r diwedd. Chei di ddim ymhel â fi rhagor, y cythraul..." A dywedir iddo wella yn llwyr o'r funud hon ymlaen (15,t.154-7).

Hwyrach bod y stori am y broga yn ymddangos yn ffansiol i ni. Ond mewn gwirionedd, dilyn a wna'i'r Doctor John Harries draddodiad a oedd ar gael mewn manau eraill o Gymru. Credid er enghraifft yn ardal Cors Fochno (32,t.134-5) fod rhai clefydau yn cael eu hachosi drwy yfed dŵr yn cynnwys penbwl, a bod y penbwl yn tyfu yn froga yn y corff dynol. Credid hefyd fod gan rai dynion y gallu i ddisodli'r broga drwy gyfryngau swyn-gyfareddol. A dyna'n union a ddigwyddodd ym Mhantcoy hefyd.

Mesmereiddio

Dyma stori a adroddwyd gan D.G. Williams, Ferndale, yn ei *Gasgliad o Lŷn-Gwerin Sir Gaerfyrddin* (70,t.321), a enillodd wobwr iddo yn Eisteddfod Llanelli, 1895:

Dywed hen frawd parchus o Landeilo...iddo ef ryw dro gael cyfleustra i wneuthur prawf ar eu medr [yr Harriesiaid]. Gofynnai y dewin os carai yr ymwelydd weled lleng o berchyll yn myned heibio o flaen ei lygaid. Atebodd yr ymwelydd yn y cadarnhaol. Gyda hyn dyma'r perchyll yn croesi'r ystafell yn dyrfa ancirif. Ac mor bell ag y gellid barnu byddai yn orchwyl mor rhwydd i'r Harriesiaid gadw'r orymdalth berchyll i fynd am ddiwrnod cyfan ag am ychydig o eiliadau.

Rwy'n amau a ddylwn i grybwyll yma stori arall a adroddwyd gan Maria Trevelyan (66,t.217), oherwydd fe geir bron yr un stori am Dick Spot (52,t.255). Ond mae'n stori a gysylltwyd â

John Harries, a dyma hi. Unwaith, meddai Maria Trevelyan, roedd y Doctor Harries yn ymweld â pherthynas iddo yn Abertawe, ac aeth i brynu darn o gig iddi mewn siop gigydd. Pan enwyd y pris barnodd ei fod yn rhy uchel o lawer. Cymerodd ddarn o bapur a sgrifennu arno ychydig o eiriau a chuddio'r papur mewn twll yn y bwrdd. Y canlyniad oedd i'r cigydd ddawnsio yn ddibaid yn y siop gan ganu'n aflywodraethus:

Eight and six for meat
What a wicked cheat!

heb fedru ymatal; ac nid y cigydd yn unig ond hefyd ei wraig a ddaeth i edrych amdano, a'r gwas a nifer o bobl eraill. Fe aeth hyn ymlaen yn swllyd a direol hyd nes y daeth y dewin yn ôl i'w rhyddhau gan symud y papur cuddiedig.

Y geiriau yn y stori gyffelyb am Dick Spot oedd:

Six and four are ten,
Count it over again!

Gwrthweithio Lladron

Mae llawer o storïau ar gael am bethau a gafodd eu lladrata neu eu colli, ac a ddaeth yn ôl gyda chymorth John Harries. Un o arfau seicolegol y Doctor oedd y rhybudd y byddai tyfiant ar dalen y lleidr yn ei gwneud yn amlwg mai ef oedd yn euog. Rhybudd arall oedd y byddai'r lleidr yn aros ynghlwm wrth ei wely am ysbaid hir. Roedd ofn y gosb yn aml iawn yn ddigon i achosi i'r pethau a ddygwyd ddod yn ôl; ac weithiau deuai'r pethau yn ôl dim ond i rywun fygwth mynd i ofyn cymorth y Dyn Hysbys o Gwrtycadno.

Adroddaf yn gyntaf stori am ymdrech lwyddiannus pan na chafodd neb ei gosbi. Mae'r stori ei hun yn siŵr o fod yn wir (neu yn agos at fod yn wir!) oherwydd fe'i hadroddwyd gan Glasnant yn ei lyfr hunangofiannol *Cyn Cof Gennyfac Wedyn* (31, t. 157-160), lle mae'n sôn am brofiad ei dadcu, ac rwyf innau'n adnabod wyrion Glasnant sy'n byw yn Abertawe. Mae'r stori yn dangos hefyd pa mor bell y byddai pobl yn fodlon mynd er mwyn ceisio cymorth y Dyn Hysbys.

"Am fy Nhadcu yn unig," meddai ef, "yr wyf yn sôn yn awr,

a'r hyn a gymerodd le rhyngddo a Harris Cwrtycadno."

Roedd Dai Ddafydd, sef tadcu Glasnant, yn byw mewn tyddyn yn y Betws ger Rhydaman, ac yn ôl ei arfer roedd yn paratoi cart a merlen ryw noson yn Ebrill, i werthu bresych cynnar ar hyd y gymdogaeth. Ond pan gododd yn gynnar yn y bore roedd y cart a'r bresych, a'r ferlen hefyd wedi eu lladrata; ac er iddo ofyn yn y gymdogaeth nid oedd neb wedi gweld y lleidr. Felly dywedodd wrth ei wraig: "Nansen, dyma fi, os caf fenthyg ceffyl buan, yn mynd i ymgynghori â Harris, Cwrtycadno."

Fe gafodd fenthyg y ceffyl cyflymaf yn yr holl ardal a bant ag ef i gyfeiriad y Dyn Hysbys ym mhen uchaf Sir Gaerfyrddin, gan farchogaeth drwy Landybïe a Llandeilo a chyrraedd cartre'r Dewin cyn nos. A dyma sut y mae Glasnant yn disgrifio'r ymweliad:

Pan yn wynebu'r glwyd o flaen y tŷ disgynnodd oddiar gefn y ceffyl blinedig, a daeth gwas y dewin ato gan ei holi'n fanwl am ei neges a'i daith hirfaith. Cyn hir arweiniwyd fy Nhadcu i ystafell y Dyn Hysbys a dodwyd ef i eistedd mewn cadair esmwyth ac yna bu holi manwl. Dywedodd ei stori a'r peth a'i synnai oedd fod y Dewin yn gwybod popeth am Blwyf y Betws ynghyd a'r heolydd a oedd yn arwain i fewn ac allan o'r plwyf. Ymhén tipyn dywedodd Harris—"Arhoswch fan hyn am ychydig funudau tra byddaf i yn ymgynghori â'r llyfrau a'r ysbyrdion sydd yn byw gyda mi." Dychrynodd fy Nhadcu, ond byr fu'r dychryn gan i'r Dewin ddychwelyd gyda gwên fuddugoliaethus ar ei wyneb a dywedodd: "Rwyf wedi gweld y gaseg a'r cerz bresych ar yr heol yng Nghastellnedd—mae lleidr wrthi yn brysur yn gwerthu bresych—ewch ar unwaith dros y Mynydd Du—ac ewch ymlaen drwy Pontardawe i Gastellnedd ac erbyn i chwi gyrraedd bydd y gaseg yn ystabi tŷ tafarn a'r cert yn wag ar y iard o flaen y stablau.

Wedi cael tamaid iddo'i hun a'r ceffyl talodd ychydig o sylltau i'r dewin hysbys ac ymaith ag ef dros y Mynydd Du i Gastellnedd gan holi am ddyn yn gwerthu bresych o gert. Ac fe gafodd bopeth fel y dywedodd y Dyn Hysbys, ond bod y lleidr wedi ffoi.

Colli Wats

Adroddir stori gredadwy gan Arthur Mee, a'i clywodd oddi wrth gyfaill oeddrannus. Ychwanegodd ei dystiolaeth ei hun (43a,t.373):

The "Dyn Hysbys" lived somewhere between Llandello and Carmarthen. He was known to all the countryside as "Dr Jones, Cwrtycadno", was looked upon as a good man, and the magic which he worked seemed in no way connected by the populace with the evil one.

O amgylch 1830 ("some 35 years ago") collodd tad y cyfaill dan sylw, a oedd yn byw yn agos i Felinfoel, y wats yr arferai ei gadw yn ei dŷ. Chwiliodd ym mhobman ond yn ofer. Felly penderfynodd ymofyn â'r Dyn Hysbys, a mynd ar gefn ei geffyl i Gwrtycadno. Wedi clywed ei achos, dywedodd y Dyn Hysbys wrtho ei fod yn gwybod pwy a gymerodd y wats ac y byddai'n bosibl iddo adennill ei eiddo. Gallai wyllo'r lleidr yn gynnar yn y bore a'r wats yn hongian oddi ar dyfiant ar ei dalcen. Atebodd yr ymwelydd y byddai'n well ganddo gollu'r wats na gweld y lleidr yn cael ei anharddu fel yna. Ond hawliodd y Dyn Hysbys ei bod hi'n amhosibl cael y wats yn ôl heb gosbi'r lleidr. Fe wrthododd yr ymwelydd unwaith eto i ganiatáu i hyn ddigwydd, ac fel canlyniad yr oedd yn rhaid iddo dalu tâl dwbwl am ymgynghori â'r Dyn Hysbys, sef un gini. Felly hanner gini, yn debyg iawn, oedd y tâl arferol.

Cosbi Lleidr

Adroddir stori arall wedyn gan Arthur Mee, sef hanes hen borthmon a oedd yn byw yn agos i Bum-heol. Wedi gwerthu nifer o wartheg a llyncu ambell lasied o ddiod, aeth adre gyda'r arian i gyd, sef pedwar ugain punt. Ond pan ddeffrôdd yn y bore, roedd ei arian wedi diflannu i gyd. Ar ôl chwilio yn bryderus aeth at Ddyn Hysbys Cwrtycadno. Dywedodd hwnnw wrtho y byddai'r arian yn llogell ei got erbyn y bore nesaf, ond y byddai'r lleidr yn aros yn ei wely am weddill ei oes. Fe gafodd y porthmon ei arian yn ôl, fel yr addawodd y Dyn Hysbys, ond methodd ei wraig â chodi o'i gwely o'r amser hwn hyd at ddiwedd ei hoës—pedair blynedd ar bymtheg. Fe gyfaddefodd mai hi a gymerodd yr arian.

Y Dyn Hysbys a'r Gŵr Drwg

Er gwaethaf honiad Arthur Mee (43a,t.373) nad oedd y bobl gyffredin yn cysylltu gweithredoedd John Harries Cwrtycadno â'r Gŵr Drwg, nid yw hyn yn hollol wir. Wrth gwrs, nid oes raid cysylltu'r "ysbrydion sydd yn byw gyda ni" â'r cythraul, ond nid oes modd gwadu iddo chwarae â'r syniad o alw ar ysbrydion, fel y dangoswyd mewn lle arall yn y llyfr hwn—hyd yn oed yr ysbrydion a gaethiwyd gan y Brenin Solomon. Ac y mae yna un stori sy'n cael ei hailadrodd lawer gwaith, er nad oes sicrwydd pwy a roes gychwyn iddi. Roedd Hedd Molwynog yn gwybod amdani (45,t.215) pan sgrifennodd ym 1897. Dywedodd fod ganddo reswm cyfrinachol dros ddechrau siarad am Ddyn Hysbys Cwrtycadno yn ymyl ei fedd ym mynwent eglwys Caeo:

Yr oeddwn am geisio profi i ni ein hunain... fod ei gorff yma mewn gwirionedd, am y dywedir ac y credir gan lawer fod yr ysbrydion y bu ef yn mwynhau eu nodded a'u harweiniad am gynifer o flynyddoedd wedi cipio'r corff ar ddydd y gladdedigaeth a'i gladdu mewn rhyw gilfach anghysbell yng nghreigiau'r mynydd. Clywid hyn gan ddynion y credid hwynt am bob peth arall gan wlad gyfan o bobl; a dywedir fod y rhai a ddygent yr arch wedi ei theimlo yn ysgafnau wrth groesi yr afon Cothi. Brawychwyd gyr o ychen oedd yn pori ar y ddôl gyfagos ac ni ddaliwyd mohonynt nes cyrraedd Pwll Uffern—rhaid rhyfeddol ar yr afon tua phedair milltir yn nes i'w tharddell.

Mae Hedd Molwynog yn dadlau na fyddai'n debygol y byddai'r ysbrydion yn cymryd y corff a gadael y garreg fedd. Eto, gellir teimlo yma ryw gysylltiad ysgafn â meddwl yr Oesoedd Canol pan oedd Duw a'r Cythraul yn ddiogel yn eu lle.

Dynion Hysbys yn yr Oesoedd Canol

Oedd, yr oedd Dynion Hysbys ar gael yng Nghymru yn ystod yr Oesoedd Canol hefyd. Yng Nghymru byddai'r offeiriaid eu hunain, yn aml iawn, yn gweithredu fel "Dynion Hysbys". Adeg Harri'r Wythfed gorfodwyd rheithor o Sir Faesyfed, Lewis ap Morgan o Aberedw, i ymddangos o flaen ei well a'i amddiffyn ei hun yn erbyn y cyhuddiad canlynol (72,t.332):

The said person daily frequenteth himself for lucre [sic] of money to charm for horses, beasts, and other cattle that be sick and maketh writings for their succour at night. And maketh holy water without any salt



5: Y DOCTOR WILLIAM PRICE, LLANTRISANT
yn ei arwisg dderwyddol

for them, for the which the king's subjects daily doth resort to him, twenty miles compass therabouts.

Item, he maketh writings for young children that cryeth in their sleep to hang their necks.

Yn aml mae hi'n anodd iawn darganfod ble mae crefydd yn gorffen a swngyfaredd yn dechrau, a sut mae gwahaniaethu rhwng offeiriaid yr Eglwys Gatholig a oedd yn dal i ofalu am greiriau neu luniau gwyrthiol a Dynion Hysbys a oedd yn iacháu pobl ac anifeiliaid mewn ffyrdd anunionged. Byddai cleifion yn cyrchu ar bwy bynnag oedd yn addo adfer eu hiechyd. Gellir bod yn hollol siŵr nad yw pobl sâl ddim yn gofidio drwy ba gyfrwng y rhoir eu hiechyd yn ôl iddynt –y peth hollbwysig yw cael adferiad llwyr.

Rhaid cofio hefyd mai math o offeiriaid oedd y Derwyddon yn y cyfnod cyn-Gristnogol, ac fe gafodd un dosbarth neilltuol ohonynt, sef y *filid*, hyfforddiant arbennig mewn dewiniaeth a swynyddiaeth gan ddysgu ar yr un pryd y grefft o iacháu ac o osod mellith ar bobl (71,t.42).

Doctoriaid Brodorol a Dynion Hysbys

Tybed pa mor agos, wedi'r cyfan, yw'r tebygrwydd honedig rhwng y "medicine men" brodorol yn Affrica a'r Dynion Hysbys yng Nghymru? Yn gyntaf, y mae *un* gwahaniaeth pwysig rhyngddynt: bydd y Doctoriaid brodorol yn gweithredu fel arweinwyr cydnabyddedig eu llwythau, tra bydd y Dynion Hysbys yng Nghymru, er gwaethaf eu cyhoeddusrwydd, yn cael eu diarddel i raddau helaeth gan gymdeithas. O'r dechrau'n deg bu'r Eglwys Gristnogol yn amddiffyn yr honiad nad oes neb yn gallu iacháu ond Duw. Gorfodwyd y swynwyr yn gynnar iawn i ddefnyddio enw Duw, neu'r Drindod; a hyd yn oed pan adawyd y swynwyr heb eu herlid, byddai'r gymdeithas yn gwgu ar bobl a oedd yn mynd atynt er mwyn adfer iechyd.

Bu ein cyfaill Roy Lewis mor garedig â rhoi i mi lun o *Medicine Man* brodorol o Rhodesia, a dynnodd ei hun ym 1964, sef pennaeth o'r enw Megemba o bentref yn Ucheldir Dwyrain-ol Rhodesia. Y mae Megemba yn sefyll o flaen tŷ tŷ-gwellt, dyn cydaerth, siriol a chyfrwys mewn gwisg werinol, ond gydag

arwyddion ei swydd a'i urdd. Yn ei law dde ac o dan orchudd mae'n cadw'r esgyrn ar gyfer ei waith dewinol; yn ei law chwith y mae gleiniau ac amwledau a ffon, yn debyg i deyrnwialen, a ddefnyddiai, o bosib, ar y drwm brodorol i roi rhybudd rhag perygl sydyn. Ar ei ben y mae'n gwisgo cap â phlu estrys.

Sut y mae Cymru yn cymharu? Ni welais fawr o dystiolaeth bod John Harries, Cwrtycadno wedi cael hwyl ar arwisgo, er iddo ymddangos o bosib, yn y cylch, "yn ei wenwisg". Ond yn ôl Elias Owen, byddai consurwyr, hwyrach yn arbennig yng ngogledd Cymru, yn hoffi dillad rhodresgar (52,t.262):

Whenever he assumed to practise the "black art", he put on a most grotesque dress, a cap of sheepskin with a high crown wearing a plume of pigeons' feathers, and a coat of unusual pattern with broad hems and covered with talismanic characters. In his hand he had a whip the thong of which was made of the skin of an eel...

Y peth tebycaf i'r Pennaeth Megemba y deuthum ar ei draws yw llun y Doctor William Price o Lantrisant yn ei wisg dderwyddol, sydd yn awr yng ngofal Amgueddfa Sain Ffagan. Yma mae'r Doctor Price (a fu farw tua diwedd y ganrif ddiwethaf) yn sefyll gyda chroen cadno ar ei ben, ffagl yn ei law dde ac arwydd lleuad yn ei law chwith.

Ond stori arall yw stori ei fywyd tymhestlog ef (2).



6: Y PENNAETH MEGAMBA O DDWYRAIN RHODESIA:
Dyn Hysbys (Medicine Man) brodorol gydag offer ei grefft.

Yn ôl Evan Isaac (24,t.135), y gred gyffredin ydyw y "gweithreda'r consurwr yn rhinwedd gwybodaeth ddeicithr a gaiff mewn hen lyfrau cyfrin na cheir monynt gan neb ond consurwyr. Trwy ddefnyddio'r llyfrau hyn, llwydda i ddirymu cynllwynion a melltithion rheibesau ac ysbrydion drwg".

Yn ddiamau y mac hynny'n cyfateb i'r goel gyffredin. Ond wrth geisio darganfod y ffeithiau y tu cefn i'r goel y mac'n ymdangos i'r dynion hysbys drysori mathau gwahanol o lyfrau cyfrin a'u defnyddio ar gyfer amcanion amrywiol. Gall y llyfr fod yn gasgliad o hyfforddiant cyfrin wedi ei ddewis gan y Dyn Hysbys ei hun a'i sgrifennu â'i law ei hun.

Gall fod yn llyfr astrolegol gyda rhestrau o sefyllfaoedd y planedau ac arwyddion y Zodiac am bob amser o'r dydd drwy gydol y flwyddyn: llyfr sy'n anhepgor ar gyfer cyfansoddi horosgob. Gall fod yn llyfr meddygol-lysieuol sy'n cynnwys meddygiaethau swyngyfareddol. Gall hefyd fod yn gasgliad preifat o bethau cyfrin amrywiol.

Y mac Penardd (15,t.129) yn cynnwys yn ei ymchwil Almanaciau fel yr un a gyhoeddwyd gan Wil Awst yn y flwyddyn 1794, o dan y teitl:

Erra Pater, neu ddaroganydd yr Amserau: yn dangos wrth gwrs y Blynnyddau a Dyddiau Hynod a Nodedig. Wrth y Planedau, Elfennau a Chreaduriaid: Pa dywydd fo'n dyfod Auaf, Gwanwyn, Haf a Hydref dros byth. Hefyd pa un ai Prinder ai Llawnder o Yd, Gwaïr, Porfa a Ffrwythau Coedydd, a pha un ai Heddwch ai Rhyfel, fydd bob blwyddyn dros byth. Gan William Augustus. Yr Argraffiad Cyntaf. Caerfyrddin, argraphwyd gan I. Ross, yn Heol-Awst, 1794.

Argraffwyd y llyfr poblogaidd hwn am y bedwaredd waith ym 1843; ond gan fod gwybodaeth yr Almanaciau yn agored i bawb, nid oes modd eu hystyried ymysg y "lyfrau cyfrin".

Llyfr Cyfrin John Harries, Cwrtycadno

Un o lyfrau enwocaf Cymru yw hwn, ond un na welodd neb o'r rhai sy'n sôn amdano erioed mohono, er bod llawer wedi chwilio yn ddyfal. Y mac David Owen (Brutus), cyfoeswr a gelyn penaf dewiniaid Cwrtycadno yn ei ddisgrifio fel yma:

Eithr gyda sôn am lyfrau Cwrtycadno, y mac sôn neillduol am un llyfr, sef prif lyfr Cwrtycadno, llyfr llyfrau yr oraci fawr sydd yno, wedi cyhoeddi ei hun drwy y wasg yn alluog i ddiad-ddyrysu pob dyrzswch, i ddwyn pob dirgelion i'r goleuni... Gyda golwg ar y llyfr rhyfeddol hwn, dywedir mai ystyllod trwchus ydyw ei gloriau, ac amdano gadwyn haiarn, a thri chlo egwyd. Dyweda eraill mai gwden sydd am gloriau y llyfr rhyfeddol hwn, ac un clo egwyd; ond cytunir fod yno llyfr o bwys mawr a chymaint ei faintioli â Bibl Eglwys, a'i fod wedi ei rwymo â chadwyn haiarn neu bras a chlo armi.

Yn awr y dyb ydyw, fod y llyfr dan sylw yn un tra phwysig, ei fod yn rhy beryglus, fel y rhaid ei gadw dan gadwyn a chlo; a phe agorid ef, y neidiai y cythreuliaid allan oddi rhwng ei ddail, ac yr ysgubent yr holl wlad i ddyfnderau y Môr Coch. (15,t.145-6)

Fe sgrifennodd Brutus ei adroddiad ym 1839, ond yr oedd ofn y llyfr yn parhau hyd at y naw-degau, pan aeth John Humphreys Davies (cyn iddo fynd yn Brifathro Coleg y Brifysgol yn Aberystwyth) ar bererindod i Gwrtycadno ac ymweld â fferm Pantcoy lle roedd merch-yng-nghyfraith John Harries, hen wraig siriol, garedig, yn dal i fyw. Cafodd ganddi ganiatâd i edrych drwy lyfrau John Harries, a gedwid yn y llofft mewn coffor deri mawr. Tra'r oedd ef yn chwilota, roedd hen frawd parchus o'r ardal yn cadw cwmni iddo.

Roedd gan John Harries lyfrau rhyfeddol, ac yn eu mysg argraffiad cyntaf yr *Encyclopaedia Britannica* yn y flwyddyn 1707; cyfrol ar forwriaeth a seryddiaeth; llyfr gyda phroffwydoliaethau Michael Nostradamus, a'r *Anatomy of Melancholy* gan Burton. O'r diwedd daethpwyd ar draws llyfr mawr o faint Beibl Teuluaid, a dau glo arno. "Wel," meddai J.H.Davies yn orfoleddus, "dyma'r hen lyfr codi cythreuliaid heb os nac onibai."

A chyn gynted ag y dywedodd y geiriau, gwelodd ei gyfaill yn "ymgripiant tua'r grisiau" a dianc, heb edrych yn ôl, nerth ei draed. Pan agorwyd y clo, fodd bynnag, nid llyfr cyfrin oedd rhwng y cloriau ond llif meddyg, gefeliliau at dynnu dannedd ac

oedd mewn cistan dan glo, ac mae'r stori am yr hyn a ddigwyddodd i'r gwraegedd a agorodd y gist wedi i George adael yr allwedd yn y clo drwy esgeulustra yn dipyn o dro trwstan:

Un llyfr oedd yn digwydd bod i mewn yn bresennol, ar amlen yr hwn yr oedd lythrennau mawrion cochion, canys yr oedd ei deitl ac felly yn y blaen wedi ei argraffu ag inc coch. Yr oedd hefyd luniau asnaezrol arno yn edrych ym mhob dull a modd yn echrydus; ac un ohonynt, yr hwn oedd yn sefyll megis yn y canol, ac yn fwy na'r lleill, yn codi ei law i fyny ac yn ysgymygu ei ddannedd yn wyneb Jiwpiter.

Ni feiddiodd neb losgi'r llyfr wedi'r cyfan ond fe honnodd George mai "hen Almanac Ffrangeg ydoedd a gafodd gan ryw Ffrencyn o forwr a fu'n aros yn y porthladd gerllaw."

Roedd Daniel Owen hefyd yn gwybod am "hen lyfr tew wedi ei rwymo mewn ledr du a'i dudalennau yn felyn a phydredig" (51). Roedd yr hen lyfr yn eiddo i "hen ddewines" sef Nansi'r Nant, sy'n chwarae rhan allweddol yn ei nofel *Gwen Tomos*. "Ystyrir Nansi yn gryn ddoctores ac ymofynnid ei chyngor pan fyddai dyn neu anifail yn afiach." Ond beth bynodd a sgrifennwyd yn yr hen lyfr, "rhwng y tudalennau yr oedd rhyw fath o lysieuyn neu ddeilen grin..., pob deilen yn wahanol." Fe honnodd Nansi amdano, "Fyde raid i mi ddim ond gyrru y ddeilen yma mewn llythyr i —mi wyddost pwy— ag iddo ei hogli, mi gicic'r bwced yn syth."

Mae nifer o gomediau Cymraeg yn yr ugeinfed ganrif hefyd yn ymdrin â Dyn Hysbys a'i lyfr cyfrin, comediau fel *Pelenni Pitar* gan D.T.Davies (14), sy'n trafod hynt tudalen golledig o lyfr cyfrin Dyn Hysbys; hefyd *Y Dyn Hysbys* gan Stephen J. Williams (73), sydd â John Harries, Cwrtycadno, ei hun yn batrwm iddo. Y mae arwr *Twyllio Hen Lwynog* wedyn gan J. Ellis Williams (70a) yn debyg i John Ffynnon Eilian.

Yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth chwiliais ymysg y llyfrau a'r llawysgrifau a ddaeth yno o lyfrgell John Harries, Cwrtycadno. Gwelais yno y *Llyfr Cyfarwyddiadau* (78) o'i eiddo, ac ynddo dros bum cant o gyfarwyddiadau ar sut i wella pob math o glefyd gan gynnwys *gout* a *Lues Veneris*. Gwelais hefyd ei *Holograph Book*, sef llyfr a sgrifennodd â'i law ei hun:

"John Harries, Cwrtycadno, his holograph book of incantations, astronomical signs and calculating bills" (77, t. 13). Disgwylais weld ynddo swynion ar odl mewn ffurf gweddi neu chwedl o'r fath a fu'n wybyddys yn yr Alban ac yn Iwerddon wrth drin a gwella clefydau. Yn lle hynny fe lanwyd tua deuddeg o dudalennau ag enwau brenhinoedd a thywysogion ysbrydol a orchfygwyd gan y Brenin Solomon, bob un gyda'i sêl arbennig. Enwau fel Baruziel a Casiel ac Otziel a geiriau fel, "*I conjure thee thou great and potent Prince Casiel...*"

Llyfr Cyfrin y Dyn Hysbys o Sir Ddinbych

Er nad wyf yn gwybod eto beth oedd cynnwys "prif lyfr Cwrtycadno", fe ddaeth i'm dwylo lyfr cyfrin rhyw Ddyn Hysbys o Sir Ddinbych a oedd yn gyfoeswr â'r Doctor Harries, llyfr a sgrifennodd y Dyn Hysbys â'i law ei hun. Fel canlyniad rwyf yn argyhoeddedig fod sail gadarn ffeithiol i'r sôn am lyfrau cyfrin yn eiddo i ddynion hysbys, a'r trafod arny'n nhw.

Llyfr bach yw hwn wedi ei sgrifennu â llaw; llyfr a allai ffittio'n rhwydd i boced cot fawr. Fe'i rhoddwyd i mi ar fenthyg gan Llinos Davies yn ystod yr amser pan oedd hi'n Geidwad y Llyfrau Prin yn Llyfrgell Coleg y Brifysgol, Abertawe. Taenwyd lledr tenau ar draws y cloriau a sylwais fod arno olion o glo wedi ei dorri. Mae i'r llyfr tua dau gant o dudalennau ysgrifenedig a thua ugain ohonynt wedi eu sgrifennu yn Gymraeg. Mae ynddo hefyd dudalen yn nodi'r cynnwys —ond nid y cynnwys i gyd. Heb fanylu gormod, gallaf grynhoi a dweud fod yno hyfforddiant ar sut i alw ar yr ysbrydion a elwir Tylwyth Teg; hefyd fathau gwahanol o hyfforddiant mewn dweud ffortiwn ac astroleg; ceir swynion mydryddol yn yr iaith Gymraeg ac yn Saesneg a hyfforddiant yn y traddodiad Cabalaidd am sut i wneud ffiguryn-meddu-swyngyfaredd (*amulet*).

Y mae'r llyfr cyfrin hwn yn cyfateb i raddau i'r goel gyffredin am gynnwys llyfr o'r fath, ac yn hwn fe geir gwybodaeth ddiethr nas ceir gan neb ond consurwyr; hefyd arwyddion i ddirymu "melltithion rheibesau". Eto, nid oedd yn "hen lyfr", ond yr oedd y Dyn Hysbys a'i cyfansoddodd yn ofalus i nodi'r hen

abuddad tangnawfodd dduw Rhingod a
myfi ag yr wfi ymaich tynghodi dduw dduw
Panalouf arua achonim pobudhwng y
galunaf a huanu yn ol Angpoddadwy
Hollalluog Amen

The ten general names which are
Alhuni, Epher, Zebaoth, Elim, Spharai,
Adonay, Jah, Tetragrammaton, Sadaq, —
Give Commandment O God to thee, Strength
Confirm O God thy work in us. let them be as
Dust before the face of the wind, and let the
Angels of the Lord scatter them, let all their
eye be Darkness and uncertain, and let the
Angels of the Lord persecute them
part of the 7 and 35 psalms

8: Tudalen o lyfr cyfrin y Dyn Hysbys o Sir Ddinbych (80)

Yfrau lle cafodd ei wybodaeth, rywbeth fel hyn: ar dudalen
41-2 nodir bod hyfforddiant "To cure witchcraft" wedi ei
dyfynnu o "Blackgrave MSS"; ar dudalen 115 dyfynnir "A
legendary charm used in former days in gathering herbs" gan
odi "taken from an old black letter missal in possession of the
mercary."

Weithiau y mae rhyw ddirgelwch yn gysylltiedig hyd yn oed
'r cyfeiriadau at lyfrau, fel y digwydd ar dudalen 22: "Choice
Aphorismes of Cardans seven segments by William Lilliec
-Englished and disposed under proper titles. Certain general
phorismes to be observed by the Artists." Aeth blynyddoedd
teibio cyn i mi ddarganfod ei fod yn cyfeirio at lyfr gan
Hieronymus Cardanus a argraffwyd ym Mharis ym 1550 ac a gyf-
eithwyd gan William Lilly yn yr ail ganrif ar bymtheg. Y mae'r
lyfyniadau o'r llyfr astrolegol hwn yn dechrau yn ddifrifol:

Certain general Aphorismes to be observed by the Artist: First: Life is
short, Art long, Experience not easily obtained, judgment difficult and
therefore 'tis necessary that a Student not only exercises himself in
considering several figures, but also that he diligently read the writings of
others who have treated rationally of this Science, and make it his
business to find out the true natural causes of things by Experiments;
to know the certain places and possessions of the Planets, fixed stars and
constellations, but above all to be a passionate lover of truth...

Y mae'r dyfyniad hwn, fel llyfrgell sylweddol John Harries,
Cwrtycadno, yn brawf o'r astudiaethau eang a ai ymlaen ym
myd y Dynion Hysbys. Yn aml iawn tynnwyd gwybodaeth o
wledydd estron, ond y mae ychydig o brawf ar gael hefyd am
ymchwil yn yr iaith Gymraeg.

Ymchwil yn yr iaith Gymraeg
Fe sylwodd Penardd (15, l. 137) fod rhai o lyfrau ysgrifenedig
John Harries yn yr iaith Gymraeg yn cyfateb yn hollol i rai Ellis
Edwart. A chan na chyhoeddwyd dim o'r pethau hyn yn
Gymraeg cyn eu hamser hwy, esboniodd y tebygrwydd rhyng-
ddynt drwy dybio fod y ddau awdur yn gyfarwydd â'i gilydd. A
mawr oedd fy syndod pan ddarllenais yn y llyfr cyfrin o Sir
Ddinbych hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg "i alw ar ysprydion

a elwir Tylwyth Teg" a oedd yn dechrau bron iawn yr un fath â'r un yn llyfr Ellis Edwart (15,t.134), fel y gellir gweld yn wir wrth gymharu'r brawddegau cyntaf yn y ddau lyfr:

Llyfr Ellis Edwart:

Yr ysbrydion yma hefyd eill fod i'w galw fel ysbrydion ereill, am riw achosion lle maent yn fynych: Rhaid i'r lle boch iw galw arnynt fod yn bur lanwaith a chadach wedi ei daenu ar lawr neu ar fwrdd naw troedfedd oddi wrth y cylch...

Y Llyfr Cyfrin o Sir Ddinbych:

Hyfforddiad i alw ar ysbrydion a elwir tylwyth teg. Rhaid i'r lle y boch yn galw arnynt fod yn bur lanwaith a chadach wedi ei daenu ar lawr neu ar fan o amgylch troedfedd oddi wrth y cylch neu sŵcil ar lawr... (80,t.1)

Nid yw'n ymddangos yn amhosibl felly i'r Dyn Hysbys o Sir Ddinbych ymuno, ar brydiau, mewn cwmni ysbrydoledig cyfrin gydag Ellis Edwart a John Harries, Cwrtycadno.

Gwybodaeth o'r Llyfr Cyfrin: Daeargoel ("Geomancy")

Fel math o atodiad hoffwn ymhelaethu am un maes lle byddai'r llyfr cyfrin o fantais amlwg i'r Dyn Hysbys o Sir Ddinbych, sef yn ei grefft o rag-ddweud y dyfodol yn ffurf Daeargoel (*Geomantia*). Nid yw'r dull hwn mor gyffredin â darllen horosgob, ond fe'i harferir hyd heddiw yn Nigeria fel ffordd gydnabyddedig o ddatrys pynciau dyrys.

Ar nifer o dudalennau digyswllt (sef t. 1,2,20-1,137-9,145-6 ac ar rai tudalennau heb rif) cofnododd y Dyn Hysbys hyfforddiant geomantaidd a oedd yn ei alluogi i ddarllen ffortiwn gyda chydweithrediad yr holwr. Y mae egwyddor y trefniant yn syml ach na chwarae cardiau, a byddai'n hawdd ei ymarfer i ddiddanu cyfeillion. Ond y mae llwyddiant yr ymarferiad yn dibynnu ar y graddau y mae'r dewin yn gallu cyrraedd isymwybod yr holwr.

Er mwyn creu'r awyrgylch priodol byddai'r Dyn Hysbys yn dechrau gyda "*Prayer of Geomancy*" yn ymbil ar Dduw wrth wneud "*this said figure of geomancy*" er mwyn cael ateb a fyddai'n wir a pherffaith, a hynny yn enw Iesu Grist, ein Harglwydd a'n Gwaredwr.

Wedyn gofynnir i'r holwr wneud yn gyflym bedair llinell o ddotiau heb ystyried y rhif. Wrth feirniadu'r dotiau, yr unig




beth o bwys yw, a ydyw'r rhif yn wastad (sef yn lluosrif o ddau) neu beidio. Er mwyn cyfansoddi'r ffigur geomantaidd, gosodir un pwynt i lawr ar gyfer pob llinell "anwastad" a dau bwynt ar gyfer pob llinell wastad.





Wrth ddefnyddio ffigurau o bedair llinell y mae'n bosibl cael un-ar-bymtheg o amrywiadau, ac felly yr un nifer o ffigurau geomantaidd gwahanol. Rhoddir enw Lladin i bob un o'r ffigurau ac fe'u cysylltir, bob yn ddau, â'r "planedau" sy'n rheoli'r wythnos, sef yr Haul (dydd Sul), y Lleuad (dydd Llun), Mars (dydd Mawrth), Mercurius (dydd Mercher), Jupiter (dydd Iau), Venus (dydd Gwener), Saturnus (dydd Sadwrn) —a'r ddraig. Gan ein bod ni'n gyfarwydd â'r arfer o gysylltu'r planedau ag agweddau arbennig —Mars â rhyfel, Venus â serch ac yn y blaen— byddai'n bosibl dyfalu atebion o'r rhestr uchod yn unig. Ond yn y Llyfr Cyfrin rhoddir hyfforddiant ychwanegol ar sut i ddefnyddio'r ffigurau, gan alw'r ffigurau yn "freuddwydion" a'r holwr yn "freuddwydiwr" (*dreamer*). Rwy'n dyfynnu yma'r dchongliad byrraf yn y llyfr, mewn trosiad Cymraeg.

1 Fortuna Major	Lwcus iawn mewn aur ac arian, a gorau gyda newydau: hwyrach anrheg annigwyl gan gyfaill.
2 Fortuna Minor	Arian, cyfeillion a ffawd ddifyr.
3 Via	Y mae hyn yn rhagddweud anffawd sy'n anodd ei hosgoi: golyga hefyd eynion personol.
4 Populus	Mae'r freuddwyd yn adrodd am newyddion yn bennaf. Fe ddaw'r absennol yn ôl; mynega'r arwydd ffawd gymharol o lwcus a da; hefyd, yn aml, deithio yn ymyl dŵr.
5 Acquisitio	Y mae hyn yn dangos gwahoddiadau, rhoddion a newid y sefyllfa bresennol er mantais.
6 Laetitia	Y mae'r freuddwyd hon yn hapus ac yn bleserus. Y mae'n golygu cyfarfodydd hwylus a gwledda, a newyddion da yn agos.
7 Puella	Priodi os yn sengl, a phlant os yn briod. Llwyddiant yn y rhan fwyaf o'r pethau.
8 Amissa	Rhaid gwyllo rhag rhyw berson twyllodrus yn agos i'r holwr; hwyrach rhyw golled.

9 Coniunctio	Y mae hyn yn golygu delio â phapurau, siartiau, llyfrau a phethau yagrifenedig ar gyfer pwrpasau amrywiol.
10 Albus	Arwydd da. Fe gallf y breuddwydiwr ei ewyllys ond yn aml iawn y mae yn claddu cyfaill.
11 Puer	Geiriau cas a gwyllt. Ffrae a thrafferth ym mywyd y breuddwydiwr a'i dynged.
12 Rubens	Arwydd o ddieter, terfysg, teimladau drwg a chynghorwyr twyllodrus. Cymer ofall -y mae gelysion yn agos.
13 Cancer	Cymer ofal rhag i'r gelyn dy frifo di; hwyrach rhywbeth mewn cysylltiad & charchar. Y mae'r arwydd hwn hefyd yn siarad am ofidiau trist.
14 Tristitia	Y mae hyn yn golygu anffawd a thristwch ac, o bosib, bydd cyfeillion yn marw.
15 Pen y Ddraig	Ffawd lwyddiannus a lwcus gyda rhyw fath o fantais i'w disgwyl. Bydd taith yn dilyn.
16 Cynffon y Ddraig	Os oes unrhyw arwyddocâd yn hwn, y mae'n golygu rhywbeth drwg.

Allwedd ar gyfer ymarfer darogan yn null *Geomantia*:

1 Fortuna Major ** * * .	2 Fortuna Minor * * ** **	SOLIS 
3 Via * * * .	4 Populus ** ** ** **	LUNAE 
5 Acquisitio ** * ** .	6 Laetitia * ** ** **	IOVIS 

7 Puella * ** * .	8 Amisa * ** * **	VENERIS 
9 Coniunctio ** * * **	10 Albus ** ** * **	MERCURI 
11 Puer * * ** .	12 Rubens ** * ** **	MARTIS 
13 Cancer * ** ** .	14 Tristitia ** ** ** .	SATURNI 
15 Pen y Ddraig ** * * .	16 Cynffon y Ddraig * * * **	

Daeargoel yn Nigeria

Mewn cymhariaeth â'r darllen ffortiwn (neu ddarllen *tesni*) difyr hwn, y mae i ddaeargoel Nigeria lawer mwy o awyrgylch defodol (4,t.56). Fe ddefnyddir cnau yn lle dotiau, a phenillion yn lle planedau. Y mae offeiriad yn cymryd lle'r Dewin. Rhwir yr enw *Odu* i'r penillion, a rhaid i'r offeiriad wybod y penillion cymwys (a'u rhifau) i gyd heb ymofyn llyfr. Y mae'r defodau yn gymhleth ac nid wyf am ymhelaethu arnynt; ond rhaid i mi ddyfynnu o leiaf un o'r *Odu* er mwyn dangos y dyfnder teimladol sumbolaidd sy'n bosibl mewn ymarferion geomantaidd:

ODU yn gysylltiedig ag un o'r ffigurau geomantaidd:
Rwyf yn bendithio dau, nid un.
Fe roddwyd y broffwydoliaeth hon i lili'r dŵr
Sydd yn ymestyn i'r llaid,
Sylfaen y greadigaeth.
Fe ddaeth yr amser i greu.

IV SWYN A LLUN

Fel y cofnododd Evan Isaac (24,t.159), mae gan amryw Gymry y ddawn "ddieithr ac anesboniadwy" i atal gwaed o glwyf. Fe honnodd Alexander Carmichael fod yr un ddawn o "*Casgadh fala*" ac gael gan rai pobl arbennig yn yr Alban hefyd, sef "the power of certain persons to stop the escape of blood from man or beast without any sort of manipulation, without personal contact, and even at a distance". (12,iv,t.280)

Mae'n werth tynnu sylw at y stori Roegaidd lle yr ataliwyd gwaed yr arwr Odussews drwy gân swyn, pan glwyfwyd ef gan faedd gwyllt yn ystod ymgyrch hela (21,II.451-8).

Gwyddom am swynion tebyg a lefarwyd yn yr iaith Gymraeg wrth atal gwaed o glwyf. Wrth eu hynganu ar lafar y bydd swynion yn cael effaith. Oherwydd hynny, fe gollwyd y rhan fwyaf ohonynt gyda threigladau amser. Yn ffodus iawn, cadwyd nifer o swynion Cymraeg mewn llawysgrifau meddygol. Er enghraifft, mewn un *Llyfr Meddygimiaeth* (39,rhif375) a gasglwyd yn yr unfed ganrif ar bymtheg, sgrifennwyd ymysg cyfarwyddiadau ymarferol swyn "I stopio gwaed", sef:

I stopio gwaed, Gwna fel hyn,
Dydd da it lysse sy yn tyfu ar y ddaear,
Ar Fynydd Olafed y'th gad.
Iachâ yr archoll ac ystopia'r gwaed
Yn enw Iesu Grist a fu farw ar y groes.
In nomine patris et filii et spiritus sancti. Amen.

Gydag ychydig o ymdrech gallwn ddod o hyd i'r allwedd sy'n agor cyfrinach y swyn:

Gwna fel hyn. Cyfeirir yma, o bosib, at ryw hyfforddiant gweladwy fel yr un a geir mewn swyn arall "i stopio gwaed" yn yr un llyfr (39,rhif466), sef "Dod dy fawd neu dy fysedd ar y wythien neu yr archoll a dowaid y wers hyn dair gwaith..."

Dydd da it llyse. Wrth gyfarch planhigyn fel petai yn gydradd â dynion, mae'r swyn –fel plentyn a bardd a sant hefyd– yn ymwybodol o'r agosatrwydd sy'n bod rhwng popeth byw.

Mae'r cyfeiriad at *Mynydd Olifed* yn ein gorfodi i chwilio yn y Beibl am y bennod ysig sy'n adrodd am ymweliad Crist â Mynydd yr Olewydd, sef yr ail bennod ar hugain yn yr Efengyl yn ôl Luc, adnodau 39 a 44:

Ac wedi iddo fynd allan, efe a aeth yn ôl ei arfer i Fynydd yr Olewydd; a'i ddiasgyblion hefyd a'i canlynasant ef...

Ac efe mewn ymdrech meddwl a weddiodd yn ddyfalach: a'i chwys ef oedd fel defnynnau gwaed yn disgyn ar y ddaear.

Gallwn deimlo yr un argyfwng mewn un o'r emynau hyfrytaf yn yr iaith Gymraeg, sef yr unig emyn a sgrifennwyd gan Thomas Lewis, y gof o Dalyllychau:

Wrth gofio'i riddfannau'n yr ardd,
A'i chwys fel defnynnau o waed—
Aredig ar gefn oedd mor hardd,
A'i daro â chleddyf ei Dad... (40,rhif655)

Mae'r emyn a'r swyn, ac yn wir bob llun crefyddol, yn anelu at y teimladau ac at yr isymwybod yn hytrach na cheisio adrodd digwyddiadau hanesyddol moel. Nid yw'n anodd dychmygu sut y mae hyn wedyn yn arwain at chwedl grefyddol, chwedl sy'n honni bod planhigyn wedi tyfu ar Fynydd yr Olewydd yn y man lle disgynnodd chwys Crist "fel defnynnau gwaed" a bod gan hwnnw y rhinwedd "i iacháu archoll ac i stopio gwaed" yn enw Iesu Grist.

In nomine patris... Wrth orffen y swyn gyda'r Drindod a hynny yn yr iaith Ladin, ni wheir amgen na dilyn y patrwm a osodwyd gan offeiriaid yr Eglwys, sef galw ar yr awdurdod uchaf sydd ar gael.

O hyn oll mae'n ymddangos bod natur swyn yn wahanol iawn i natur carreg. Peth materol yw carreg. Gall unrhywun ddysgu sut i daflu carreg a tharo dyn neu gath neu ffenestr. Ond er mwyn i swyn gael effaith, rhaid bod yr un ysbryd o barchus ofn yn y meddyg ag yn y claf. Os nad yw'r ddau yn perthyn i'r un byd ysbrydol, bydd pob ymdrech yn ofer. A hwn yw'r rheswm –ac nid rhyw uwchraddoldeb honedig– pam y bydd swynion y

doctoriaid brodorol yn Affrica yn methu cael effaith ar y dyn gwyn.




10: Longinus ar Groes Geltaidd yn Llan-gan (47,pl.38)

Swyn Longinus

Fel y dywedais yn barod, y mae'r swyn iacháu yn perthyn i'r un byd emosiynol â darluniau crefyddol. Fe gadwyd ymysg llawysgrifau'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth swyn Cymraeg i atal gwaed, sy'n cyfeirio at yr un digwyddiad Beiblaidd ag a ddarlunir ar groes Geltaidd yn Sir Forgannwg. Mae'r swyn yn adnabyddus o dan yr enw "Swyn Longinus". Mae ar gael mewn llawer iaith ac mewn ffurfiau amrywiol, ond dyma sut yr ymddengys mewn llawysgrif o'r bymthegfed ganrif ac yn yr iaith Gymraeg (76):


Dyma Weddi i Ystopio Gwaed

Lonsiwa [=Longinus], marchog dall, o ebrw a gymerodd gwaiv yn i law ac a frathodd ystlys ein harglwydd ni Iesu Grist dan ben i bron ac o'r brath rhedodd gwaed a dŵr: y gwaed er ein prynu ni a dŵr sy yn bedyddio ni  yn enw y tad safod y gwaed yn enw y mab safod y gwaed yn enw yr ysbryd glân na rhedego gwaed mwy allan Y tad a'r mab a'r ysbryd glân a'th gadwo di rac pob ryw ddrwg yn yr awr hon ac yn dragywydd.

Y Groes Geltaidd

Mae croes Geltaidd yn sefyll yn Llan-gan, Sir Forgannwg, yn wynebu'r eglwys (47, pl.38). Fe'i cerfiwyd yn yr unfed ganrif ar ddeg, cyn dyfod y Normaniaid. Mae'r llun yn ei chanol, mewn ffordd braidd yn amrwd, yn dangos Crist ar y groes yn estyn ei freichiau, eto heb ddangos y groes ei hun. Ar yr ochr chwith i Grist saif milwr â gwaywffon yn ei law yn barod i drywanu ystlys yr Arglwydd. Ar yr ochr dde iddo gwelir milwr arall sydd, hwyrach, yn estyn ysbwng o finegr.

Longinus (neu Lonsiws) yn ôl pob tebyg yw'r milwr â gwaywffon. Ond sylwer nad yw'r Beibl yn rhoi'r enw ond yn cyfeirio'n ddirgel at y digwyddiad, yn yr Efengyl yn ôl Ioan, pennod 19, adnodau 34-5:

11: Llun ac enw Longinus mewn llawysgrif Surieg o'r chweched ganrif (67, l.477) 



Ond un o'r milwyr a wanodd ei ystlys ef â gwaywffon; ac yn y fan daeth allan waed a dwfr. A'r hwn a'i gwelodd a dystiolaethodd...

Ceir hanes y milwr Longinus mewn traddodiad na chafodd ei gynnwys yn y Beibl, ond sydd ar gael mewn llyfr apocryffaidd, sef *Actau Peilat* (26, t. 113-55) ac mewn llythyr honedig oddi wrth Peilat at yr ymerawdwr Tiberius. Dywedir yno am Longinus nid yn unig mai ef a drywanodd ystlys Crist, ond hefyd iddo fod yn grediniwr. Ni nodir dim am y ffaith ei fod yn ddall ("marchog dall" yn y swyn).

Yn rhyfedd iawn, fe gadwyd y traddodiad am y milwr Longinus ("Loinsias") a oedd yn ddall ac a ddaeth i weld, mewn drama grefyddol yn yr iaith Gymraeg (28, t. 190) sy'n perthyn i'r unfed ganrif ar bymtheg, drama a gai ei chwarae yn yr Eglwys adeg y Pasg. Yn y ddrama hon, meddai un marchog wrth y llall yn ymyl y groes:

Arch i Loinsias o'i ddewrder
Y marchog mawr i brydd-der
Rhoi ffon wrth ais Iesu
A'i frathu o'i gryfder.

A dyma ateb Loinsias:

Y mae ofn ar fy nghalon
Fod hwn yn ŵr gwirion
Oherwydd wrth y gwaed o'i ais
Myfi a gefais fy ngolygon.

Y mae yn dilyn, felly, fod y swyn am y milwr Longinus yn defnyddio traddodiad a oedd yn adnabyddus ac yn fyw yn yr Oesoedd Canol. Er nad oedd y traddodiad hwn yn uniongred, roedd yn gallu cyffwrdd yr enaid yn ddwfn, gan ddangos y pechadur Longinus, a oedd yn clwyfo corff Crist, yn cael gweld yn gorfforol ac yn ysbrydol, oherwydd "o'r brath y rhedodd... y gwaed er ein prynu ni a dŵr sydd yn ein bedyddio ni."

A dyma un prawf arall: mewn llawysgrif Surieg o'r chweched ganrif dangosir yr enw a'r llun gyda'i gilydd, sef llun o'r croes-hoeliad lle sgrifennwyd yr enw *Longinos* mewn llythrennau Groegaidd uwchben y milwr â'r waywffon (67, t. 477).

Ac nid yw'r traddodiad am Longinus wedi marw eto. Bob dydd Gwener y Grogolith dangosir, yn Eglwys San Pedr yn Rhufain, y waywffon a ddefnyddiwyd gan Longinus i drywanu

ystlys Crist ... yn wir cefais hanes yr achlysur hwn gan yr Athro Hugh O'Neill a welodd y waywffon â'i lygaid ei hun.

Swynion Amrywiol

Rhyw argyfwng yw deunydd llawer o swynion. Pa mor ffansiol bynnag y bo'r hanesyn, y mae'r argyfwng ei hunan yn ffaith sy mor agos atom ac mor wirioneddol â phoen. Rhoddir yma ryw ddwsin o enghreifftiau amrywiol, y rhan fwyaf ohonynt yn yr iaith Gymraeg, sy'n dangos agweddau gwahanol ar swynion:

swynion ar ffurf drama neu chwedl Gristnogol;
swynion ar ffurf gweddi Gristnogol;
swynion gyda deunydd o ysgrythur apocryffaidd;
swynion gyda deunydd paganaidd;
swynion ar ffurf dogfen ysgrifenedig amddiffynnol.

Yn gyffredinol, defnyddid y swynion ar ffurf drama i wella clefyd neu ddrwg sy wedi digwydd yn barod. Ond byddai'r gweddiau a'r swynion ysgrifenedig yn amlach na pheidio yn cael eu defnyddio i warchod dyn rhag drwg a ddisgwyliid, neu a ofnid.

Fel rheol byddai defodau arbennig yn gysylltiedig â'r swyno ac yr oedd personoliaeth y swyn-feddyg yn bwysig hefyd. Dyma sut y nodwyd hyn yn un o'r swynion yn y Llyfr Cyfrin o Sir Ddinbych:

Thus Words being spoke with grate revarens and faith has Don wondars
(80, t. 140)

O ran ffurf, y mae'r swyn sydd ar ffurf chwedl, fel arfer, yn un sy'n gyffredin i nifer o ieithoedd drwy Ewrob i gyd ac yn rhan o'r traddodiad Cristnogol. Ar y llaw arall, mae gan y swyn ar ffurf gweddi wreiddiau yng nghreffft dderwyddol y *filid* Gwyddelig.

Sonnir am swynion â natur y Gelfyddyd Ddu ynddynt mewn pennod arall. Ychwanegais hefyd ffeithiau a all fod o gymorth i ddeall swyn yn well, lle bo hynny'n angenrheidiol, ond heb fynd i ormod o fanylion.



12: PEDR YN WYLO
Cerflun o'r bedwaredd ganrif yn Amgueddfa'r Lateran, Rhufain (67,t.175).

1. Pedr ar Faen Mynor

Swyn yn erbyn y ddannoedd (52,t.265).

Fel yr oedid Pedr yn eistedd ar faen Mynor
Crist a ddaeth ato, ac efe yn unig:
"Pedr, beth a ddarfu i ti?"
"Y Ddannoedd, fy Arglwydd Dduw."
"Cyfodi, Pedr, a rhydd fyddi!"
A bydd pob dyn a dynes iach oddi wrth y ddannoedd
Y rhai a gredant i'r geiriau hyn
Yr wyf fi yn wneuthur yn enw Duw.

Sail ysgrythurol. Yr Eféngyl yn ôl Luc, 22, adnodau 61 a 62:

A'r Arglwydd a drodd, ac a edrychodd ar Pedr.
A Phedr a gofiodd ymadrodd yr Arglwydd, fel y dywedasai efe wrtho,

Cyn canu o'r ceiliog, y gwedi fi deirgwaith.
A Phedr a aeth allan ac a wylodd yn chwew-dost.

Hyfforddiant. Fe sgrifennid y geiriau yn erbyn y ddannoedd weithiau ar ddarn o bapur. Rhaid rhwbio'r papur yn erbyn y dannedd a'i gadw yn agos at y corff hyd nes iddo ymddatod. Ac mi fyddai'r claf heb boen dannedd tra byddai'r papur gydag ef.
Llun. Mae cerflun o'r bedwaredd ganrif yn dangos Pedr yn wylofain yn ymyl y ceiliog, a Christ yn ymddangos ger ei fron. Y mae'r cerflun yn rhan o arch o garreg sydd nawr yn Rhufain yn amgueddfa'r Lateran (67,t.175).

2. Y Mwyth Gryd

—sef clefyd sy'n achosi gwres a chrynu.

Pan weles ein Harglwydd Iesu Grist y grog a ddarparaisid iddo,
Efe a grynes yn ddilrfaer,
A'r Iddewon a ofynasant iddo yn llym:
"Ai ofni yr wyt o weled y grog hon,
neu ynteu y mwyth gryd y sydd yn dy ddolurio?"
A'r Iesu a'u hatebodd yn llym:
"Myfi nid wyf yn ofni y grog hon,
ac ni'm doluria'r mwyth gryd,
eithr crynu ger bron fy Nhad nefol ydwyf
gan weled ei ddarpar Ef i'r rhai a'm crogant."
Ac wrthych yn lle gwir dywedaf,
Y neb o ddyn a glywo'r geiriau a ddywedwyf ag a'u credo
Ac a wnelo yr hyn oll a ddodais yn orchymynedig ynddynt
Gan ymgrymu ger bron ei Dad nefol,
Efe ni ddolarir fyth gan y mwyth gryd,
Ac ni ellir a bair iddo ofnau.

Ac yn awr o Arglwydd Iesu Grist boed o'rh drugaredd
na chaffed y mwyth gryd ddolurio a blino dy was hwn
a gwasanaethwr Duw Dad o'r nef,
nag yn awr gyndrychol nag yn un amser arall ynghyffryd
ei fywyd a'i einioes yn y byd hwn.
Yn enw y Tad, a'r Mab a'r Yspryd Glân...Amen. (1,raif/809)

Sail ysgrythurol. Yr Eféngyl yn ôl Matthew, 27, adnod 39:

A'r rhai oedd yn myned heibio a'i cablassant ef, gan ysgwyd eu pennau.

Yr Eféngyl yn ôl Ioan, 25, adnod 28:

A'r Iesu wedi troi atynt a ddywedodd, Merched Jerusalem, nac wylwch o'm plaid i; eithr wylwch o'ch plegid eich hunain, ac oblegid eich plant.

Hyfforddiant. "Dod yr ysgriften hon ar bwll calon y claf yn grogedig ar ei fwnwgl."

3. Rhag y Ddannoedd

Santes Fair a eisteddodd ar garreg, ar faen yn ymyl
ei meudwyfa,
A'r Yspryd Glân a ddaeth ati pan oedd drist.
"Fam drist ti, fam f'Arglwydd,
A pha ddolur a'th flin?"
"Dolurio mae fy nannedd,
ac a'u amddarwanodd pryf a ddaeth yma a elwir migram,
ac mi a'i cnoais ag a'i lleweis."
"Mi a'th dyngedaf di daffin o negrbina
Trwy'r Tad a'r Mab a'r Yspryd Glân,
Mair Forwyn, yr hael feddyg Duw,
Na bo iti âllel na chwylf na dolur na molest
i wasanaethwr y Dduw yma,
Yn gynfrychol yr awr hon
Nag mewn dant, nag mewn llygad, nag mewn pen,
o gwbl o'r ddannoedd...Amen."

Esboniad. Credid yn yr Alban, a hefyd yn yr Aifft ac ym Mesopotamia, mai pryf oedd achos y ddannoedd. "Wormy lines" yw'r enw a roddir yn yr Alban i swyn yn erbyn y ddannoedd (7,t.143).

4. I Iacháu Brathau a Dyrnodau

Dyma swyn a wnaeth yr Arglwydd Iesu Grist ei Hun
ac a ddangosodd i'r tribrodwr
gan ofyn iddynt pa le yr aent.
"Ni awn," ebent hwy, "i fynnydd yr Olifer
i gasglu llyseua i iacháu brathau a dyrnodau."
Yma y dywed Ef, "Ymholwch drachefn
A chymerwch eliw'r eliwyddden, a gwyn ŵy
a gwlan du, a dodwch wrthynt gan ddywedyd fel hyn:
Mi a'th dyngedaf di, frath,
Drwy ras a grymiant yr wyth archoff
Y rhai a fuant yn y gwir Dduw, a'r gwir Ddyn,
Ac a'u cymerth ef yn y sancteiddaf gorff
er ein prynu ni;
Ac er yr hwn a ddymuneist ti dy hun;
Ac er y blinder a gefaist di;
Ac er y bridwerth a bryneist di dy hun,

Iesu Grist, hyd na ddolurio ag na drewo, ac na ddrygroglu
y brath hwn y mae,
Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân...Amen (1,rhi/808)

5. Swyno Llosg

Fe ddyfynnodd Marie Trevelyan y swyn hwn fel un a ddefnyddid yng Nghymru yn ei llyfr *Folk-Lore and Folk-Stories of Wales*.

Three little angels came from East and West
Each one tried the fire and ice to test.
In frost, out fire!
In the name of the Father, the Son and the Holy Ghost. (66,t.227)

Hyfforddiant. Wrth adrodd y swyn dair gwaith, byddai'r swynwr yn gwneud cylch â'i fynegfys o'r dde i'r chwith, yn groes i symudiad yr haul, ar gledd ei law dde—tri chylch ar y tro, a naw cylch i gyd. Wedyn byddai'n chwythu dair gwaith ar ben y man llosg.

Tarddiad. *Yr Efyngyl apocryfffaidd yn ôl Bartolomeu.*

...For there are four other angels set over the winds, The first angel is over the north and hath in his hand a rod of fire and restraineth the superfluity of moisture that the earth be not overmuch wet...

And the angel that is over the south-west is called Naouthe, and he hath a rod of snow in his hand and putteth it into his mouth and queneth the fire that cometh out of his mouth. And if the angel quenched it not at his mouth, it would set all the world on fire. (26,t.176)

Engbreiffitiau eraill. Er i Marie Trevelyan ddyfynnu swyn o Gymru, mae enghreifftiau tebyg ar gael mewn llawer man. Mae swyn o Gernyw yn dechrau fel hyn:

Three ladies came from the east,
One with fire, and two with frost... (23,t.173)

a swyn o Norfolk:

An angel came from the north,
And he brought cold and frost.
An angel came from the south,
And he brought heat and fire... (17a,t.169)

Roedd y swyn yn boblogaidd iawn, ond oherwydd y traddodiad llafar, newidiwyd llawer ar ei ffurf.

6. Swyn Gwarchodol

ar ffurf gweddi gynganeddol:

Yr Arglwydd Goruchaf eurgledd gwreichion
A gadwo yn dda ni ennyd ac gadwo ein dynion
Rhag Sais gau a Gwyddel a rhag cas cigyddion
A rhag bloedd a lledrith
A rhag bleiddiau a lladron,
Rhag hwnacw yn ddrwg rhag cwn cynddeiriogion
Rhag draig awyr a thwrf a rhag dryg-grythorion
A rhag hir ddulam sarff a rhag cerdd Wiliam Sion. (18,t.125)

Cyfnod. Nodwyd y swyn ar dudalen o *Lyfr Du Caerfyrddin*, â llaw sy'n perthyn i ddiwedd y bymthegfed ganrif.

7. Swyn Gwarchodol o'r Ddeunawfed Ganrif

Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd,
Bod i Grist Iesu y gysegredig a oddefe ar y grws
Pan goddist Sant Lasarys o'i feidd wedi farw,
Pan faddesuist bechodau i Fair Fagdalen
a thrygra wrthyl fel bo gadwedig bob peth a henwyf fi
ag a croesawyf fi +++ trwy nerth a rhinwedd dy eiriau
Bendigedig di fy Arglwydd Iesu Grist. Amen.

Iesu Grist ein harglwydd ni
Gwared ni rhag pop rhiwogaeth o Brofedigaeth
a'r ysbrydol o uwch deiar nag o is deiar,
rhag y gythraledig o ddyd neu ddydes a chalon ddrwg
a reibia dda ei berchennog, ei ddrwg rhinwedd ei ddrwg galon
yngymunedig a wahanwyd o'r ffydd gatholig +++
trwy nerth a rhinwedd dy eiriau Bendigedig di fy Arglwydd Iesu
Grist. Amen.

Iesu Grist ein harglwydd ni.
Gwared ni rhag y ghwyr a'r bâr, a'r lliid a'r genfigen a'r adwyth...
a'r pleined wibrenol a'r gwenwyn deiarol
trwy nerth a rhinwedd dy eiriau
Bendigedig di Fy Arglwydd Iesu Geist. Amen. (52,t.270)

Tarddiad. Derbyniodd Elias Owen y swyn oddi wrth y Parch John Davies, ficer Bryneglwys, Sir Ddinbych, a'i derbyniodd oddi wrth Mr R. Jones, Tynywern, Bryneglwys, a'i cafodd gan ei ewyrth, a wnaethai ddefnydd ohono ar ryw adeg arbennig.

Cymharer yr "ysbrydion o uwch deiar nag o is deiar" gyda "draig awyr a thwrf" yn y swyn blaenorol.

8. Llythyr sy'n Gwarchod yn erbyn Rheibio

o Lanerfyl, Sir Drefaldwyn.

"O Lord Jesus Christ I beseech thee to preserve me Edward Jones my horses cows calves pigs sheeps and Every living creatures that I possess from the power of all Evil men women Spirits or wizards or hardness of heart and this I will trust thou wilt do by the same power as thou didst cause the blind to see the lame to walk and they that were possessed with Unclean Spirits to be in their own Minds Amen.

+++ Pater Pater Pater Noster Noster Noster
Ave Ave Ave Maries + Jesus + Christus + Messyas +
Emmanuel + Soter + Sabaoth + Elohim + on +
Adonay + Tetragrammaton + Agla + Unigenius +
Majestas + Paracletus + Salvator +
Noster Agnos-yskyros + adonatus +
Jasper + Melchor + Balthasar +
Matheus + Marcus + Lucas + Johanas [sic]
Amen +++ and by the power of our Lord Jesus Christ and his
Heavenly angels being our Redeemer and Saviour from all Witchcraft
and from assaults of the devil Amen.

Gabriel [arwyddion] Michael [arwyddion]
In the name of God [Amen This is] a fight against the wiles of the
[Devil]+++." (24,t.153-4)

Tarddiad. Fe'i cafwyd mewn potel fechan gron a oedd wedi ei chorcio a'i selio. Yr oedd Edward Jones, a enwir yn y swyn, yn byw yn Rhosgall a bu farw ym 1890 yn 71 mlwydd oed.

Esboniad. Fe elwir yma ar Dduw gyda llawer o enwau, hefyd ar dri brenin Cwlôn (sef y doethion o'r Dwyrain), ac ar ysgrifenywyr yr Efengylau a dau o'r archangylion.

Roedd yr arfer o adrodd enwau amrywiol Duw a'r archangylion ar gael yn barod mewn llyfr gan Isidorus, esgob o Sefila (Sbaen) o amgylch 600 O.C. (25), ac y mae Adonai, Sabaoth, Tetragrammaton ac On ymysg y rhain. Fe ddefnyddid ei lyfr fel math o *encyclopaedia* drwy gydol yr Oesoedd Canol.


Ar dudalen 19 yn y Llyfr Cyfrin o Sir Ddinbych, enwir "The ten General names (of God) which are El, Elohim, Elsha, Zabaioth, Elion, Essurhich (?), Adonay, Iah, Tetragrammaton, Saddy." O bosib byddai'r Dyn Hysbys yn defnyddio'r enwau i sgrifennu swynion gwarchodol tebyg i'r un uchod.

Y mae arwyddlun a geir ar dudalen rhydd yn yr un llyfr yn

perthyn i'r un dosbarth o swynion, sef math o olwyn swyn gydag arwyddion dirgel wrth yr adain. Dangosir olwynion tebyg fel sêl o dan swynion gwarchodol ysgrifenedig o Feirionnydd (24,t.153), ac o Bont-ar-Fynach, Ceredigion (24,t.156).

Dyma'r esboniad a roddir yn y Llyfr Cyfrin am arwyddocâd yr "olwyn":

This Figuar among the Ancients was considered a Greate preservation against the Enemies, And they say who so ever weareth the Figuar need Fear no Foe.



9. Swyn yn erbyn Lladron a Gelynyon

Y mae'r swyn hwn yn rhagori yn y grefft o ddefnyddio geiriau sy'n awgrymu pob math o ddigwyddiadau mewn bywyd. Fel swynion eraill yn erbyn lladron, y mae'n chwilio am gymorth yn yr Hen Destament.

In the power of God I walk on my way
In the meekness of Christ.

What thieves soever I meet
The Holy Ghost today shall me keep
Whether I sit or stand, walk or sleep.

The shining of the Sun also the brightness of his beams shall me help.

The faith of Isaac this day shall me lead
The suffering of Jacob today be my speed,
The devotion of the Holy Lamb thieves shall let
The strength of Jesus blessed passion them beset.

The dread of death held thieves low
The wisdom of Solomon prove their overthrow.
The suffering of Job set them in hold
The chastity of Daniel let them what they would.
The speech of Isaac their speech shall spill
The languishing faith of Ioram let them of their will.

The flaming Fire of hell to hit them I bequeath
The deepness of the deep Sea their false hands for to let.

The light of Heaven against them shall rise
The dread of serpents cause their hearts to grieve.

The help of heaven cause thieves to stand
He that made Sun and Moon bind them with his hand
As sure as St Bartholomeus bound the Fiend with hair of his beard.
(80,t.123-5)

Tarddiad. Fe gymerodd y Dyn Hysbys y swyn "from a curious Manuscript."

Hyfforddiant. I'w ddweud bob dydd.

Rbai seiliau ysgrytburol. "The languishing faith of Joram (Jehoram)" — o II Croniel, pennod 21, 12 a 15:

A daeth ysgrifen oddi wrth Eleias y proffwyd ato ef, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed Arglwydd Dduw Dafydd dy dad, Oherwydd na rodiaist ti yn ffyrdd Jehosaffat dy dad...

A thi a gei glefyd mawr, clefyd o'th ymysgaroedd, nes myned o'th goluddion allan gan y clefyd o ddydd i ddydd.

"St Bartholomeus": yn yr Efengyl apocryffaidd sy'n mynd o dan enw Bartholomeus (26,t.173-4), y mae Bartholomeus yn gofyn ar i Grist ddangos Satan iddo ef a'r disgyblion eraill, ac fe orchymynodd Crist iddo wasgu ei droed ar fwnwgl Beliar (Satan).

Engbreiffitiau eraill. Mae'r swyn hynaf o'r fath, y gwn i amdano, yn perthyn i'r unfed ganrif ar ddeg. Fe'i sgrifennwyd yn yr iaith Ladin fel yma:

*Abraham tibi semitas, rias, montes concludat,
Job et flumina*

Jacob te ad iudicium ligatum perducit.

Bydded i Abraham gau yn dy erbyn lwybrau, ffyrdd a mynyddoedd
a Job yr afonydd hefyd
A bydded i Jacob dy arwain mewn rhwymau at y farn. (75b,t.176)

10. Swyn Gwarchodol

ar ffurf gweddi fydryddol, o *Lyfr Du Caerfyrddin*,

Cyntaf gair a ddywedaf
Y bore pan gyfodaf
Croes Crist yn wisg amdanaf.
Ar elw fy mhren y gwisgaf
Heddiw un drew a glywaf
Nid ef yw dyn nis gredaf.

Gwisgaf amdanaf yn hardd
Nis credaf goel cân nid cerdd
Y gŵr a'm crewys a'm nerth. (18,t.82)

Esbomiad. "Un drew a glywaf": awgrymwyd, er ongtraifft gan y Llys a oedd yn erlid Bessie Dunlop (gweler tudalen 118), y gellid adnabod y cythraul drwy'r drewdod y byddai'n ei adael a ei ôl.

11. Swynion Paganauidd: Englynion Gwydion

o'r *Mabinogi Math fab Matbonwy*, sef stori Blodeuwedd.

ef a welai eryr ym mlaen y pren:
Dar a dyf y rhwng dau lenn
Gorduwrych awyr a glenn
Ony dywedaf i eu
O ulodau Llew ban yw hynn.

Dar a dyf yn ard uen
Nis gwylch glaw, mwy tawd, nawes
Ugain angerdd a borthes
Yn y blaen, Llew Llaw Gyffes.

Dar a dyf dan anwaered
Mirain modur ynywet,
Ony dywedaf i eu
Ef dyddau Llew y'm arfet.

Ac y dygwydawd ynteu ar lin Gwydion; ac yna y trawis Gwydion â'r hudlath ynteu, yny uyd yn y rhith ef hunan. (85,xli a 89-90)

O'i gyfieithu:

Grows an oak between two lakes,
Darkly shadowed sky and glen,
If I speak not falsely,
From Llew's flowers this doth come.

Grows an oak on upland plain,
No rain wets it nor heat melts;
Nine/score hardships hath he suffered
In its top, Llew Llaw Gyffes.

Grows an oak upon a steep,
The sanctuary of a fair Lord,
If I speak not falsely,
Llew will come into my lap.

And alighted on Gwydion's knee. And then Gwydion struck him with his magic wand, so that he was in his own likeness. (29,t.72-3)

12. Swynion Paganauidd: Swyno'r 'Ryri

—sef "shingles".

Yr Eryr, Eryres
Mi a'th ddanfonais
Dros naw môr a thros naw mynydd,
A thros naw erw o dir anghelfydd
Lle na chyfartho ci, ac na frefo fuwch
Ac na ddelo yr eryr byth yn uwch. (52,t.264)

Hyfforddiant. Rhaid i'r claf fynd at y swynwr yn y bore, ar ôl ymprydio; byddai'r swynwr hefyd yn aros heb fwyd, ac fe ddywedai'r swyn yn dawel wrtho'i hun, wedyn poeri ar y llid ac o'i amgylch, a rhwbio'r poer i fewn â'i fys a chwythu ar draws y llid naw gwaith.

Esbomiad. Y mac arwyddocâd arbennig, o safbwynt swyngyfar-
edd, yn y rhif naw, yn tarddu o'r cyfnod paganauidd.

V IACHAU SWYNGYFAREDDOL

1. Y Garreg

Y mae gan yr Athro T.J.Morgan faen magl sy wedi bod yn iacháu llygaid sâl mor ddiweddar â'r ganrif hon. Fe sgrifennodd erthygl amdano (46,t.124-5) gyda manylion am y traddodiad llafar yn gysylltiedig ag ef sy'n estyn ar draws o leiaf bum cenhedlaeth. Fe dderbyniodd yr Athro Morgan y *Mâ-Macul* (maen magl) oddi wrth Mrs Jane Rees, ei fam-yng-nghyfraith, a oedd yn enedigol o Lansamlet, ger Abertawe. Fe gawsai hithau y maen gan ei mam, a honno gan ei mamgu. Mae'n amlwg, felly, fod y maen wedi aros fel trysor yn yr un teulu am fwy na chanrif.

Yn ôl y stori, gwylodd hen-famgu Mrs Jane Rees nadroedd ar ei fferm yn Llansamlet, "yn glwstr â'u pennau'n cwrdd yn y canol, yn trin a thrafod neidr farw gan ei throï'n faen magl â'u poer."

Mae hyn yn amrywiad ar y traddodiad cynharaf am *Glain Nadroedd*, sydd ar gael o amgylch 1700, sef:

In some parts of Wales we find a common opinion...that about Midsummer Eve...tis usual for snakes to meet in companies and that by joining heads together and hissing, a kind of bubble is form'd like a ring ...and resembles a glass ring; which whoever finds...shall prosper in all his undertakings. (52,t.350)

Parhaodd y traddodiad am y ddolen rhwng y nadroedd a'r maen hyd at ein hoes ni. Ac yn wir, roedd traddodiad tebyg ar gael yn barod yn ystod y ganrif gyntaf o Oed Crist, pan sgrifennodd Plinius (59,t.52) adroddiad am *ovum anguinum* y Derwyddon, sef glain ar ffurf wy—dim mwy nag afal bach— a gynhyrchid o boer nadroedd, a hwnnw'n rhoi llwyddiant i'w berchennog. Ond i ddod yn ôl at faen magl yr Athro Morgan; dywedwyd amdano (gan Mrs Jane Rees) iddo golli mewn maint pan "fenthycwyd ef



14: MAEN MAGL (Glain y Nadroedd)
yn eiddo i'r Athro T.J.Morgan, Abertawe (45,t.124-5)

un tro a'i roi mewn dŵr dros y nos."

Ers amser maith roeddwn i wedi dymuno cael golwg ar faen magl yr Athro Morgan. Gwyddwn, wrth reswm, fod mwy nag un maen magl ar gael yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan, a'r rhain yn debyg i lain glas golau yn ffurf hadau'r *nasturtium* ac yn gynnyrch y cyfnod Rhufeinig. Ond un peth yw credu bod amryw o'r gleiniau Rhufeinig wedi gweithredu fel "maen magl" sy'n gallu iacháu llefelyn neu "fagl" ar y llygad; peth hollol wahanol yw cadw yn eich llaw lain modrwyol a ddefnyddiwyd lawer o weithiau, yn gymharol ddiweddar, i wella clefydau'r llygaid.

Gofynnais i'r Dr Prys Morgan (mab yr Athro T.J. Morgan) am gael benthg y maen magl, ond dywedodd ef nad oedd ei deulu ddim yn fodlon iddo adael y glain allan o'i ddwylo. Cafwyd cyfaddawd drwy iddo ddangos y glain i fi ac i Roger Davies (ffotograffydd Adran y Celfyddydau yng Ngholeg y Brifysgol, Abertawe) a chaniatáu tynnu llun o'r maen magl "yn ei law ei hun". A dyna fel y bu.

Y peth arbennig am y glain hwnnw, fel y gellir gweld o'r llun, yw ei fod braidd yn wahanol i'r gleiniau glas golau a gysylltir yn gyffredin â'r enw "maen magl". Y mae tua'r un maint -bron modfedd ar draws- ac y mae iddo hefyd dwll yn ei ganol, ond y mae'n llyfn i gyd, ac yn edrych fel craig grisial gyda llinellau lliw hufen a melyn ar ei draws. I wella doluriau, rhoddid y maen magl "ar lygad claf a'i droi a'i droi arno ac iro'r clawr ag ef" (46, t. 125). Honnir iddo gael ei ffurfio gan boer nadroedd, fel "glain nadroedd"; honnir ei fod yn gallu gwella llefelyn a gwendidau'r llygaid, fel "maen magl", ac adroddir hefyd, yn achlysurol, iddo gael ei drochi mewn dŵr.

I ddechrau gyda'r nadroedd: yr oedd yng Nghernyw hefyd draddodiad am *snake-stones* a elwid yn "milpreves" (anifail fel pryf), a'r rhain yn fodrwyol ac yn las. Honnwyd eu bod yn dda yn erbyn brathiadau'r nadroedd; fe fyddai unrhyw un a gawsai ei bigo gan dafod neidr yn cael ei iechyd yn ôl wrth yfed o ddŵr y trochwyd *snake-stone* ynddo (8, t. 191).

Gall yr honiad bod maen magl yn iacháu clefydau'r llygaid darddu o'i debygrwydd i ffurf llygad. Gwyddys bod modrwyon aur priodas yn cael eu defnyddio, weithiau, i'r un perwyl. Yn ôl

traddodiadau cyson swngyfaredd bydd pethau sy'n ymddangos yn debyg yn gallu effeithio ar ei gilydd drwy "hud cyd-deimladol" (*sympathetic magic*).

Ond y trochi (a ddigwyddai hefyd yng Nghernyw) yw'r honiad sy'n haeddu sylw arbennig oherwydd y mae'n cysylltu'r glain grisial o Lansamlet â thraddodiad eang sydd yn arbennig o amlwg yn yr Alban. Fe gredid yno fod *Forespoken Water* (dŵr swyn) yn dda yn erbyn pob math o glefyd.

Un ffordd o gynhyrchu'r dŵr swyn yw drwy daflu carreg o'r traeth i fewn i ddŵr mewn dysgl, un goch, un las, ac un werdd, gan ynganu swyn tebyg i'r un a ddefnyddiwyd yn Orkney a'r Ynysydd Shetland:

In the name of him that can cure and kill
This water shall cure all earthly ill,
Shall cure the blood and flesh and bone
For ilka ane [pob un] there is a stone.
May she flay all trouble, sickness pain
Cure without and cure within,
Cure the heart and horn and skin. (7, t. 141-2)

Rhaid oedd i'r claf yfed peth o'r dŵr, ac fe daenellid y gweddill drosto. Gallai anifail fanteisio ar y driniaeth, hefyd, a barnu oddi wrth y llinell olaf.

Ceir tystiolaeth am arfer tebyg yng Nghymru yn llyfr Marie Trevelyan am Gymru. Dywedodd hen Gymro wrthi ei fod yn cofio'r arfer o ddefnyddio pelen grisial i wella clefydau mewn dynion ac anifeiliaid. Dywedodd wrthi ciriau Cymraeg y swyn-weddi a ddefnyddid wrth drochi'r grisial mewn dŵr. Gofynnodd Marie Trevelyan am gyfithiad o'r geiriau a dyma'r geiriau a ddyfynnir ganddi yn ei llyfr (sef y cyfithiad, gwaetha'r modd!):

The following translation of the incantation in Welsh was given to me:

O thou stone of Might and Right,
Let me dip thee in the water
In the water of pure spring or of wave,
In the name of St David,
In the name of the twelve Apostles,
In the name of the Holy Trinity,
And of Michael and of all the angels,
In the name of Christ and Mary his mother!

Blessing on the clear shining stone!
 Blessing on the clear pure water!
 A healing of all bodily ills
 of men and beast alike. (66,t.231)

Weithiau dodid y garreg mewn dysgl o ddŵr, gan rannu'r dŵr wedyn rhwng y cleifion. Fe fyddai pobl yn arfer dod o bellter at y rhai a feddai garreg grisial gyffelyb. Byddent yn ynganu'r weddi cyn taflu'r garreg i fewn i'r dŵr.


Ceir digon o dystiolaeth i'n hargyhoeddi bod y traddodiad am nadroedd yn ffurfio glain rhinweddol a'u poer yn mynd yn ôl at *ovum anguinum* (wy nadroedd) y Derwyddon fel y ceir ef gan Plinius. Sylwer nad oedd yr *ovum anguinum* ar ffurf fodrwyol.

Credaf fod llawer o'r gleiniau Rhufeinig a ddarganfuwyd yng Nghymru wedi cael eu camddehongli fel gleiniau nadroedd, o leiaf a barnu yn ôl y disgrifiad a roddir mewn llythyr gan Edward Lhwyd at Edmund Gibson, ym 1694 (20,t.247). Fe ddangosir yno luniau hefyd: un o *Adder-bead or Glain Neidr* o wydr gwyrdd a ddarganfuwyd yn Aberffraw, Sir Fôn; un arall "of earth enamelled with blue" a gafwyd yn agos i Ddolgellau; ac un arall eto o wydr "undulated with white, red and blue", a gafwyd ym Maes y Pandy, Meirionnydd.

Y mae maen magl y teulu Morgan yn sefyll hanner ffordd rhwng "glain y nadroedd" a'r bêl grisial.

Cerrig Rhinweddol Eraill

Yn Amgueddfa Sain Ffagan dangosir cerrig rhinweddol eraill o natur swyngyfareddol: carreg gynddaredd o alabaster gwyn sy'n dda yn erbyn *Hydrophobia*; laeth-faen o alabaster pinc o Geredigion a hefyd garreg lwcus o gallestr a thwil yn ei chanol. Mae'r ffydd yn rhinwedd y rhain yn mynd yn ôl at yr amser cynnar yn hanes dynoliaeth cyn colli'r wybodaeth am y cysylltiad agos rhwng popeth sydd ar y ddaear: cerrig, planhigion, anifeiliaid a dynion; pan gredid bod anian debyg yn perthyn i wrthrychau sy'n ymddangos yn debyg, a bod ganddynt y gallu i ddylanwadu ar ei gilydd. "Animistiaeth" (*animism*) yw'r gair gwyddonol am y ffydd bod ysbryd (*anima*) ym mhopeth.



- a. An Adder-bead or Glain Neidr of green glass, found at Aber-Fraw in Anglesey.
 b. Another of earth, enamelled with blue; found near Dôl Gêlheu in Meirionnyddshire.
 c. A third of glass, undulated with white, red, and blue: found near Maes y Pandy in the same County.
 d. Represents one end of the same. Of these Adder-beads, which are supposed to have been Druid-Amulets, some account is given at Kerig y Drudion, in Denbighshire.

15: Luniau o fathau o GLAIN NEIDR yn llythyr Edward Lhwyd (20,t.24) (20,t.24)

2. Ffynnon Farged

Wrth siarad am ddŵr sy'n iacháu, daw i'm meddwl "dwfwr swyn" Ffynnon Farged, hanner ffordd rhwng Abertawe a Chastell-nedd, ac ar y ffin rhwng Esgobaeth Tŷ Ddewi ac Esgobaeth Llandâf (57,t.89). Sgrifennwyd triban amdani sy'n ad-leisio'n hiraethus y parch a'r ffydd a goledid yn ei rhinwedd i iacháu.

Mi es at Ffynnon Farged
 Gan ofni am fy nhyged.

Nid oedd mo'r eglwys ar y twyn
Na dwfwr swyn yn cerdded.

Ysgubwyd yr hen greirfa.
Mae'n agos iawn i'r tonna,
A'r ffynnon? Dagrau'r Santes bur
Sy'n treiglo i'r rhigola. (27, l. 86)

Tynged, dwfwr swyn, creirfa, Santes bur yw'r geiriau allweddol yma sy'n anelu'n uniongyrchol at y teimladau a'r dychymyg, sef y galluoedd tu mewn i ddyn sy'n medru gwneud gwyrthiau.

Mi es fy hun at Ffynnon Farged, neu yn fanwl gywir, fe ddangosodd Leonard Thomas, bachgen o'r ardal, y ffordd i mi a chefais gyfle i ddysgu rhagor am dynged y ffynnon sanctaidd ei hun —un o gannoedd a oedd ar gael yng Nghymru— ac am yr eglwys ar y twyn a oedd yn gysylltiedig â hi. Yn y tridegau byddai Mrs Henry o Lansamlet yn mynd heibio'r ffynnon ar ei ffordd o Lansamlet ar draws Mynydd Cilfai ac i'r traeth. Byddai hi'n yfed bob tro o ddŵr y ffynnon ac yn mwynhau ei flas. Ond y mae hyn yn amhosibl heddiw: gosodwyd pibau sy'n arwain i burfa olew Llandarcy ar draws Ffynnon Farged. Gwerthwyd y tir o'i hamgylch i'r burfa olew, a rhaid oedd cael caniatâd y cynberchennog, sy'n awr yn geidwad ar y lle, cyn mynd yn agos o gwbwl.

Roedd Mr Fletcher yn byw yn agos mewn hen ffermdy o'r enw Pen-isa'r-coed. Fe'i adeiladwyd bron i gyd o gerrig a gludwyd yno o Gapel Marged, eglwys y Santes Farged. Carreg wen o Sutton sydd ar gorneli'r adeiladau —gwelir yr un garreg yn Abaty Castell Nedd— ac y mae'n sgrechian allan, "Nid oedd mo'r eglwys ar y twyn." Fe aeth Mr Fletcher gyda ni at y ffynnon o dan y pibau a choeden dal yn ei hymyl.

"Dyma Ffynnon Farged," meddai ef. "Byddai pobl yn dod o'r pentre [Sgiwen] ac eistedd yma fin nos. Gwyddent ei bod yn ffynnon sy'n iacháu a byddai rhai ohonynt yn glychu eu llygaid â dŵr y ffynnon gan obeithio cael iechyd i'w llygaid methedig. Fe'u gwelais fy hun, pan oeddwn yn fachgen. Ond 'fydd neb yn dod yma nawr. Mae'r dŵr yn ffrydio i fyny o hyd, a chreu cors o'i amgylch."

Gwyddai Mr Fletcher hefyd am ywen yn yr ardal, coeden a gysylltir fel arfer â mynwent. Byddai merched yn mynd ati,



16: FFYNNON FARGED
o dan bibau olew Llandarcy

meddai, merched a oedd yn ofni canlyniadau eu carwriaeth —roedd yr hen bobl yn llawer mwy llym wrth eu barnu am hyn— a byddent yn tynnu dail o'r ywen a'u bwyta er mwyn cael gwared â ffrwyth eu corff. Weithiau byddent yn llwyddo, ac weithiau byddent yn marw eu hunain.

Dringo i lan y twyn wedyn i astudio afeilion yr hen eglwys, gwaith tua thair munud i ffwrdd oddi wrth y ffynnon. Pan oedd Mr Fletcher yn fachgen, gwelodd, ym 1925, Mr Hammond yn dod yno gyda chwmmi o Gastell Nedd i gloddio. Cofiodd weld teilsen gyda phatrwm melyn a oedd yn disgleirio "fel pe bai wedi ei chaboli ddiwrnod yn ôl." Ar ôl y cloddio arhosodd patrwm sylfaen yr eglwys yn ddigon eglur o hyd, gan fod digon o ddarn-

au o garreg wen Sutton dros y lle. Erbyn hyn tyfodd coeden i fewn i'r muriau. O'r bryneyn lle saif adfeilion yr Eglwys cawsom olygfa ogoneddus o'r môr i'r de, ac o fryn Coed Ffranc i'r dwyrain, ac hefyd ar draws Cors Crymlyn i'r gorllewin. Daeth rhai o'r gwrthrychau a ddarganfuwyd yn ystod y cloddio i Amgueddfa Abertawe.

Mae'n hollol amlwg fod clod y ffynnon iachael yn y lle arbennig hwn yn hŷn na dyfodiad y Santes Farged.

O amgylch 1123 cyfeirir mewn dogfen at "meudwyfa Ranulff" yno. Tybed a ddaeth Ranulff i orchfygu ysbryd addoliad paganaidd? Sut bynnag, yn ddiweddarach yn y man hwn, adeiladwyd eglwys y Santes Farged, hoff santes teulu de Clare (Arglwydd Morgannwg), ac fe fyddai mynach yn dod o Abaty Nedd i gynnal gwasanaeth yno, bob dydd. Gallwn ddechmygu hefyd yr hwyl yng Nghastell Nedd yn ystod y ffair-dri-diwrnod er anhydedd i'r Santes Farged. Yn ddiamau byddai llawer o fynychwyr y Ffair yn ymweld hefyd â'r ffynnon, ac yn dringo i'r greifia ar ben y twyn i addoli.

Tua'r un adeg ag y tynnwyd muriau'r eglwys i lawr er mwyn adeiladu ffermdy Pen-isa'r-coed, sgrifennwyd adroddiad am hen ffynnon sanctaidd yn ymyl Corwen, Meirionnydd. Fel hyn y cofnodir gan y Parchedig John Lloyd, Rheithor Llanycil ger y Bala:

The Welsh are religious. It is surprising how many superstitious observances they have. They go to a great way to a holy well near Corwen, to get water: it insures success in any undertaking, as in harvest... (39, l. ix)

3. Astroleg a Meddyginiaeth

Cafwyd cyfle yn barod i ddyfynnu o'r *Llyfr Meddyginiaeth* (39) swynion a fwrriadwyd i fod o les yn erbyn clefydau arbennig. Yn y llyfr hwnnw casglwyd ffeithiau o ffynonellau amrywiol, a gellir gweld yno'r tueddiadau a'r ffasiynau a oedd yn boblogaidd yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg, ac ynghynt.

Un o'r arferion mewn bri oedd yr arfer o gysylltu rhannau'r corff ag arwyddion y Zodiac. Ceir tystiolaeth gan Chaucer am yr un peth, ychydig cyn hynny:



17: DYN Y ZODIAC, 1495

Llun cerfiad Eidalaidd o'r flwyddyn 1495. Dengys y ffigur rannau'r corff a reolir gan arwyddion y Zodiac. Ni fyddai meddygon yn beiddio trin cleifion os nad oedd y sŵn yn ffafriol.

With us ther was a Doctour of Phiisik,
 In all this world ne was ther noon hyn lik,
 To speke of phiisik and of surgerye,
 For he was grounded in astronomye.

(Roedd gyda ni ryw ffusigwr, nad oedd ei debyg yn y byd i gyd i siarad
 am ffusig a llawfeddyginiath, oherwydd roedd yn hyddysg mewn
 astroleg.)

O gofio geiriau Chaucer, byddai llai o ragfarn gennym wrth
 ddarllen yn y Llyfr Meddyginiath y gosodiad canlynol:

12 arwydd o hynn y gwna Duw ddyrn yngroth i fam:

Aries: y pen	(maharen)
Taurus: y gwarz a'r gwddw	(tarw)
Gemini: y breichiau a'r dwylu	(efeilliaid)
Cancer: y dwyfron	(cranc)
Leo: y galon a'r kylla	(llew)
Virgo: y groth hyd y bogel	(rhiain)
Libra: y groth o'r bogel i wared	(clorian)
Scorpio: y din a'r aelode cuddiedig	(sgorpion)
Sagittarius: y morddwydudd	(saethwr)
Aquarius: yr esgeirie	(dyn-y-dŵr)
Pisces: y traed	(pysgod)

Ac os briw dyn mewn un o'r lleoedd hyn, pan fo'r arwydd yn teyrnasu
 yn yr un o'r lleoedd uchod, odid fyth i ddyn i orfod ond trwy ras Duw...
 (39,rhif 566)

Os edrychir yn graff, sylwir mai un arwydd ar ddeg a roddwyd
 yma yn unig. Gellir darganfod pa un a adawyd allan wrth
 ddarllen darn o farddoniaeth Ladin a sgrifennwyd tuag adeg geni
 Crist. Mae'n dangos yr un ddamcaniaeth yn union wrth gysylltu
 arwyddion y Zodiac â'r corff dynol:

Namque Aries capiti
 Taurus cervicibus haeret
 brachia sub Gemini conserto
 pectora Cancro
 Te, scapulae, Nemaec vocant
 teque ilia Virgo
 Libra colit clunes
 et Scorpio inguina regnat
 et femur Arcitenens
 genua et Capricornus amavit
 crura defendit Juvenis
 vestigia Pisces (16,t.23)

Yn ôl yr awdur Lladin, Marcus Manilius, felly, does fawr o
 wahaniaeth yn y cysylltiadau:

Maharen: pen
 Tarw: gwar
 Efeilliaid: breichiau
 Cranc: dwyfron
 Llew: ysgwyddau
 Rhiain: y bol
 Clorian: ffolennau
 Sgorpion: yr aelodau cuddiedig
 Saethwr: cluniau
 Gafr: gliniau
 Dyn ifanc: coesau
 Pysgod: gwadnau'r traed

Capricornus, felly, yr "afr gorniog", a adawyd allan yn adrodd-
 iad y Llyfr Meddyginiath. Ond nid oes dim byd hanfodol yn
 gwahanu'r ddwy restr—dim ond pymtheg cant o flynyddoedd.

Byddai'r ddamcaniaeth hwyrach yn ymddangos braidd yn
 gymhleth oni bai fod llun ar gael sydd yn ei chadarnhau, sef llun
 o'r Dyn Zodiacaidd, a dynnwyd yn yr Eidal ym 1495, lun a allai
 helpu meddyg yn ei benderfyniadau. Y mae'r llun yn dangos yn
 hollol argyhoeddiadol fel y mae dyn yn arwyddo *microcosmos*
 (sef byd bach) ac yn cynnwys popeth sydd yn perthyn i'r *macro-*
cosmos (sef y byd mawr).

Credai'r doctoriaid fod rhaid iddynt gael hyfforddiant mewn
 astroleg er mwyn peidio â rhoi'r moddion ar yr amser anghywir.
 Fel hyn yr esbonia'r Llyfr Meddyginiath na ddylai neb dderbyn
 meddyginiath ar gyfer y rhannau o'r corff y mae eu harwydd yn
 teyrnasu ar y pryd: dim moddion i wella clefydau'r fron ym mis
 Gorffennaf, er enghraifft. I ddeall eu meddwl yn well, rhoddaf
 yma restr o'r dyddiau a reolir gan arwyddluniau'r Zodiac:

Aries = Maharen: Mawrth 21—Ebrill 20
 Taurus = Tarw: Ebrill 21—Mai 20
 Gemini = Efeilliaid: Mai 21—Mehefin 21
 Cancer = Cranc: Mehefin 22—Gorffennaf 23
 Leo = Llew: Gorffennaf 24—Awst 23
 Virgo = Rhiain: Awst 24—Medi 25
 Libra = Clorian: Medi 26—Hydref 23
 Scorpio = Sgorpion: Hydref 24—Tachwedd 22
 Sagittarius = Saethwr: Tachwedd 23—Rhagfyr 22

Capricorn = Gafr gornio: Rhagfyr 29–Ionawr 20
Aquarius = Dyn ifanc (â dŵr): Ionawr 21–Chwefror 19
Pisces = Pysgod: Chwefror 20–Mawrth 20

Dangosodd y Dyn Hysbys o Sir Ddinbych hefyd ddiddordeb yn arwyddluniau'r Zodiac, a dyma rigwm yn yr iaith Saesneg a gofnodir ganddo:

Divination by the Moon in the Signs of the Zodiac

The moon in Aries, life is long,
In Taurus, Gemini, Cancer: strong.
But when the Moon in Leo strives,
Full short and painful are men's lives.

In Virgo thou wilt behold her true,
Happy and just and humorous, too,
But still man's years are short and few.

Then view her swift through Libra speed,
The vital flame shall constant feed
And famous make in art and deed.

Wail, when the Scorpio persuas
The Sagittarius, Arrow, throws
And sinews potent grace this letter sign.

Long life and happy then is thine.
In Capricornus, in Aquarius scant,
But pisces constant wards the fatal dent. (80, l. 84-5)

Melostasia

Tybed a oes modd esbonio sut y penderfynwyd y cysylltiad rhwng y rhannau arbennig o'r corff ac arwyddluniau'r Zodiac? Ceir ateb i hynny – fel i lawer o broblemau eraill yn ymwneud â swyngyfaredd – yn nhraddodiad yr Aifft. *Melostasia* yw'r enw swyddogol a roir i'r weithred o osod aelodau'r corff yng ngofal rhyw dduwdod arbennig. Ymhell cyn gadael i'r corff ddibynnu ar ddylanwadau'r sêr, gofidiai Brenin yr Aifft, nid yn gymaint am dynged ei gorff byw, ond am beth a allai ddigwydd iddo wedi iddo farw. Dyma'i ffordd o resymegu: y Duwiau yw'r unig fodau sy'n gallu osgoi marwolaeth yn gyfangwbl. Felly yr unig ffordd i fod yn siŵr o fywyd tragwyddol yw trawsfurfio rhannau'r corff i fod yn rhannau o gorff dwyfol, a hynny drwy swyngyfaredd. O ganlyniad, gellir deall yr honiadau sy'n canlyn,

a sgrifennwyd ar furiau'r ystafell lle'r oedd corff y Brenin Pepi yn gorffwys o dan ei buramid:

Pen y Brenin yw hebog y duw Horus.
Y mae'n dod allan ac yn esgyn i'r nefoedd.
Wyneb y Brenin yw Wep-Wawet (sef y siacal sy'n agor y ffordd).
Y mae'n dod allan ac yn esgyn i'r nefoedd

Ac felly ymlaen: trwyn y brenin yw Thoth (duw ysgolheictod), gwar y Brenin yw Seth (duw'r anialwch)...calon y Brenin yw Bastet (y llewes)... Gorffen y cyfan gyda'r gosodiad gobcithiol:

Mae'r Brenin yn Dduw, yn fab i Dduw. Mae'r swyngyfaredd hon yng nghorff y Brenin. (65, adnod 339; 11, l. xvii; 69, l. 271)

Sgrifennwyd swyn y Brenin Pepi o amgylch 2300 C.C. Yn y cyfnod canlynol byddai pobl gyffredin yn dilyn patrwm y brenin a honni bod rhannau o'r corff marw yn cyfateb i aelodau corff duwiau anrywiol. Fe gopiwyd y bennod arbennig hon lawer gwaith hyd at amser rheolaeth y Rhufeiniaid ar yr Aifft. Gellir esbonio hefyd sut y datblygodd y traddodiad astrolegol.

Tynged ei gorff marw oedd gofid y Brenin Pepi wrth osod aelodau ei gorff yng ngofal duwiau anrywiol. Ond yn y cyfnod canlynol byddai meddygon yr Aifft yn manteisio ar y syniad ac yn gosod aelodau'r corff byw yng ngofal y duwiau, yn arbennig yng ngofal 36 o dduwiau seryddol a oedd yn rheoli, y naill ar ôl y llall, yn ystod 36 o wythnosau (o ddeng niwrnod yr un) y flwyddyn Eifftaidd. Nes ymlaen, mewn cyfnod pryd y daeth seryddiaeth yn boblogaidd ac yn bla heintus yn y gwledydd o amgylch y Môr Canoldir, gosodwyd arwyddluniau'r Zodiac (a oedd yn fwy adnabyddus y tu allan i'r Aifft) yn y lle a gymerwyd gynt gan dduwiau'r Aifft. Ond yr oedd y traddodiad ei hun yn parhau ac yn blodeuo hyd at yr Oesoedd Canol, ac y mae'r dyfyniad o'r *Llyfr Meddyginiaeth*, a nodwyd uchod, yn brawf ohono.

Y mae troi y cwpan té fa law sylw Henry Harries, ynghyd â darllen Fortune wrth gardiau; ond efe a esgyna yn uchel i'r wybren at yr haul, y loer a'r planedau; efe a â drwy arwyddion y cylch mawr, ac yna disgyna i'w gadair yng Nghwrtycadno a darllesa dynged genethod a chrytiaid penchwiban.

meddai Brutus yn bigog ym 1839 (50,t.318).

Roedd unwaith adeg yng Nghymru pryd y byddai darogan yn rhan barchus, gydnabyddedig o fywyd cymdeithas. Pan deithiodd Gerallt Gymro ar draws Cymru ym 1189 gan geisio casglu dynion i ymladd Rhyfel y Groes, gwelodd ef ddewiniaid (*divinatores*) o fath na chafwyd mewn un man arall yn y byd; nid oedd gair Lladin ganddo i'w henwi ond mae'n eu galw â'r enw Cymraeg "Awennithion" —hynny yw, "Awenyddion", pobl ysbrydoledig. A dyma'r disgrifiad a roddodd ohonynt:

Y mae hefyd, ymhlith pobl Cymru, yr hyn na cheir yn un man arall, wŷr arbennig a alwam AWENYDDION, dynion ysbrydoledig megis. Pan ymgynghorir â hwy ynghylch rhyw bwnc amwys, gan ruo ar unwaith cipir hwy oddi arnynt eu hunain, fel petai, gan ysbrydoliaeth a gwneir lwynt yn wŷr wedi eu meddiannu gan ryw bŵer.

Ac er hynny, ni roddant ateb i'r cwestiwn yn uniongyrchol; ond ar ôl llawer o eiriau amwys, ymhlith amrywiol frawddegau o ffilioreg a gwgi yn hytrach nag o synnwyr, ond i gyd, er hynny, yn goeth a chabol, a lifa ohonynt o'r diwedd, caiff y sawl a sylwo'n graff ar yr ateb yr hyn a geisia wedi ei esbonio. Ac felly o'r diwedd, dihunir hwy gan eraill o'r perlewyr hwn, fel petae o gwag trwm, a gorfodir iddynt, trwy ryw gymaint o rym, ddychwelyd atynt eu hunain. (34,t.194)

Yn ôl arfer yr oes, ceisiodd Gerallt Gymro ddarganfod drwy ba ysbryd y datgenir pethau o'r fath, gan bwysleisio hefyd, fel Brutus, mai braint Duw yn unig ydyw gwybod y dyfodol. Mae'n ystyried y posibilrwydd bod ysbrydion weithiau yn siarad drwy gyfrwng gwŷr gorffwyl "…er eu bod hwy yn anymwybodol o

hynny". Ond mewn rhyw ffordd y mae'r awenyddion yn ymwybodol o'u dawn ac yn dechrau ar eu gwaith gydag "ymbiliadau ar y gwir Dduw ac ar y Drindod Sanctaidd, fel na rwystrer hwy gan haeddiannau eu pechodau rhag darganfod y gwirionedd". Felly nid yw Gerallt Gymro yn beiddio honni mai trwy ysbryd cythreulig (*pithonico*) na dieflig (*daemonico*) y maent yn cael eu gwybodaeth, "ond yn hytrach, gan mai braint Duw yn unig ydyw gwybod y dyfodol" iddynt dderbyn eu gwybodaeth "oddi uchod ac yn rasol".

Traddodiad Iwerddon

Rhaid bod traddodiad wedi parhau yng Nghymru a oedd yn debyg i'r un a gafwyd yn Iwerddon ac a ddisgrifir yng Ngeirfa Cornac:

Esbonir y ddefod dan yr enw *imbar foromai*, "amlygrwydd sy'n goleuo". Y mae'r *fili*'n enoi darn o gig coch mochyn neu gi neu gath ac yna'n ei roi ar lechfaen tu ôl i'r ddôr ac yn llafarganu swynair drosto ac yn ei gynnig i cilun-dduwiau, ac yn eu galw ato, ac nid yw'n eu gadael drannoeth...ac yna y mae'n llafarganu uwchben ei ddwy gleidr ac yn galw cilun-dduwiau eto drachefn fel nad aflonydder ei gwsg.

Yna rhydd ei ddwy gleidr ar ei ddau rudd a chysgu. Ac y mae dynion yn ei wyllo fel na bo'n troi drosodd ac fel nad aflonyddo arno. Ac yna daiguddir iddo'r hyn sydd o'i flaen hyd ddiwedd nomad [cyfnod naw niwrnod]... (71,t.44-5)

Alltudiodd San Padrig arferion o'r fath. Ac felly rhaid bod yr arfer yn perthyn i'r chweched ganrif a chyn hynny. Anodd yw osgoi'r casgliad bod yr awenydd o gyfnod Gerallt wedi gosod enw'r Duw Byw a'r Drindod yn lle enwau "cilun-dduwiau" y *fili*.

Y Byd Celtaidd

Yn ôl tystiolaeth gynnar, yr oedd darogan yn rhan sylfaenol o fywyd crefyddol y Celtaid, a'r *artes* neu'r *fili* oedd yn gyfrifol amdano gan mwyaf. Byddai rhai yn derbyn eu gwybodaeth am y dyfodol drwy wyllo adar yn bedfan ac yn sgrechain; fe wyddid hefyd am yr arfer o ddarogan yn ôl breuddwydion neu wele-

digaethau a gafwyd mewn llewyg, pan oedd raid i'r gweledydd golli ei bwyll er mwyn i'r dwyfoldeb gael cyfle i'w feddiannu a siarad drwyddo.

Adroddir enghraifft drawiadol o ddefod a oedd yn gysylltiedig ag etholiad brenin Tara, sef uchel-frenin Iwerddon, yn *Lebor ne Huidre* (68,t.241). Enw'r ddefod oedd *Tarbfeis* neu "breuddwyd tarw". Pan ddôi'r amser i ethol brenin newydd yn Tara, lleddid tarw gwyn a rhaid oedd i un o'r dewiniaid fwyta llond ei fol o'r cig a'r botes a wneid ohono. Cyfrwng oedd hwn i achosi iddo gysgu mewn llewyg tra byddai eraill yn ynganu swynion wrtho. Ystyrir cig y tarw fel aberth i'r Duwdod ac fe ddangosai'r Duwiau i'r dewin —mewn breuddwyd— y dyn a oedd i fod yn frenin. Wedi deffro byddai'r dewin yn adrodd ei weledigaeth.



18: PAIR GUNDESTRUP gyda darluniau o ddewino Celtaidd (41)

Pair Gundestrup (41,t.10,26-9,38-9,124)

Ym 1891 fe ddarganfuwyd yn ymyl Gundestrup yn Denmarc, mewn cors, bair arian addurniedig, o waith Celtaidd. Fe dybir iddo gael ei gymryd yno fel ysbail rhyfel a roddwyd i dduwiau'r llyn. Llestr seremonïol yw hwn wedi ei addurno â darluniau crefyddol y tu allan a'r tu mewn. Nid yw pawb yn gytún eto ar ystyr y lluniau, ond mae'n debyg iddynt ddangos agweddau gwahanol ar ddewino a arferid gan y Celtaid yn Nwyrain Ffrainc.

Ceir arno ddarluniau o Dduwiau, o seremonïau crefyddol, o filwyr ac o anifeiliaid. Wrth edrych ar y personau gellir adnabod y rhai sy'n ymddangos yn rhan uchaf eu corff yn unig: dyna'r Duwiau. Ac y mae yno eraill wedi eu gwisgo â dillad sy'n ffitio'n dynn am y coesau fel trwseri byrion (*bracae*), ac am y corff yn gyffredinol, mewn patrwm fel pe baent wedi eu gwau o edau gwllân. Mae rhai yn gwisgo capiau, a rhai yn gwisgo'r dorch Geltaidd. Os derbynnir y syniad mai dynion yw'r bobl hyn wedi eu gwisgo yng ngwisg yr oes, gellir gweld yn y lluniau ddarluniau o wahanol seremonïau o ddewino, sef:

- dewino drwy ladd tarw;
- dewino drwy ladd dyn;
- dewino drwy swyn-gwsg;

a gellir dod at y casgliad mai fel llestr seremonïol ar gyfer dewino y bwriadwyd y pair gwerthfawr yn wreiddiol.

1. *Dewino drwy ladd tarw.* Ar waelod y pair y mae plât crwn ac arno lun o darw wedi marw, gyda'i goesau wedi eu tynnu'n dynn odano, ond heb gelu ei ryw. Yn uwch i fyny gwelir ffigur o ddyn bach yn gwisgo llodrau byrion yn unig. Mae cleddyf yn ei law chwith ond mae'n plygu ei goesau o dano fel pe bai yn cysgu, yn ei orwedd (41,t.124). Fe sylwodd yr Athro Proinsias MacCana ar y posibilrwydd o gysylltu'r digwyddiad yma â'r *tarbbeis* (breuddwyd-tarw) a grybwyllwyd uchod.

2. *Dewino drwy ladd dyn.* Ar ochr fewnol y pair ymddengys llun duw ac olwyn yn ei law dde (dim ond rhan uehaf ei gorff), sef y duw Taranis, ac yn ei ymyl y mae dyn yn cydio yn yr olwyn. Mae'n gwisgo'r dillad tynn: llodrau a chrys â llewys byr-



19: PAIR GUNDESTRUP, "Dewino trwy ladd tarw" (41)

ion, a helm â dau gorn ar ei ben. Y mae hwn hefyd â'i goesau wedi eu tynnu ato, ac yn ymddangos fel pe bai'n gorwedd ac yn cysgu. Ar y chwith i'r Duw Taranis mae'r aberth yn digwydd; mae dyn mewn dillad tynn a chap ar ei ben yn sefyll yn stond o flaen dwy res o filwyr (rhai ohonynt ar gefn ceffyl) ac yn gwasgu yn dynn o amgylch canol corff a phen-lin dyn bach sydd â'i ben i lawr uwchben llestr. Y mae'n bosib bod gwaed o'ŷ wddf yn rhedeg i fewn i'r ddysgl fel than o'r orchwyl o ddewino (68,t. 123). Tybed ai'r dewino sy'n digwydd cyn i'r milwyr fynd allan i'r gad yw hyn? Mae rhes o filwyr (gyda'r un math o ddillad tynn) yn agosáu at y Dewin, pawb ond un yn chudo tarian hir

Geltaidd –pawb ond y milwr olaf, sy'n gwisgo helm a addurnir â ffurf blaidd. Fe'i dilynir gan dri dyn yn chwythu utgorn. Yn y rhes uchaf y mae dynion ar gefn ceffyl yn symud i ffwrdd oddi wrth y dewin. Gellir dychmygu chwedl sy'n dweud mai'r milwr bach olaf, o dan arwyddlun y baedd, yw'r un pwysig, y brenin newydd hwyrach y mae'n rhaid i'r dewin ei ddarganfod wedi i bawb arall fynd heibio: rhaid aberthu dyn er mwyn ennill dyn?

3. *Dewino drwy swyn-gwsg.* Tu mewn i'r pair mae llun hir arall sy'n cyfateb mewn maint i'r Dewin yn sefyll o flaen y fyddin. Ond canolbwynt y llun hwn yw'r dewin ei hun sy'n eistedd â'i goesau wedi eu plygu o'i flaen (fel teiliwr neu fel Yogi o'r India), mewn gwisg dynn, barchus â llewys hirion, gwregys am ei ganol a thorch Geltaidd am ei wddf, sef addurn o arwyr a duwiau. Mae ei lygaid wedi eu cau, a dangosir yn ei ddwylo, wedi eu codi, sarff â phen hwrdd a thorch fawr serenionol (fe ddarganfuwyd rhai tebyg mewn nifer o leoedd). O'i amgylch gwelir anifeiliaid amrywiol, ond fe ychwanegir at yr awrygylch afreal gan ffigur bach tebyg i'r dewin, sy'n marchogaeth ar gefn pysgodyn. Ar y cyfan fe geir yma wrthdaro miniog rhwng ymddangosiad realistig y dyn yn ei ddillad parch (er bod cyrn carw ar ei ben) a'i amgylchfyd. Ymddengys bod y dewin mewn swyn-gwsg (*trance*), a bod ei enaid wedi ei gipio i ffwrdd i fydoedd uwchnaturiol, lle y mae'n ceisio gwybodaeth er daioni'r llwyth, yn rhinwedd ei swydd fel arweinydd ysbrydol y llwyth. Gellir ei gymharu â'r *shamân* (38,t. 56) sydd, mewn swyn-gwsg, yn ymweld â'r nefoedd neu â'r byd tanddaearol. Gall droi ei hun yn anifail hefyd.

Daeth llawer o beiri Celtaidd i'r golwg yn y ganrif hon, sy'n profi hoffter y Celtaid o beiri ysblennydd. Ond mae'n amlwg i'r pair o Gundestrup gael ei wneud ar gyfer achlysur arbennig: llestr sanctaidd ydyw gyda darluniau manwl sy'n arwyddocáu cyfnod pan oedd dewino yn rhan barchus ac angenrheidiol o grefydd a bywyd cymdeithasol.

Wynebodd Dewiniaeth Geltaidd her y ffydd Gristnogol yn y chweched ganrif ym mherson San Colwmba, a wrthododd yn enw Crist ddulliau derwyddol y *Filid* o ragddweud y dyfodol. Cafodd San Colwmba ei hunan hyfforddiant y *Filid* yn y grefft o gyfansoddi swynion. Dywedir iddo gyfansoddi cān warchodol



yn yr iaith Wyddeleg, cân o ffydd yng nghymorth Duw sy'n dechrau gyda'r geiriau, "Rwy'n unig ar y mynydd..." Ceir cyfieithiad ohoni yn llyfr Montalembert, *Monks of the West, III*, ac fe'i dyfynnir yng ngwaith Lucy Menzies, *St. Columba of Iona*, lle ceir hanes bywyd stormus San Colwmba. Fe genid y gân fel emyn, ac fe'i defnyddid hefyd gan deithwyr fel swyn gwarchodol. Y mae'n cynnwys llinellau rhyfeddol sydd, er eu gwaethaf, yn datgelu gwybodaeth San Colwmba o grefft y *Filid*:

There is no Seod [magic] that can tell our fate,
Nor bird upon the branch,
Nor trunk of gnarled oak...

...I adore not the voice of birds
Nor chance, nor the love of a son or a wife,
My druid is Christ, the Son of God,
The Son of Mary, the Great Abbot,
The Father, the Son and the Holy Spirit. (44,t.121-2)

4. *Dewino yn ôl arwyddion*. Mae'r traddodiad a'r ysfa i weld "arwyddocâd" arbennig yn nigwyddiadau bywyd beunyddiol yn aros o hyd. Teimlir bod popeth yn y byd yn ceisio siarad â ni, yn awyddus i ddweud rhywbeth wrthym, os byddwn yn barod i wrando. Dyma sut y mae cangen o goeden yn gallu rhoi orael i ferch benchwiban (chwedl Brutus) yn Sir Gaernarfon:

Dyma'r preen yr wy'n ei dorri
Er mwyn y mab rwyf yn ei garu,
Rhif y dail sydd arno'n loyw
Bydd yn gwneud llythrennau'r enw. (30,t.150)

Fel yma y bydd adar yn rhag-ddweud tynged yng Ngheredigion:

Un frân unig
Siwrnai ffyrnig,
Ond dwy frân ddu
Lwc dda i fi. (1a,t.4)

Gall cosi llygad hyd yn oed roi neges dyngedfennol:

Cosi ar y llygad dde,
Ddaw â llwyddiant ymbob lle,
Cosi ar y llygad whith,
Ni ddaw llwyddiant i mi byth. (57,t.604)



20: PAIR GUNDESTRUP, "Dewino drwy swyn-gwsg" (41)

Fel yr oedd y Doctor Freud yn gwybod hefyd, y mae arwyddocâd arbennig mewn breuddwyd:

Flordd lled syml i ferch weled ei chariad trwy ei chwag ydoedd rhoddi carreg fechan yn ei hosan ar y noson y gwelai y lleuad newydd gan ofalu dweud y rhigwm canlynol:

Dacw leuad newydd, rhad Duw arni,
Gyda thi mae'r haul yn codi;
Ac os oes tynged rhyngwy' ag un mab,
Cyn y bore caf ei weled. (19, t. 85)

Y mae ystyr ac arwyddocâd i bopeth, felly.

Horosgob Henry Harries, Cwrtycadno

Ond i ddod yn ôl at y frwydr rhwng Brutus a Henry Harries, sy'n atgoffa dyn am frwydrau rhwng dewiniaid eraill, er enghraifft y frwydr rhwng Simon Pedr a Simon Magus yn *Actau'r Apostolion* (8, adn. 9-24). Mynnodd Brutus bwnio Henry Harries yn ddirugaredd:



21: HOROSGOB O GWRTYCADNO (15, t. 152)

Y mae Mr Henry Harries, Cwrtycadno, gwedi eu taflu oll i'r cysgodau ac wedi cyfansoddi ei hun yn dragyfydd fel Tywysog Fortunetellers y dddear... Nid priodolodd lŵr yn unig ydyw hollwbyodaeth, oblegid y mae Mr Henry Harries, Cwrtycadno, hefyd yn hollwbyodol. Nid ydy Spolesco ond corach yn ymyl Henry Harries, ac y mae efe fel rhyw dŵr can milledir o uchder, ar ysgwyddau y Liliad, yr Agripiaid, y Baretiaid, ynghylch â'r mawr a mân consurwyr cylchfrithion drwy yr holl fyd. (50, t. 316)

Ond wrth ynganu enw Henry Harries yn yr un anadl â'r doethion hyn, fe roddodd Brutus glod eironig iddo. Hwyrach bod Brutus yn awyddus i awgrymu bod ganddo ef hefyd wybodaeth am Cornelius Agrippa, un o enwogion y Dadeni a geisiodd uno Cabala'r Iddewon ac athroniaeth; am William Lily, astrolegydd o'r ail ganrif ar bymtheg a lwyddodd —gydag Elias Ashmole ac eraill— i sefydlu cymdeithas gudd y Seiri Rhyddion; ac am Francis Barrett, athro Cemeg ac Athroniaeth gudd yn Llundain, o amgylch 1800, a sgrifennodd y llyfr enwog *The Magus*, llyfr sy'n llawn o ddarluniau newydd o ddemoniaid.

A beth, wedi'r cyfan, a gododd wrychyn Brutus? Dim ond bod Henry Harries wedi hawlio mewn hysbyseb ei fod yn gallu rhag-ddweud y dyfodol yn ôl arfer y sêr-ddewiniaid cyffredin:


...deduced from the Influence of the Sun and Moon with the Planetary orbs at the time of birth.

Wrth reswm y mae'r pwyslais ar y gair *deduced*. Er yr amseroedd cynnar gadawyd i'r sêr-ddewiniaid fynd ymlaen â'u gwaith, hyd yn oed mewn cyfnodau pan gâi pob dewin arall ei erlid, a hynny am y rheswm nad oedd y sêr-ddewiniaid yn galw ar ysbrydion neu ddemoniaid neu dduwiau paganaidd wrth wneud eu gwaith; yn hytrach gweithient drwy ymarferion mathemategol.

Yn ffodus, cadwyd papur sêr-ddewinol (horosgob) a gyfansoddwyd gan Henry Harries ar gyfer rhyw John Morgan (15, t. 52). Gellir cymharu'r papur hwn â horosgob arall a gyfansoddwyd gan yr astrolegydd enwog Johannes Kepler ym 1608 ar gyfer Wallenstein, cadfridog enwog yn yr ail ganrif ar bymtheg. Wrth gymharu'r ddau, gwelir eu bod yn dilyn yr un cynllun: gosodir enw'r ymgeisydd yn y canol mewn sgwâr ynghyd â dydd ac awr ei enedigaelth. Gosodir dau sgwâr arall o amgylch y sgwâr cyntaf

Horoscopium gestellet durch Ioannem Kepllerum

1608.



22: HOROSGOB gan Kepler ar gyfer y Cadfridog Wallenstein, O.C.1608.

(ni thynnodd Henry Harries y llinell allanol) mewn dull i ffurfio deuddeg o drionglau neu "dai". Y mae chwech o'r rhain yn perthyn i'r dydd a chwech i'r nos. Ac yn awr — a hyn sy'n bwysig— dengys patrwm cyffelyb gan Raphael (a oedd yn athro i Henry Harries) fod gan bob tŷ arwyddocâd arbennig mewn cys-

yltiad â'r horosgob:

- y tŷ cyntaf: bywyd a iechyd
- yr ail dŷ: cyfoeth
- y trydydd tŷ: siwrne fer
- y pedwerydd tŷ: etifeddiaeth
- y pumed tŷ: plant
- y chweched tŷ: saldod
- y seithfed tŷ: priodas
- yr wythfed tŷ: marwolaeth
- y nawfed tŷ: siwrne hir
- y degfed tŷ: anrhydedd
- yr unfed tŷ ar ddeg: cyfeillion
- y deuddegfed tŷ: gelynyon. (64,1.371-2)

Felly y cyfan a wnaeth Henry Harries oedd darganfod ym mha dŷ y safai'r planedau a ffigurau'r Zodiac ar adeg genedigaeth y plentyn. A digon o waith yw hynny hefyd, hyd yn oed gyda chymorth llyfrau sy'n rhoi rhestrau hir ar gyfer canrif gyfan. Rhaid ystyried hefyd sut y mae'r sêr yn dylanwadu ar ei gilydd. Fe nodwyd arwydd-luniau nifer o blanedau a ffigurau'r Zodiac ar yr horosgob a sgrifennwyd gan Henry Harries.

Ac felly wrth addo rhag-ddweud ffeithiau am gyfoeth, a phriodas a phlant, ni wnaeth ond dilyn hen batrymau gystal ag y gallai. Unwaith y derbyniwn y sciliau am arwyddocâd Fenws a Iwpter ac ati, nid oes mymryn o dwyll yn y grefft.

"MUTATIONS CALCULATED"

In which are given the general Transitions of the Native through life; viz. Description, (without using the person's Name), Temper, Disposition, Fortunate or Unfortunate in their general pursuits; Honour, Riches, Journeys and Voyages, Success in Wars, and what places best to travel to, or reside in; Friends and Enemies, Trade or Profession best to follow; and whether Fortune is speculative, viz. — Lottery, Dealing in Foreign Markets, &c. &c.

Of Marriages, if to marry. — The Description, Temper, and Disposition of the Partner, from whence rich or poor, happy or unhappy in marriage, &c. &c. Of Children, whether fortunate or not, &c. &c. Divided from the Influence of the Sun and Moon, with the Planetary Orbs, at the time of Birth.

Also, Judgment and general Issues, in Sickness and Diseases, &c.

BY HENRY HARRIS.

All Letters addressed to him or his Father, Mr. John Harris, Cartwright, must be post paid, or will not be received."

Hysbyseb Henry Harries fel yr ymddangosodd yn *Yr Haf* ym 1839. (50,1.315)

VII DIRGELION

1. Y Gair Lladin

Y gŵr llwyd â'r gair Lladin
A dry'r gwaed i'r dŵr a'r gwin. (72,t.573)
Meredith ap Hywel, 1550

Yn y Llyfr Cyfrin o Sir Ddinbych disgrifir nifer o ddulliau gwahanol o alw ar yr ysbrydion a elwir Tylwyth Teg. Y mae un ohonynt yn dechrau fel hyn:

Chwi a ellwch alw amryw chwiorydd fel y mae yn canlyn:
SATOR AREPO TENET OPERA ROTAS... (80,t.5-6)

Yn y lle arbennig hwn y mae'r geiriau Lladin yn ymddangos yn hollol ddiystyr, yn arbennig i ddyn cyffredin, synhwyrol sydd, ar y gorau, yn rhy barod i ddrwgdybio diffuanrwydd a dilysrwydd unrhyw swynwr fel y cyfryw. Ond, yn rhyfedd iawn, fe geir yr un pum gair yn union mewn swynion o fathau hollol wahanol a chyfnodau pell oddi wrth ei gilydd. Er enghraifft, mewn Llyfr Meddyginiaeth o'r unfed ganrif ar bymtheg, nodwyd y cyfarwyddyd canlynol "Rhag y pās":

Rhag y pās: Cymer fodfedd o wialen ysgaw
a thyn y galon a'r jabwyr ohoni allan
a nâd y wialen yn bump sgwâr
ac ysgrifenna y pump gair hyn arni,
gair ar bob ystlys iddi o hyd modfedd fel hyn:
SATOR + AREPO + TENET + OPERA + ROTAS +
a pheri i'r claf yfed y diod o ddŵr ffynnon y gylch
y wialen a rhwyma y wialen am fwnwgl y claf ac iach fydd. (39,t.235)

Defnyddiwyd yr un pum gair Lladin yng Nghernyw hefyd, wedi eu sgrifennu ar femwrn, fel amddiffyniad yn erbyn llawer o bethau drwg a niwceidiol (8,t.190). Mae'n ymddangos felly fod y pum gair SATOR AREPO TENET OPERA ROTAS yn cael eu hystyried fel "geiriau o nerth", yn debyg i'r nerth a ddisgwylir o

wneud arwydd y groes fel cyfrwng amddiffyn. Erys y ffydd ynddynt hyd yn oed mewn amgylchiadau lle collwyd y wybodaeth am natur y nerth a ymguddiai yn y geiriau.

Yr oedd Evan Isaac yn ymwybodol o bosibilrwydd o'r fath pan sgrifennodd:

Arferir yn awr ddefodau gan filoedd na feddant y gradd lleiaf o wybodaeth am eu cychwyn a'u hanes...ond credant yn eu heffeithiolrwydd.
(24,t.146)

Wrth astudio'r pum gair yn graff, gwelir bod y frawddeg yn darllen yr un fath o'r chwith i'r dde, ac o'r dde i'r chwith. *Palindrom* yw'r enw a roddir i ffigurau o'r fath a thybiwyd bod rhyw rinwedd arbennig yn guddiedig ynddynt. Ond wrth geisio cyfieithu'r frawddeg, erys llawn ystyr y cyfan yn ddigon an-eliwig. Mae'r gair TENET yn y canol yn golygu "mae ef yn cadw", ac y mae hwn yn air o nerth, siŵr o fod. Gellir cyfieithu'r cyfan fel hyn: "Mae'r heuwr AREPO yn cadw'r olwynion gydag ymdrech." O bosib cyfeirir yma at lyfr y Proffwyd Ezeiel (i,20): "Canys ysbryd y peth byw oedd yn yr olwynion."

Sgwâr Swyn. Gellir defnyddio'r un frawddeg hefyd i ffurfio sgwâr swyn. Ceir enghraifft ohoni mewn llawysgrif Gymraeg yn y Llyfrgell Genedlaethol (39,t.x):

```
S A T O R  
A R E P O  
T E N E T  
O P E R A  
R O T A S
```

Sylwer bod modd darllen y geiriau yma mewn dau gyfeiriad (o'r chwith i'r dde ac o fyny i waered, ac yn ôl), a bod y ddau air TENET yn ffurfio llun croes yn y canol fel hyn:

```
S A T O R  
A R E P O  
T E N E T  
O P E R A  
R O T A S
```

Daw'n amlwg felly fod cryn dipyn o gyfriniaeth wedi ei wasgu i fewn i'r pum gair a oedd yn ymddangos mor fymptyol ar y

dechrau.

Yn ychwanegol at hynny, gellir ail-drefnu llythrennau'r pum gair Lladin i ffurfio *anagram* a darganfod geiriau cyntaf gweddi'r Arglwydd yn guddiedig ynddynt, fel yma:

A
P
A
T
E
R
R
A P A T E R N O S T E R O
O
S
T
E
R
O

Ceir yma PATER NOSTER (= ein tad) dŵywaith rhwng y llythrennau A ac O, sy'n cynrychioli Alpha ac Omega (llythrennau cyntaf ac olaf y wyddor Roegaidd), y dechrau a'r diwedd.

Palindrom, Anagram, Cryptogram: y "Peth Byw", "Dechreuad a Diwedd". Sut tybed y llwyddodd y wybodaeth gyfrin i ddod i Gymru? Gellir awgrymu ateb sy'n debyg o fod yn agos at y gwir.

Fe ddarganfuwyd y sgwâr SATOR AREPO cyntaf y gwyddom amdano, yn adfeilion Pompeii. Tybir iddo gael ei sgrifennu ychydig o amser yn unig cyn i'r dref fach yn ymyl Napoli gael ei chladdu o dan gerrig poeth y mynydd-tân Vesuvius, yn 79 O.C. Darganfuwyd enghraifft arall ym Mhrydain yng ngweddillion Rhufeinig y dref Cirencester (4). Hwyrach bod presenoldeb y sgwâr yno yn profi bodolaeth y ffydd Gristnogol mor gynnar â'r bedwaredd ganrif. Wedi dod i Brydain, roedd y ffordd yn agored i'r sgwâr ddod i Gymru hefyd, gyda milwyr neu offeiriaid.

Pump o eiriau Lladin yn unig, ond fe gadwyd ynddynt draddodiad crefyddol hir, fel y cedwir y dderwen yn y fesen. Roedd gan y cyfrinwyr Iddewig hanesyn i brofi bod rhinwedd rhyw draddodiad crefyddol yn gallu parhau hyd yn oed mewn cyfnod sydd wedi anghofio popeth ond y stori:

Bob tro y byddai gan Baal-shem rywbeth anodd i'w gyflawni, rhyw weithred gyfrin er daioni i'r creaduriaid, byddai'n mynd at fan arbennig yn y goedwig, cynnau tân ac ynganu gweddïau mewn myfyrdod cyfrin. Ac fel canlyniad byddai popeth yn llwyddo yn ôl ei gynllun.

Yn y genhedlaeth nesaf, byddai ei ddilynydd yn ceisio gwneud yr un peth. Byddai'n mynd at yr un lle yn y goedwig a dweud: "Rydym wedi anghofio sut i gynnau tân, ond rydym yn gallu ynganu gweddïau o hyd." Ac unwaith eto fe aeth popeth yn ôl y cynllun.

Yn y genhedlaeth ddilynol, creisiodd Rabbi Moshe Leib wneud yr un weithred. Arth yntau i'r goedwig a dywedodd: "Rydym yn methu cynnau tân, rydym wedi anghofio'r myfyrdodau cyfrin sy'n rhoi nerth byw i'r gweddïau, ond rydym yn adnabod y man yn y goedwig lle mae popeth fel hyn yn perthyn a gobeithlwn y bydd hynny yn ddigon." Ac yr oedd yn ddigon. Fe geisiodd y Rabbi Israel gyflawni'r un weithred yn ystod y genhedlaeth nesaf. Fe eisteddodd yn ei gastell ar orsedd o aur gan ddywedyd: "Rydym yn methu cynnau tân, rydym yn methu ynganu gweddïau, rydym wedi anghofio'r lle, ond rydym yn gallu adrodd yr hanes amdanynt."

"Ac yn wir i chi," meddai adroddwr y chwedl wrth ei wrandawyr, "yr oedd ei hanes yn ddigon i greu yr un effaith ag a gafwyd gan ei ragflawyr." (63)

2. Abracadabra

"Gair o nerth" arall a ddefnyddid yng Nghymru yn ffyddiog ac yn gyson mewn achosion arbennig, heb yr un syniad o'i darddiad a'i arwyddocâd, yw ABRACADABRA. Gair gwarchodol yw hwn ac y mae'n rhaid ei sgrifennu mewn ffurf arbennig sy bron yn fathemategol. Yn ei lyfr *Coelion Cymru* (24, t. 148) y mae'r Parchedig Evan Isaac yn rhoi enghraifft ohono yn cael ei ddefnyddio yn y ganrif hon, peth a welodd ac a brofodd ei hun ym 1910 pan oedd yn weinidog gyda'r Wesleaid yn Llanidloes. "Gofalwn am eglwys," meddai, "sydd rhwng y mynyddoedd, tua dwy filltir o gartref y consurwr."

Un diwrnod, daeth aelod o'i gapel ato mewn dychryn gyda dogfen a sgrifennwyd gan y consurwr, ac a arwyddwyd â'r swyn *abracadabra*, ac yr oedd dau flaenor, "amaethwyr o safle da," yn ceisio helpu i ddatrys y dyrysbwnc.

Y mae geiriau'r swyn ei hun yn ddigon eglur, ac yn addo, yn yr iaith Saesneg, "protection...and relief to the creatures...from all witchcraft and from all other assaults of Satan" gan

ddefnyddio enwau'r Drindod a Christ fel gwarantwyr. O danynt gosodwyd y swyn *abracadabra* yn ei ffurf drionglog nodedig fel yma:

```

a b r a c a d a b r a
a b r a c a d a b r
a b r a c a d a b
a b r a c a d a
a b r a c a d
a b r a c a
a b r a c
a b r a
a b r
a b
a

```

Yn llyfr Evan Isaac dangosir dau swyn arall tebyg gyda sêl ffigur *abracadabra* mewn siâp trionglog, y ddau ohonynt erbyn hyn yn ddiogel yn y Llyfrgell Genedlaethol (24,t.153). Mae un yn dod o Sir Feirionnydd ac yn perthyn i ddechrau'r ganrif ddiwethaf, a'r llall yn dod o Bontarfynach, Ceredigion (24,t.156). Rhoddwyd swyn tebyg o Lanfyllin, Sir Drefaldwyn, i'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan (53,t.253). Cadw ysbrydion drwg draw oddi wrth eiddo, felly, yw prif orchwyl y swyn ABRACADABRA yng Nghymru.

Ond sylwodd T.Gwynn Jones ar ddefnydd arall a wnaethpwyd ohono, sef i amddiffyn claf yn erbyn twymyn, drwy i'r



24: Swyn ABRACADABRA o Gernyw (8,t.191)

claf grogi'r swyn am ei wddf (32,t.127-8). Nid yw'n dweud ym mha ffurf y sgrifennwyd yr ABRACADABRA arbennig hwn. Hwyrach y gallwn gymryd yn ganiataol iddo fod yn debyg i'r ffurf a gafwyd yng Nghernyw yn y ganrif ddiwethaf, wedi ei osod i fewn i "Sêl Solomon" ynghyd ag arwyddion astrolegol (8,t.191). Defnyddiwyd y ffurf arbennig hwn gan Ddyn Hysbys (*pellar*) yng Nghernyw yn erbyn clefydau amrywiol.

Swyn ABRACADABRA o Gernyw

Tarddiad. Felly, beth bynnag yw ffurf a phwrpas y swyn ABRACADABRA, mae'n ymddangos iddo gael effaith drwy awgrymu bod rhywbeth sydd wedi bod yn fawr yn mynd yn llai ac yn llai nes iddo ddiflannu'n gyfan gwbl. Peth llawer mwy anodd yw cael ateb i'r cwestiwn am ystyr y gair ei hun ac am darddiad y swyn.

Y peth syfrdanol yw'r ffaith mai yn erbyn clefyd mewn plentyn y defnyddiwyd yr ABRACADABRA cyntaf y gwyddom amdano. Mae'n ymddangos mewn swyn ar ffurf fydryddol yn yr iaith Ladin ac fe'i sgrifennwyd o amgylch 200 O.C. gan Rufin-iwr o'r enw Quintus Serenus mewn Llyfr Meddyginiaeth (61, rbfif 51). Mae'r llyfr ar gael o hyd –roedd yn llyfr ffasiynol adeg y Dadeni— a dyma'r geiriau Lladin a'r cyfieithiad ohonynt:

Mortiferum magis est quod Graeci hemitritaeos
Vulgatur verbis: hoc nostra dicere lingua
Non potuere ulli, puto, nec voluere parentes.

Inscribes chartae quod dicitur abracadabra
Saepius et subter repetes, sed detraha summam
Et magis atque magis desint elementa figuris
Singula, quae semper rapies, et cetera figes
Donec in angustum redigatur littera conum:
His lino nexis collum redimire memento...
Letalisque abiget miranda potentia morbus.

Lladur gan amlaf yw'r clefyd a elwir yn yr iaith Roeguaidd yn Hemitritaeos.

*Ni lwyf neb ei enw yn ein hiaith ni,
rwy'n credu, ac nid yw'r rheini yn fodlon ei enwi.*

*Sgrifenna ar ddarn o femron y gair a elwir abracadabra
a'y ailadrodd nifer o weithiau gan rymud tuag i lawr oddi uchod.
Ond tynn i ffurdd lythrennau unigol, yn fwy a mwy,*

gan lunio y gweddill hyd nes i ti gyrraedd
 un llythren yn unig a'r cyfan yn ymddangos mewn ffurf driongllog.
 Glyn y memran ag edefyn o lian ar y gwddf...
 Ac fe fydd nerth gwyrthiol yn cadw draw y clefydau.

* * *

Mae'n amlwg na newidiodd yr hyfforddiant swynol fawr ddim yn ystod yn agos at ddwy fil o flynyddoedd, ond i'r Dyn Hysbys ei gweld hi'n angenrheidiol i ychwanegu nerth enw'r Drindod a phwerau seryddol.

Mae hawl gennym felly i ofyn tybed a oedd rhyw nerth goruwchnaturiol y tu cefn i'r swyn gwreiddiol a oedd yn effeithio ar y nerth gwyrthiol (*potentia miranda*).

Mae'n bosib fod y gair *abracadabra* yn gysylltiedig â'r enw *Abraxas* a sgrifennwyd yn aml iawn ar emau gwarchodol y sectau Gnosticaidd. Cododd sectau gnosticaidd amrywiol yn arbennig yn Alexandria yn ystod yr ail ganrif o Oed Crist. Cytunent mewn llawer ffordd â'r Cristnogion cynnar; yn wir, arwyddocâd y gair *Gnosis* yw "gwybodaeth am natur Duw" ac roedd y sectau hyn yn rhai a fu'n ceisio'r wybodaeth am hanfod Duw a'i greadigaeth. Yr oedd rhai ohonynt yn Gristnogion, ond eu bod yn coleddu syniadau hereticaidd. Eu cred arbennig hwy oedd y deuai datguddiad am natur Duw yn uniongyrchol i unigolion dethol. Dangosodd rhai ohonynt eu dirmyg tuag at bethau'r byc materol hwn drwy fywyd penrhydd, libertinaidd. Cymerwyd llawer o'u symbolau o'r byd sêr-ddewinol.

Byddent yn hoffi cysylltu rhifau â llythrennau i ffurfio enwai ac yr oedd hyn yn bosibl oherwydd i'r Groegiaid ddefnyddio llythrennau'r wyddor i fynegi rhifau, A = 1, B = 2, ac yn y blaen. Fel hyn y mynegir yr enw ABRAXAS mewn rhifau:

A = 1
 B = 2
 R = 100
 A = 1
 X = 60
 A = 1
 S = 200

ABRAXAS = 365

Mae ABRAXAS felly yn gyfartal â 365, sef cyfanswm dyddiau'r flwyddyn. Mae hyn yn profi bod yr enw ABRAXAS yn cynrychioli'r flwyddyn a hefyd yr holl amser sydd yn ein meddiant.

Wrth geisio esbonio ffurf arbennig y swyn, sef y triongl, rhaid cofio i'r Gnosticiaid gysylltu saith llafariad y wyddor Roegaidd â'r saith planed. Roedd modd canu'r llafariad, ac fe gadwyd math o gân ar ffurf triongl dwbwl, ffigur sy'n lleihau ac yn cynyddu eto:

Cân y Planedau

```

A E ε I O Y δ
  E ε I O Y δ
    ε I O Y δ
      I O Y δ
        O Y δ
          Y δ
            δ
              δ Y
                δ Y O
                  δ Y O I
                    δ Y O I ε
                      δ Y O I ε E
                        δ Y O I ε E A (63,1.77,198)
  
```

Gyda chân y planedau cawn weld meddwl ffrwythlon y Gnosticiad ar waith, oherwydd, iddo ef, byddai'n gytnaws defnyddio enw'r Duw Abraxas (sef Amser), o bosib, gyda chân y planedau, i greu y swyn ABRACADABRA.

Gwahaniaethir yn aml rhwng y Gelfyddyd Ddu (*Black Magic*), sy'n niweidio a lladd, a'r Gelfyddyd Wen (*White Magic*), sy'n fendithiol. Mae'r Eglwys Gristnogol, wrth reswm, yn tueddu i edrych ar bob math o swyngyfaredd fel cynnyrch y pwerau uffernol sy'n herio uwchbennaeth y gwir Dduw.

Darganfuwyd yng Nghymru enghreifftiau ysgrifenedig o'r ddau fath o swyngyfaredd sy'n perthyn i'r cyfnod Rhufeinig. O'r amphitheatr Rhufeinig yng Nghaerlleon daeth taflen denau o blwm (47a,rbif 99) gyda'r ymbil yn Lladin at y Feistres Nemesis (*Domina Nemesis*) i rwystro dyn arbennig rhag dod allan o'r arena yn fyw: cynnyrch y Gelfyddyd Ddu yn ddiamau. Ond taflen o aur a ddefnyddiwyd yng Nghaernarfon (47,pl.XIV) i ysgrifennu arni yn yr iaith Roegaidd, gan ychwanegu llawer o symbolau dirgel a gofyn am amddiffyniad i un o'r enw Mealphianos: cynnyrch y Gelfyddyd Wen yw hon.

Rhaid edrych ar Necromansia, sef yr ymdrech i godi'r meirw er lles personol, hefyd fel rhan o'r Gelfyddyd Ddu, a gellir honni yn gyffredinol fod y Gelfyddyd Ddu yn brwydro yn erbyn y drefn a osodwyd gan Dduw. Yn ddiamau gellir darganfod yng Nghymru lawer o enghreifftiau ohoni, ond heb fod mor sadistaidd o greulon a'r rhai a ddangosir heddiw yn ein sinema'u mewn ffilmiau "X" yn gysylltiedig ag "addoliad y dieflig." Dyma rai enghreifftiau o'r Gelfyddyd Ddu yng Nghymru:

1. deisyfiad ar yr ysbrydion, os bydd gŵr wedi gadael ei wraig;
2. lladd dol yn y fynwent;
3. galw ar ysbrydion y meirw (*necromansia*).

1. Deisyfiad ar yr ysbrydion os bydd gŵr wedi gadael ei wraig
Copiwyd y canlynol o dudalennau'r Llyfr Cyfrin o Sir Ddinbych.

Trwy'r moddion canlynol y gall
dyn neu ddynes ennill gariad
yr hwn a ddewisont.
Os bydd gŵr wedi gadael y
wraig neu wraig wedi gadael
ei gŵr, chwi a ellwch drwy'r
moddion yma wneud iddynt ddyfod
yn ôl. Ysgrifennwch yr
enwau isod i gwael megis y
hyfforddied o'r blaen oddi dan
y character sydd ar y dalen ar
gyfer.

Sarabotas, Frenin

Swyddogion

Amabiel. Aba. Abalidoth. Flafl.
Flygwch y papur a chymerwch saith o binnau newyddion.
A phigwch y papur yma a thraw
Saith waith drwyddo a gadewch y pin
yn y pigiad diwethaf. Fel hyn ym-
arferwch y pinnau un bob nos am
saith noswaith. A chadwch y papur
a'r pinnau ynddo hyd oni wnelir
Eich Ewyllys. Oberwydd fe fydd yr effaith
yn canlyn dros lawer o amser.
Cofiwch eich bod i wneud eich deisyfi-
ad at yr ysbrydion bob nos ar
iddynt gwplhau Eich dymuniad.
Ag ar ôl cael eich dymuniad twlwech
y papur i'r tân a'r pinnau hefyd.

(tumbolau)

The Angels of Friday: Anael, Rachiel, Sachiel (80,t.185-6)

Cyfareddu personol yw hyn, a gall dyn neu ddynes ei ymarfer wrtho'i hun ac yn ei ystafell ei hun, a'r unig foddion gweladwy sy'n angenrheidiol yw'r papur a'r pinnau newyddion a'r gwael a'r tân. Y moddion gweladwy yw'r dymuniad, yr ewyllys, y dyfalbarhad, y rhif saith—a'r ysbrydion.

Mae enwau'r ysbrydion yn ymddangos braidd yn gyfrin-
fygthiol, ond gellir gweld yr un enwau yn union yn llyfr Francis
Barrett, *The Magus* (5), a gyhoeddwyd ym 1801, a gwelais fod y
llyfr hwn yn un o'r rhai a feddai'r Dyn Hysbys o Sir Ddinbych.
Darllenir yno:

trawer modur canlyniol y go
 Duan de Duan y gwall gwriad
 yn hys a ddiarwnt
 Et hys gwr gwadi gwadi y
 wraig neu wraig gwadi gwadi
 ei hys chwri a chwri Duan
 modur yma wneud ruddod dyf
 yn ol ysgriwrsch yn
 Euronau is od a gwad mwyd y
 ymffwrdd or blaen od tan y
 Character sud or y Duan ar
 hys

Sicrabetax. Fwddion

Arudogion

Amgibetia. Abaladeth. Fwddion

oblygwch y papur a ddiarwnt
 ych Smith o Binnar neu ar

A ffygwrch y papur ymman theraw
 Smith ddiarwnt a gwadi y gwriad
 yn y pligid dywriad fel hys yn
 arwriad y gwriad neu hys neu ar
 Smith ddiarwnt A Eudwrch y papur
 ar gwriad ych hys oni wneud
 tich twllus chwriad fe fud yn affithe
 yn calan Duan hys o arwriad
 Cofiwch eich bod i wneud eich hys
 led at yn ysgriwrsch hys neu ar
 idwot gwriad hys tich dywriad
 ag ar od cal ych dywriad twllus
 y papur is tan ar gwriad hys



The Signs of Duan y Duan hys hys

25 & 26: "Ennill Cariad" - dau dudalen o'r Llyfr Cyfrin o Sir Ddinbych. (80)

The angels of the air ruling on Friday:

Sarabotes, King; Ministers: Amabiel, Aba, Abalidoth.

Gwnaeth Barrett wahaniaeth hefyd rhwng *angylion yr awyr* sydd ar gael ar ddydd Gwener a'r *angylion sy'n rheoli ar ddydd Gwener*, sef Anael, Rachiel a Sachiel. Yn ddiamau, Barret oedd tad y ddamcaniaeth am *angylion dewinol sy'n eiddo i'r swyn Cymraeg yn y Llyfr Cyfrin*.

Felly heb yn wybod iddynt, yn debyg iawn, y bydd pobl sy'n defnyddio'r swyn yn galw am gymorth yr ysbrydion amrywiol sy'n perthyn i ddydd Gwener —sef ysbrydion y dydd a gyflwynir i Fenws, Duwies Serch.

A dyna ystyr gyfrin guddiedig y swyn. Ond y mae iddo bwrpas arall hefyd, yn gysylltiedig â'r pinnau.

Y Pinnau. Y disgwyliad yw i'r pigjadau roi cymaint o boen i'r cariad anffyddlon hyd nes iddo ddychwelyd. Ceir llawer iawn o enghreifftiau cyffelyb. Roedd Ffynnon Elian yn Sir Ddinbych (27.t.118,121) yn adnabyddus am ymdrechion tebyg, yn arbennig rhwng 1800 a 1815, pan oedd hen wraig yn geidwad iddi. Un o'r nifer o ddefodau a arferwyd yno oedd gwneud ffigur o wêr, gwthio pinnau i fewn iddi, a'i chlymu wrth ddarn o gopr. Ynganai ceidwad y ffynnon eiriau cyfrin o felltith a throchi'r ffigur dair gwaith yn y dŵr, a'i gadael wedyn ar waclod y ffynnon. Sylwer bod copr hefyd yn gysylltiedig â'r Dduwies a aned yng Nghupros, sef Fenws, ac yn ôl dysgeidiaeth yr astolegwyr, y mae copr yn perthyn i'r blaned Fenws yr un fath ag y mae plwm yn perthyn i'r blaned Sadwrn, ac aur i'r haul.

2. Lladd dol yn y fynwent

Cefais brofiad o ddiwyddiad yn y cyswllt hwn yn ymyl Abertawe ym 1974. Ar ddechrau mis Gorffennaf dychrynwyd trigolion yr ardal wrth weld, ar dudalen flaen y papur dyddiol lleol, lun o ddoi a gafodd ei lladd yn greulon: dol dlos â gwallt modrwyol ar draws ei hysgwyddau. Fe'i dangoswyd yn pwyso yn erbyn carreg fedd heb ddillad amdani, ond gyda sgiwer yn y man lle dylai ei chalon fod, ac un llygad wedi ei dynnu allan. Roedd ei chorff yn llawn o bigjadau nodwydd. Fe gafodd ei

chrogi â chadwyn o fetel a dynnwyd o amgylch ei gwddf.


Darganfuwyd y ddol ym mynwent eglwys ddiarffordd, sef eglwys Llandcilo-Tal-y-bont yn agos i Bontarddulais. Suif yr eglwys hon mewn coedwig ar lan Afon Lluchwr. Mae ei hanes yn mynd yn ôl at sefydliad Cristnogol yn y chweched ganrif yn yr un lle. Ni chynhaliwyd gwasanaeth crefyddol yno yn ystod y tair blynedd diwethaf. Ac yn awr darllenwyd y newyddion dychrynlyd a syfrdanol ar dudalen flaen yr *Evening Post* (6.vii.1974):

Black Magic rites and voodoo are believed to have been practised at a remote, disused West Wales church...

Gwnaeth Ficer yr eglwys ym Mhontarddulais ddatganiad yn dweud pe gellid profi mai fel llwyfan i "gelfyddyd ddu" y defnyddiwyd yr eglwys —un o'r rhai hynaf yng Nghymru— yna byddai'n rhaid ei hailgysegru.

Ychydig o ddyddiau wedyn euthum fy hun i weld yr hen eglwys am y tro cyntaf yn fy mywyd, er i mi fwriadu lawer gwaith o'r blaen ymweld â hi. Roedd y digwyddiad hwn, o leiaf, yn profi i mi y nerth trydanol sy mewn gweithredoedd (honedig) yn perthyn i'r gelfyddyd ddu, rhywbeth sy'n apelio'n uniongyrchol at y dychymyg a'r ewyllys ac wn i ddim at sawl greddf waharddedig.

Wedi mynd drwy Bontarddulais ac i gyfeiriad Gorseinon, trois i'r dde wrth agosau at y rheilffordd a adeiladwyd ar draws yr afon. Gadewais y car yn ymyl tŷ fferm a cherdded wedyn ar lwybr cul ond cadarn nad oedd yn annhebyg, yn ôl teimladau fy nhraed, i'r ffyrdd Rhufeinig. Codai llwyni ar y ddwy ochr a lledaenai blodau'r gwyddfod eu haroglau melys-swynol. Daeth amgylchfur gwyn yr eglwys i'r golwg mewn clwstwr o goed. Wedi mynd heibio ysgubor cerddais drwy'r glwyd i'r fynwent, ac i fewn i'r eglwys. Disgynnai glaw mân tenau drwy'r tyllau yn nho'r eglwys a gwelais ddail iorwg yn tyfu i fewn drwy ffenestr doredig. Taflywyd seddau'r eglwys yn bendramwnwgl. Gwelais y cawg bedydd mewn un cornel; roedd bwrdd yr allor o dan ffenestr a sylwais hefyd ar garreg gyda rhestr hir o enwau yn eiddo i barchedigion a ofalodd, ym 1806, am godi seddau newydd ar gyfer yr eglwys. Tawelwch llwyr. Lle cymwys oedd hwn i ddyn meidrol synfyfyrion ar ystyr bywyd —neu wacter



BLACK MAGIC DOLLS & THORNED HEART

27: "Lladol Doliau" yn Lloegr ym 1964

ystyr— neu i wrthryfela yn erbyn Duw: teimlad o ramant yn gymysg ag ofn, a'r nos yn dechrau nesu.

Ni allwn feddwl am le mwy addas i gynnig offrwm i'r pwerau tywyll yng nghanol y nos, lle a fu unwaith yn sanctaidd ac a anghofwyd gan y ffyddloniaid. Ond wedi teimlo hynny i gyd, ac wedi maddau, yn fy nghalon, dramgwyddiadau'r bobl ifainc a feddai ddigon o gydymdeimlad tuag at naws y lle—doeddwn i ddim yn credu, wedi'r cyfan, mai'r offeren ddu a ddathlwyd yma. Nid oedd raid ail-halogi'r eglwys a oedd yn esgymunedig

yn barod drwy esgeulustod. Yr unig ddefod a ddigwyddodd yma, am wn i, oedd ymosod, ar ôl yfed ychydig boteli o gwrw, ar ddol yn lle ymosod ar ddynes. Defod draddodiadol yn wir yw hon, yn unol â'r patrwm a osodwyd gan geidwad Ffynnon Elian.

28: "Lladol Dol" yng Nghymru ym 1974



It was used by a metal shaver, the doll found by a visitor to the church this week. One of the doll's eyes had been covered with the yellow wax also found with the doll.

U

Davi

BLACK M
to have b
West Wal

A m
heart pier
yard of
Pontardul
neck as if

Vicar of
Canon Cy
Williams, s
if the church-
Christian site
proven to hav
black magic.

be reconsecr
The white
stands in a
bank of the
Loughor. The
of the sixth
present build
the 12th cent

Speculation
magic arose
finding inside
the mutilated
have picked
the sign of U
on its chest.
ported to I
shaved.

This is add
list of damas
done in the
mile away f
inhabited bu
side of the r
for three yea

The vicar
inside of the
almost total
dals

Mae'n werth cofnodi enghreifftiau eraill yn ein hoes ni o fanau lle mae doliau yn cael eu camdrin. Cedwais adroddiad a dorrais allan o gylchgrawn ddeng mlynedd yn ôl. Dangosir llun o'r Parch J.R.Read o St Clement yn Leigh-on-Sea, Essex. Gydag atgasedd yn ei wyneb y mae'n dal i fyny galon dafad wedi ei thrwytho gan bigau drain a hefyd ddoliau o bridd a wnaethpwyd yn arbennig ar gyfer seremonïau swyngyfareddol.

Rhodddwyd esboniad clir o bwrpas y doliau gan ferched a ddedfrydwyd i farwolaeth am weithredoedd o'r fath yn Lancaster ym 1612:

This Examinee (Dendike) confesses and says that the speediest way to take a man's life away by witchcraft is to make a picture of clay like unto the shape of the person whom they mean to kill and dry it thoroughly. And when they would have them to be ill in any one place more than another, they take a thorn or pin, and prick it in that part of the picture you would have to be ill. And when you would have any part of the body to consume away, then take a part of the picture and burn it. And when they would have the whole body to consume away, then take the remnant of the said picture and burn it and so thereupon by that means the body shall die. (59,a)

Ni wyddys pa mor hen yw'r arfer o geisio niweidio pobl mewn gweithredoedd o hud cyd-deimladol (*symparhetic magic*). Beth bynnag, fe ddigwyddodd rhywbeth tebyg i Frenin yr Aifft, Ramesses III, yn ôl adroddiad a sgrifennwyd ar dudalen o bapur os dair mil o flynyddoedd yn ôl, ac a gadwyd hyd heddiw (10,t. 454-5). A dyma'r hanes:

Roedd gan y Brenin Ramesses III harf m yn llawn o wragedd estron a chanddynt ddigon o amser i gynllwynio dros eu meibion ac yn erbyn y brenin; a chanddynt weision hefyd i roi cymorth iddynt. Fe aeth un o'r gweision at un o ysgrifenyddion dysgedig y wlad, a gofyn iddo: "Dyro i mi ddogfen â nerth a gallu ynddi!"

A rhoddodd yr ysgrifennydd sgrôl iddo, ac fe ddechreuodd ddefnyddio'r pwerau swyngyfareddol sy gan Dduw. Gwnaeth ffigurau o wêr a sgrifennu arnynt gan fwriadu eu rhoi i ryw swyddog o'r plasty brenhinol ac iddo yntau eu cymryd i fewn i'r plasty er mwyn "rhwystro rhai o'r milwyr a gosod swyn ar eraill."

Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen: "Yn awr pan aeth hwnnw ati i gyflawni'r weithred ddrwg —er nad oedd Ra (Duw'r Haul)

yn caniatáu iddo lwyddo— fe'i harchwiliwyd. Fe ddarganfuwyd y gwirionedd am bob gweithred annuwiol a drwg a gynlluniwyd yn ei galon...gweithredoedd sydd yn haeddu marwolaeth."

Yn ôl yr adroddiad, gorfu i'r drwgweithredwyr, a rhai ohonynt yn bobl bwysig yn Llys y Brenin, ladd eu hunain. Ond bu farw'r Brenin ei hun yn fuan wedyn.

Erbyn heddiw, nid yw'r digwyddiadau hyn yn defnyddio doliau-swyn ond fel gweithredoedd o falais ac amarch tuag at y grefydd Gristnogol. Ond credid yn yr Hen Aifft fod bywyd gwirioneddol ym mhob math o ffigur a llun. Dodid ffigurau pren o weithwyr i fewn i'r bedd er mwyn iddynt fod o gymorth i'r dyn marw yn y byd arall. Ac os gallent naddu ffigurau i gynorthwyo'r meirw, gwyddent hefyd sut i wneud doliau i niweidio a lladd gelymion. A hwyrach nad yw ein byd goleuedig ni mor bell i ffwrdd oddi wrth eu hofergoelion hwy wedi'r cyfan.

3. Galw ar ysbrydion y meirw

Edrychwch ar eich siars

Ni thâl dim gwneuthur ysgrmws. (72,t.332)

Mewn drama grefyddol, yn hwyr yn yr Oesoedd Canol, y mae'r "Dyn Cadarn" yn rhybuddio'r offeiriad â'r geiriau uchod rhag chwarae gydag ymarferion swyngyfareddol sy'n ymwneud â'r meirw, sef galw yn ddefodol ar eneidiau'r meirw i gael cyfathrachu gyda'r byw. Mae'r geiriau eu hunain yn brawf o'r ffaith fod ymarferion o'r fath ar gael yn y cyfnod. Cyn amser y diwygiad credid gan lawer fod gan y meirw fodd i ddychwelyd o'r purdan a rhoi neges i'r rhai byw, a hefyd, debyg iawn, i ymddangos fel ysbrydion neu ddychweledigion, yn arbennig mewn trigfanau lle'r oeddent yn arfer bod yn ystod eu bywyd. Colodd yr Eglwys Ddiwygiedig y gred ym modolaeth y purdan, a phan fyddai ysbrydion yn dal i ymddangos i rai, hawliwyd bod y cythraul yn gyfrifol: yr un drwg oedd yn codi gweledigaethau i dwyllo dynion. Gan hynny roedd Hamlet yn gallu gofyn i ysbryd honedig ei dad:

Ai iachus ysbryd ai damnedig rith

Bod awel nef o'th gylch, bod fflamau'r fall...

*(Be thou a spirit of health, or goblin damned,
Bring with thee airs from heaven or blast from hell...)* (33)

Yn ôl pob tebyg, ymarferid *necromansia* hyd at y ddeunawfed ganrif ac yn ddiweddarach, oherwydd o amgylch 1752, disgrifiodd Thomas Nicolas o Gonwy ei hun yn ei lyfr consurio (15,t.22) fel "*Cbiefte fortoun teller yet no necromancer...*"

Ni ellid honni yr un peth am y Dyn Hysbys o Sir Ddinbych. O leiaf yn ôl tystiolaeth ei lyfr cyfrin, yr oedd ef yn gwybod rhai o gyfrinachau'r *ysgrmars*. Fe nodir ganddo hyfforddiant pendant (80,t.117) "*To invoke and converse with the spirit of the dead.*" Fe gyflawnir y gamp drwy ddweud gweddi arbennig ar ôl paratoi'r ffordd yn gyntaf. Ac nid peth hawdd fyddai dilyn ei hyfforddiant. Yn gyntaf, rhaid mynd at y fan lle torrir bedd i rywun sy newydd farw, a chymryd llond llaw o'r pridd amser torri'r bedd, ac ynganu enw'r dyn marw a dweud:

I do take the earth in which thou must enter into, that thy spirit may come unto the church to speak unto me and fulfil my will, and that it never shall have power to rest or be quiet until thou come to speak with me and fulfil my will and commandment.

Wedi ynganu'r geiriau rhybuddiol, rhaid mynd i'r eglwys gan ddal i gadw'r pridd yn y llaw ac aros hyd nes i'r corff gael ei gludo i fewn i'r eglwys, "and thou shalt see a twofold spirit coming and the spirit of the dead like cats."

Wrth weld ysbryd y dyn marw yn yr eglwys rhaid adrodd enwau Duw. Ar ôl y gwasanaeth rhaid dilyn y cynhebrwng hyd at y bedd, ac aros i'r corff gael ei ostwng i'r bedd gwag. Ac wedi i bawb arall fynd i ffwrdd, fe fydd yr ysbryd yn dod. Nid oes raid ofni, ni all wneud unrhyw niwed. Ond yn awr galwer ar y dyn marw wrth ei enw, gan ddweud fel a ganlyn:

O N., I do conjure thee by the passion of our Lord Jesus Christ,
And by the virgin nature of the sweet Mary,
And by the twelve apostles,
And by the four evangelists,
And by all the martyrs and confessors,
And by the earth which I have in my hand
Which is of the earth wherein thy body is buried in,
And by the constellations of heaven,
And by all the virtues and powers which are in heaven and on earth,

And by all the angels and their fall in which is the cause of man's creation,
And by the words which Christ spake as he hung upon the altar of the cross,
That is Ely, Ely Lama Zabachthani semiforas [sic],
That thou do not offend me by any manners of lying or deceit,
But that you declare the truth of all things when I do call thee by thy name, o N.,
And in answering me truly with an understanding voice,
And the true tongue and speech which I do understand.
And I do bind thee,
And I conjure thee by all the words aforesaid,
And I command thee by our Lord Jesus XI
And by his most precious blood,
And by him that will come to judge the quick and the dead
And the world by fire.

Amen.

Fe roddir yn yr un llyfr cyfrin (80,t.122-3) hyfforddiant haws ei ddilyn o dan y pennawd, *Another strange necromantic spell*. Yno cynghorir unrhyw un sydd cisiau annerch neu gwrdd â pherson marw (neu fyw), i fynd i'r fynwent, ar nos Wener, rhwng naw a deg o'r gloch, a cherdded o amgylch saith waith. Ac wedi iddo ddod i'r gornel, rhaid sefyll yn stond ac adrodd gweddi'r Arglwydd a'r Credo, "and before you have gone seven times around, you shall meet them you would meet with all personality as they were wont to go."

Rhywbeth gwaharddedig, wrth reswm, oedd yr ymdrechion i gwrdd ag ysbryd y meirw, ond gellir deall ysbryd yr ymholwyr yn well wrth gofio bod ysbrydolegwyr ein dyddiau ni hefyd yn ceisio rhywbeth tebyg — heb sôn am enghraifft fwyaf adnabyddus y Beibl, am Saul a'r wraig o Endor, a oedd yn berchen ysbryd-dewiniaeth, yr un a alwodd ar ysbryd Samuel i ddod i fyny a phroffwydo (1 Sam.,28,7-25). A hwyrach y gellir deall y seremoniau hefyd wrth edrych ar enghraifft o ymofyn â'r meirw mewn ardal a chyfnod pan oedd hynny'n gallu bod yn foddion cymdeithasol cydnabyddedig i ddarganfod y gwirionedd.

Ymofyn â'r meirw yn yr Hen Fyd

Mewn rhyw dre yn Thessalia, yng Ngroeg, bu farw yn sydyn ddyn ifanc o deulu parchus [yn ôl y stori a adroddir gan Apuleius]. Fe gludwyd y corff drwy ganol y dref i'r Angladd, fel yr oedd hi'n arferol yno. Yn sydyn rhedodd hen ddyn ato mewn dagrau, sef ewyrth y dyn ifanc, brawd ei fam, a chyhuddo gwraig y dyn marw o'i ladd â gwenwyn, er mwyn cael gafael ar ei arian. Roedd y dyrfa yn anesmwytho a rhai yn chwilio yn barod am gerrig a thân er mwyn ladd y wraig weddw. Ond nid hyn oedd bwriad yr ewyrth:

"Gadewch i mi alw am farn Duw," meddai ef. "Edrychwch, rwyf wedi dod ag offeiriad o'r Aifft, o'r enw Zatchlas, proffwyd blaenaf (*propheta primarius*). Rwyf wedi ei logi am bris uchel i alw enaid y dyn hwn yn ôl o uffern (*ab infernis*) am ysbaid..." (3.2.28)

Ar hynny ymddangosodd dyn ifanc mewn dillad gwyn o liain, ac am ei draed sandalau wedi eu plethu o ddail y palmwydd, a'i ben wedi ei cillio yn gyfan gwbl. Fe aeth yr hen ddyn ato a chusanu ei law lawer gwaith a chyffwrdd ei benliniau, gan ymbil:

O Offeiriad trugarha! Rwyf yn ymbil
yn enw sêr y nefoedd (*per caelestia sidera*),
yn enw'r pwerau is-ddatarol,
yn enw thinwedd yr elfennau naturiol,
yn enw tawelwch y nos,
yn enw'r temlau Coptaidd,
yn enw codiad Afon Neil
a'r pethau cyfrin sydd ym Memphis,
ac yn enw'r offerynnau sy'n seinio yn Pharos:
Rho am ysbaid byr iddo weld goleuni'r Haul!

Ar hynny, cymerodd yr offeiriad lysieuyn a'i osod ar geg y dyn marw, dair gwaith; ac un arall, a'i osod ar ei fron. Trodd i'r Dwyrain gan weddio'n urddasol ac yn dawel ar yr Haul a oedd yn codi. Fe synnodd y dyrfa gan ddisgwyl gweld gwyrrth.

Ac yn awr fe ddaeth anadl yn ôl i fron y dyn marw; fe eisteddodd i fyny a gofyn:

Rwy'n ymbil arnoch, pam yr ych chi wedi galw arnaf i ddychwelyd
wedi i mi yfed o gwpan Lethe [*sef ebargofiant*] ... Gadewch lonydd imi,
gadewch lonydd imi gael gorffwys.

Gyda hyn, galwodd yr offeiriad arno gyda dieter yn ei lais, gan ei rybuddio y câi ei boeni gan y demoniaid, os nad oedd yn barod i ddweud wrth y bobl pwy oedd yn gyfrifol am ei farwolacth.

A'r dyn ifanc, gydag ochenaid ddofn, a gyfaddefodd:

Fy ngwraig newydd-briod, hi a'm lladdodd â'i chelfyddyd ddu (*malis artibus*).

Gellir gweld yma yr offeiriad Eifftaidd yn urddasol wrth ei waith, yn feistr ar ei grefft o weithredu necromanteidd fel defod gyhoeddus, a chynhyrfu teimladau pawb i'r dyfnderoedd. Fe adroddwyd y stori yn yr ail ganrif o Oed Crist.

Yn yr Aifft roedd hi'n rhan arferol o'r seremonïau angladdol i offeiriad arbennig "agor ceg" y dyn marw er mwyn rhoi'r gallu iddo i fyw yn y byd arall.

Nid peth hawdd yw disgrifio gwir natur y Tylwyth Teg. Fel y dywed Evan Isaac (24, t. 14): "Amrywia'r traddodiadau ynglŷn â hwy yn ôl fel yr amrywia arwynebedd y wlad a cheir hwy yn amlach ar fynydd-dir nag ar wastadeddau isel."

Ond er iddo wahaniaethu rhwng y bodau bychain o duedd anonest a'r bodau bychain hardd, bonheddig a chymwynasgar, ni ddywedodd air am y defodau swyngyfareddol a ddefnyddid i alw arnynt. Penderfynais felly i roddi yma rai enghreifftiau o'r mathau a nodwyd gan bersonau mor wahanol â John Penry a'r Dyn Hysbys o Sir Ddinbych.

1. John Penry a Bendith y Mamau

Yn y flwyddyn 1587 anfonodd John Penry lythyr o ymbil at y Frenhines ac at Uchel-llys y Senedd yn Llundain yn gofyn am drefniant i bregethu'r Efengyl yng Nghymru. Pan sgrifennodd y cais yr oedd John Penry yn bedair ar hugain oed, a newydd adael colegau Caergrawnt a Rhydychen. Yr oedd yn llawn o ofn y byddai Cymru yn golledig am byth oherwydd prinder pregethwyr â'r gallu i bregethu'r ysgrythur. Nid oedd hawl gan y Cymry bellach, i addoli fel Catholigion, ac yr oeddent heb ddysgu eto sut i fod yn Gristnogion heb gymorth y saint.

"Our people learn one of another most blasphemous prayers," meddai, "This they do so much the rather because in them they command themselves, families etc. unto the tuition of some saint whom they think most favourable unto them, and best able to grant their petitions... If they meet with any who can write and read, they will demand of him whether he can teach them ever a good prayer against such a disease in men and beast." (56, t. 33)

Ac yng nghanol ei ddisgrifiad o gyflwr truenus Cymru, dyma'r

frawddeg sy'n profi iddo gwrdd â phobl a oedd yn cymryd y tylwyth teg, neu "bendith y mamau", o ddifrif:

...Hence flow our swarms of soothsayers and enchanters, such as will not stick openly to profess that they walk on Tuesdays and Thursdays at nights, with the fairies, of whom they brag themselves to have their knowledge. These sons of Belial, who should die the death, Lev.29.6, have stroken such an astonishing reverence of the fairies into the hearts of our silly people, that they dare not name them without honour. We call them bendith y mamau, but they will say bendith eu mamau eu hun, that is their mothers blessing...as though they were not to be named without reverence.

Y peth rhyfedd am y gosodiad hwn yw, nid yn gymaint bod pobl yn dal i gredu ym modolaeth y Tylwyth Teg, ond eu bod yn credu mewn cyfathrach rhwng y Tylwyth Teg a dynion cyffredin sy'n ei gwneud hi'n bosibl iddynt dderbyn gwybodaeth gyfrin oddi wrthynt, a hynny wrth gerdded gyda'r Tylwyth Teg ar ddyddiau arbennig. Dyma, am wn i, yr unig dystiolaeth bendant a hollol ddifrifol o fodolaeth y gred honno yng Nghymru yn y cyfnod arbennig hwn.

Roedd canrifoedd wedi mynd heibio, bellach, er yr amser pryd y cododd morwyn allan o Lyn-y-Fan-Fach i briodi dyn meidrol a magu plant a hyfforddi ei mab yn y grefft feddygol (1).

Mae'r stori a adroddodd yr offeiriad Elidyr i Esgob Dewi yr Ail (34) yn disgrifio'r Tylwyth Teg fel pobl fach sy'n byw o dan y ddaear, yn llawn o chwerthin a moethau. Ni fwytaent na chig na physgod, gan ymborthi'n bennaf ar fwydydd laeth wedi eu coginio. Nid oedd dim a gasaent gymaint ag anwireddau.

Coleddwyd, felly, yng Nghymru y gred mewn bodau goruwchnaturiol, ond heb fod yn ysbrydion, a oedd yn gallu rhoi hyfforddiant mewn meddyginiaeth, pobl a oedd yn dal i fyw o dan y ddaear ac yn y brynau, yn foethus ac yn foedal. Nhw oedd y "fairies" yr oedd John Penry yn cyfeirio atynt, "Bendith y Mamau", a fyddai'n rhoi gwybodaeth i rai pobl ar nos Fawrth a nos Iau.

Bydd yn haws credu yn niffuanrwydd John Penry wrth sylwi ar beth a ddigwyddodd yn yr Alban tua'r un adeg, sef yn ystod rhan olaf yr unfed ganrif ar bymtheg. Teimlodd John Penry yn ddigon cas i ddymuno marwolaeth i'r "soothsayers" yng

Nghymru, ond yn yr Alban, fe erlidiwyd pobl a'u crogi a'u llosgi (ar ôl eu crogi) am wneud dim byd gwaeth na chael gwybodaeth oddi wrth y "Fairies" a defnyddio'r wybodaeth honno er daioni i'w cymdogion.

Achos Bessie Dunlop yn yr Alban

Yn y flwyddyn 1578, cyhuddwyd Bessie Dunlop o reibio, defnyddio coel-gân a galw ar yr ysbrydion dieflig gan aros yn gyfeillgar gyda'r ysbrydion am gyfnod hir (58, t. 49). Oddi wrth yr adroddiad am yr achos (a gofnodwyd yn iaith lafar yr Alban) daw'n amlwg bod Bessie Dunlop wedi bod o gymorth i lawer iawn o bobl. Byddai Bessie yn darganfod pethau a ddygid ac a gollid. Byddai pobl yn dod ati pan oedd plentyn yn sâl, neu anifail yn dioddef oddi wrth saethau'r dyneddon (*elf-gripped*). Byddai Bessie yn paratoi ar eu cyfer eli neu ddiod o lysiau arbennig, ac yr oedd boneddigesau adnabyddus ymysg ei chwsmersiaid. Fel gwobr rhoddwyd iddi bethau defnyddiol fel sached o flawd neu ddarn o gaws.

Rhyw fath o "ferch hysbys" felly ydoedd, ond bod un peth eithriadol amdani: fe fynnodd ddweud nad hi ei hun oedd biau'r wybodaeth. Honnodd ei bod yn derbyn cyngor cyson oddi wrth Thom Reid, a oedd mewn cysylltiad agos â'r Tylwyth Teg (*gude wycbtis*) a oedd yn byw yng Nghaersidi (*The Court of Elfame*). Pan ofynnodd erlynydd y Llys Barn iddi a oedd hi wedi gofyn cymorth Thom Reid i roi help iddi ei hun neu unrhyw berson arall, fe atebodd:

Pryd bynnag y byddai rhywun yn dod ataf, i ofyn am gymorth ar gyfer ei anifeiliaid, buwch neu famog, neu ar gyfer plentyn a oedd yn sâl dwey chwa gwynt neu saeth dyneddon, fe fyddwn yn mynd at Thom a gofyn beth a allai fod o gymorth iddynt. A byddai Thom yn tynnu llysiâu yn a'i roi i mi.

"Allan o'i law ei hun?" gofynnodd Holwr y Llys.

"Ie, o'i law ei hun," atebodd Bessie, "ac fe roddodd gyngor imi hefyd sut i'w gymysgu â llysiâu eraill, a'u rhidyllu ac agor ceg yr anifail a'i osod i fewn. Ac mi fyddai'r anifail yn gwella."

"A pha driniaeth y byddet ti yn ei rhoi i bobl?" gofynnodd Holwr y Llys. Atebodd Bessie yn amyneddgar:

Fe roddai Thom i mi â'i law ei hun, rywbeth yn debyg i wreiddyn betys a gorchymyn i mi naill ai i'w ferwi a pharatoi eli ohono neu ei sychu a gwneud pylor a'i roi i'r bobl ac mi fyddent yn gwella.

Fe ymdrechodd Thom nifer o weithiau, yn ôl ei hadroddiad hi, i hyrwyddo cysylltiad rhyngddi a phobl Caersidi (*Elfame*). Dywedodd i Thom ddod ati hi yn hytrach nag at neb arall, ar orchymyn Brenhines Caersidi, a hynny fel gwobr am weithred dda a wnaeth: unwaith pan oedd Bessie yn disgwyl genedigaeith fuan plentyn, daeth benyw dew ati ac eistedd ar sedd yn ei hymyl, a gofyn am ddiod. Rhoddodd Bessie y ddiod iddi, ac fe ddywedodd y fenyw y byddai'r plentyn yn marw ond y byddai gŵr Bessie yn gwella o'i salwch. A'r fenyw ddieithr hon, meddai Thom, oedd Brenhines Caersidi.

Dro arall, cydiodd Thom yn rhuban ei ffedog a'i harwain i weld y Tylwyth Teg (*gude wycbtis*) a oedd yn byw yng Nghaersidi, gan orchymyn iddi beidio â siarad gair nac ofni chwaith, beth bynnag y byddai yn ei weld. Ac mi welodd, heb fod yn rhy bell oddi wrth ei thŷ ei hun, ddeuddeg o bobl gyda'i gilydd —wyth merch a phedwar dyn— wedi eu gwisgo yn ddeniadol (*semely lyke to see*). Rhoesant groeso i Bessie gan ddywedyd, "Croeso, Bessie, a wyt ti am ddod gyda ni?" Ond nid atebodd Bessie air, ac fe ddiplannodd y cwmni yn fuan.

Gwadodd Bessie yn bendant iddi gael cyfathrach rywiol gyda Thom (nid rheibes mohoni), ond mynnodd ailadrodd bod Thom wedi cydio yn rhuban ei ffedog a cheisio ei pherswadio i ddod gydag ef i Gaersidi.

Ar ôl cymryd pob math o dystiolaeth arall, fe osododd Holwr y Llys Barn gwestiwn amserol iawn iddi, cwestiwn sy'n datgelu yn sydyn yr ysgogiad crefyddol a oedd y tu cefn i'r erledigaeth —gan wneud math o ferthyres o Bessie druan.

Gofynnodd i Bessie beth oedd hi'n ei feddwl am y "Ddeddf Newydd" a'r grefydd ddiwygiedig.

"Rwyf wedi siarad gyda Thom am y mater yma," meddai Bessie, "ac mi ddywedodd Thom nad yw'r Ddeddf Newydd yn dda i ddim. Fe fydd yr Hen Grefydd yn dychwelyd, ond nid fel yr oedd hi gynt."

Dyfarniad y Rheithgor oedd bod Elizabeth Dunlop, gwraig briod a mam i deulu, yn euog ar bob cyhuddiad yn yr achos. Ar ymyl tudalen yr adroddiad ychwanegwyd tri gair,



29: Y Brenin James yn holi'r dewinesau o ogledd Berwick, yr Alban, ym 1590.

Convicted and burnt (conuict and brynt).

Roedd tymer grefyddol yr oes yn wyllt ac yn ddisynnwyr. Llai nag ugain mlynedd yn ddiweddarach fe grogwyd yn Llundain y Cymro John Penry, gwladgarwr, penteculu, amddiffynnydd eiddgar y grefydd ddiwygiedig a gelyn argyhoeddedig "Bendith y Mamau".

Dwy ganrif yn ddiweddarach, sgrifennodd y Dyn Hysbys o Sir Ddinbych yn ei lyfr cyfrin "Hyfforddiant i alw ar ysbrydion a elwir Tylwyth Teg." Sgrifennodd yn yr iaith Gymraeg, mewn llaw lefn ac mewn orgraff afreolaidd. A hyd yn oed yma y mae'r Tylwyth Teg yn dal i hoffi "lle pur lanwedd, bwyd da a phobl wedi ymolchid yn lân ac yn hardd."

Adlewyrchir agwedd y Cymro cyffredin at fyd swyngyfaredd yn ystod cyfnod John Penry mewn llyfryn a argraffwyd gyntaf ychydig o flynyddoedd cyn 1600, sef *Ymddiddan Tudur a Gronw* (37,t.161-82). Fe'i adargraffwyd yn *Canwyll y Cymry* ym 1681 (60a,t.457-68) "i atal y cyffredin Gymru rhag cyrchu at Gonsurwyr, Swynwyr, a Dewinesse." Awdur y llyfryn yw Robert Rolland, clerigwr a llenor a anwyd yng Nghonwy. Siaredir yma am ddewin, swynwr a rheibiwr fel rhywbeth sy'n perthyn i fywyd beunyddiol. Ar y cyfan y mae'r agwedd yn tueddu i fod yn oddefgar.

Wrth sôn am "hen wragedd sydd yn cael yr enw o fod yn swyno ac yn rheibio", dywedir eu bod "yn gwneuthyr i castie trwy ddyse a darllain llyfrau."

Nodir bod pobl "yn mynd at y rheini am i bod yn cael yspysrwydd a help ganhynt am lawer o bethau"; y mae rhai yn cael "yspysrwydd am a'r oeddynt yn i ofyn", ac y mae eraill yn honni "weled ohonynt hwy rai cleifion yn gwella ar ôl ei swyno iddynt."

Fe wahaniaethir yn bendant rhwng

1: "dewin, planedydd, brudiwr, daroganwr" sydd "mewn mawr barch a chymerir gyda'r gwyr gorau...trwy'r holl wlad";

2: y "swynwyr a swynwagedd, nis gellir fod heb y rheini, y maent hwy yn gwneuthyr llawer o ddaioni ym mryd y rhan fwy, i dda ac i ddynion";

3: "hudolwyr a chonsurwyr, nid oes yr awron fawr sôn amdanynt, ac nid rhaid wrthynt i gael copinad a gwybodaeth am bethau lladtrat neu'r hyn a gollwyd."

Eto, yn erbyn y rhain i gyd (a'r rheibwyr) codir awdurdod y Beibl "na ad i reibes fyw yn eich plith nac ar y ddaear" (Exod., 22,18 a Levit.20,27, Iago 4,7).

Ond tua'r diwedd, ceir nodyn sy mewn cytgorff rhyfedd â chwynion John Penry:

Nid yw ein gweinidogion yn cymmeryd ddim poen i ddarlain a dangos gair Duw inni, ac am bregeth nis clywais i un erioed yn ein heghwys blwyf ni. Y mae'r Bibl yn rhy ddruod i ŵr tlawd i'w brynu a'i gadw gartref, Duw a ŵyr mai embudus yw cyflwr y cyphredin truaïn.

Wrth ystyried y cyfan, y mae'r sgwrs ddiddan hon rhwng Tudur a Gronw yn dangos yn blaen pwy oedd rhagflaenwyr John Harries, Cwrtycadno, y dewin gyda'i hoffter o lyfrau, yr oedd pobl "yn cyrchu ato o bell ffordd"; dyn a wnaeth "lawer o ddaioni i dda ac i ddynion" a chanddo "hyspysrwydd" hefyd am "bethau lladrat a'r hyn a gollwyd."

Yn ddiamau, fe fyddai yn y dyfyniadau o'r Beibl ddigon o ddefnydd hefyd i alluogi Brutus i ymosod ar yr Harriesiaid.

2. Galw ar yr Ysbrydion a elwir Tylwyth Teg

Y mae'r egwyddor o alw ar yr ysbrydion wedi ei seilio ar y gred bod y byd yn llawn o ysbrydion anweledig. Gwahaniaethir rhwng ysbrydion daearol, cyfeillgar a'r Tylwyth Teg, ar y naill law, ac ysbrydion "uffernol" ac "wybrennol" ar y llall. A dim ond i chi wybod y ffordd iawn o alw arnynt, gellwch ddod i gysylltiad â nhw, a hyd yn oed dderbyn eu gwasanaeth. Rhaid gwybod y ffordd i baratoi ar eu cyfer, gwybod enwau'r ysbrydion a'r ffordd orau i'w hannerch a dweud eich dymuniad a'u hanfon i ffordd mewn heddych.

Fe gymerodd y Dyn Hysbys o Sir Ddinbych y Tylwyth Teg o ddifri; o leiaf fe gyflwynodd bron y ddegfed ran o'i lyfr cyfrin i roi hyfforddiant ynglŷn â sut "i alw ar ysbrydion a elwir Tylwyth Teg," a phob cyfarwyddyd ond un yn yr iaith Gymraeg.

Fel y gellir dirnad o'r tudalennau o'i lyfr a atgynhyrchir yma, y mae ei sgrifen yn hawdd ei darllen, ond y mae ei orgraff yn afreolaidd, ac nid yw'n gofidio am atalnodau chwaith. Nid argraffwyd dim byd tebyg yn yr iaith Gymraeg ar wahân i'r dyfyniad hir o lyfr cyfrin Ellis Edwart a gopiwyd gan Dafydd Dafis yn y flwyddyn 1804 (*15, t. 133*).

Fe nodir mwy nag un ffordd o alw ar yr ysbrydion, gan wahaniaethu rhwng

1. ffordd y cylch;

2. ffordd heb y cylch mewn lle o laddfa neu bechod anneddfol;

3. ffordd gyda gwaed y Ceiliog Du mewn ystafell ddirgelaidd;
4. (yn yr iaith Saesneg) ffordd gyda hudlath o ganghennau'r gollen.

Y mae'r cyfarwyddyd cyntaf yn dechrau mewn awyrgylch rhadlon:

Hyfforddiad i alw ar ysbrydion a elwir Tylwyth Teg

Rhaid i'r lle y boch yn galw arnynt fod yn hur lanwedd a chadach wedi ei daenu ar lawr neu ar fwrdd yn gylch i droedfedd oddi wrth y cylch neu y sircil ar lawr; a bod cyw iâr neu ryw aderyn arall wedi ei rostio yn dachus a chawg neu ddysgl wen fechan a'i llond o ddŵr glân rhedegog a hammer peint o hufen laeth mewn dysgl. Yr hyn fydd yn gwneud hwynt yn gydnabyddusach ac yn fwy cyfeillgar i wneuthur eich dymuniad. Y pethau hyn, sef y dysglau, ni chwerddant â'r cylch. Weth eu galw mae yn rhaid eich bod wedi ymolchyd yn llin ac yn hardd.

Wedi paratoi ar gyfer yr ysbrydion, hyfforddir sut i ymddwyn, a rhoir hefyd enwau'r ysbrydion a sut i alw arnynt a'u rhyddhau wedyn:

Eisteddych wrth fwrdd neu ryw le arall a rhowch drosto gadach gwyn golau yn crogi droedfedd dros y bwrdd; ac yna galwch ar yr ysbrydion sydd wedi eu gosod yn bennaf ar lywodraethu ar y lleill, y rhai a elwir Meïob ac Oberion. A gan y rhain y mae saith chwaer sef Sibia, Refilia, Forta, Folla, Affrita, Julia, Benula. I'r rhain sydd eto lawer lleng o ysbrydion gwasanaethgar yn wandro yma a thraw a ganddynt gadwedigaeth ar drysor cuddiedig. A thrwy'r cyfarwyddyd uchod fe ellid eu cael allan ond galw fel y mae yn canlyn. Galw ar yr ysbrydion ynghyd: "Yr wyf i yn eich tyngbedu ac yn gorchymyn ichwi

Humforddied I alw ar yspudion a
Elwir toluwdditeg.

Rhaid i'r lle y boch un galw, arnawt
fod yn lwr hamoeth a chadach wedi ei
darnu ar lawr neu ar wau yngulch i
trudfodd oddiwrth y euloh neu yr Siril
ar lawr a bod lwr ior neu oir adraun
arall wedi ei roetio yn ddolus a chawr neu
ddarogil wion feichen ai llond o. Ddwr glan
Cochog a hancer Point o Lec neuon Cottot
a chwast o gorow da a ffeint o hufon llawth
mawr Dargil yn lwr fudd yn i gonadur
hauwt yn gudnabadd ufech ag yn mwa.
Cyffillgar I wnatbur eich Dymnied u
Rhan hwn lwyf yr Dyshlau ni chwardant a
Culoh wrth ei galw mau yn raid eich dda
gwedi ymmolchie yn lan ag yn hards.

ysbrydion daerol y rhai sydd bennaf
yn llywodraethu ar y tylwyth teg sef
Miscob ag Oberion yn enw yr Hollalluog
dduw Jehova a'i unig anedig fab Iese
Grist etc.

Yn ganlynol y modd i reoli y
rhagidlywededig ysbrydion: "Rwyf yn galw
ac yn taer ddeisyfu ar ichwi ysbrydion
Meicob ag Oberion orchymyn i'r saith
chwær Sibia, Restilia, Fora, Folla, Offrita,
Julia, Bonullia y rhai hyn i ymddangos yn
eqlur mewn mwynedd-dra ac ewyllys da
neu yrru rhyw un o'ch llywodraeth chwi
i'n dyheu ac i'n hamddiffyn yn ein Dymuniad
yr hyn beth a allant. Yn yr hyn yr wyf yn
hyderu ac yn erfyn ac yn ymbül
fel yr ydych chiwi i gyd yn weision i'Y
goruchaf...

Ar dudalen 8 dangosir y ffordd (mater nid dibwys chwaith) i
unfon yr ysbrydion i fwrdd:

...gadewir i'r
ysbryd neu i'r ysbrydion sydd [yn] cadw yr lle
gael eu rhyddhau yn fuan mewn heddwch
a thangnefedd, yr hyn sydd yn erfynedig ac
yn blaen â: "Thangnefydd Duw yn wastad
a daioni rhyngoch chiwi a minnau.
Gwnewch imi fel gweision i'r goruchaf," Felly
y rhai cyntaf hyn sydd i'w harferyd y
saith noswaith o gynyddiad y lleuad,
a dechrau ar yr wythfed nos, sef y nesaf
ar ôl i'r lleuad newid. Ac ar yr wythfed
rhaid galw naw gwaith yn yr awr a
dechrau unarddeg o'r gloch am eu bod hwy
yn arferol ymddangos at yr amser
hwnnw ac fe allant basio mewn
terfynau heb gennad.

Y saith chwær. Efallai i chwi sylwi i'r "saith chwær" gael eu
henwi ddwywaith yn yr wyth tudalen cyntaf; yn wir y mae'n
werth oedi ychydig gyda'r chworiydd yma, sef:

Sibia—Sibi
Restilia—Restilia

Forta—Forta
Folla—Folla
Afrita—Offrita
Julia—Julia
Benula—Bonulia

Y mae rhai o'r enwau yn swnio'n rhyfedd o gyfarwydd:

Bychan ŵyr fy meistras i
Mai *Jili Ffrustan* ydwy i. (30,t.102)

Yn Llŷn fe genid y geiriau hyn yn dawel, wrth nyddu, gan un o'r Tylwyth Teg a oedd mewn gwasanaeth gyda phobl feidrol. Tybed ai *Julia Affrita* oedd hon. *Affrit* yw'r gair Arabeg am ysbryd. Ai *Julia*'r *ysbryd* oedd hi felly?

Gwyddys hefyd am *Sibi*, un arall o'r Tylwyth Teg, a addawodd briodi llanc o Fraich-y-Ddinas ar yr amod y llwyddai i ddarganfod beth oedd ei henw (37a). Onid yr un oedd hon â Sibia, neu Sibi, un o'r saith chwaer?

Ac am *Folla*: Folla oedd un o'r tair duwies a fu'n rheoli yn Iwerddon ar ryw gyfnod arbennig, yn ôl tystiolaeth Nennius:

tres deae illo tempore in Hibernia regnabant,
Folla, Banba, Eira
(*Tair duwies oedd yn teyrnasu yn Iwerddon yn ystod y cyfnod hwnnw, sef Folla, Banba ac Eira.*) (68,t.127)

Y mae'n amlwg felly nad dewis mympwyol oedd enwau'r saith chwaer, ond iddynt gael eu defnyddio mewn atgof am ryw ysbrydion, rhyw dduwiesau, rhyw bwerau a oedd yn agos at ddynion, ac yn gymwynasgar wrthynt.

O ble y daethant? Mae T.Gwynn Jones yn ystyried iddynt ddod o bosib o Loegr neu Iwerddon (32,t.74). Yn ddiamau mae'r wybodaeth am y saith chwaer gwasanaethgar yn tarddu o'r cyfnod cyn-Gristnogol. Sut arall y gellir esbonio'r tebygrydd sy rhwng enwau saith chwaer y Tylwyth Teg a'r saith chwaer a enwir mewn swyn Lladin, sef y chwiorydd y galwyd arnynt yn erbyn y dwymyn:

<i>Conjuro vos frigores</i>	Rwy'n eich tynghedu'r ysbrydion oerllyd
<i>Septem sorores estis</i>	Saith chwaer ydych chi
<i>Una dicitur Ilia</i>	Gelwir un yn Ilia
<i>Alia Reptilia</i>	A'r ail yn Reptilia
<i>Tertia Folla</i>	Folla yw'r drydedd

<i>Quarta Suffugalia</i>	Suffugalia'r bedwaredd
<i>Quinta Affrita</i>	Affrita'r bumed
<i>Sexta Folia</i>	Folia'r chweched
<i>Septima Loena vel Ignea</i>	A'r seithfed Loena neu Ignea (48,t.33)

Mae sain yr enwau yn tincian yn debyg iawn i'r hyn a geir yn enwau'r Tylwyth Teg: saith chwaer cymwynasgar, yma ac acw, a Folla rywle yn y canol a Reffilian neu Restilia wedi troi yn Reptilia; ac y mae Affrita yma hefyd!

Y naw chwaer.

O anadl naw forwyn go-chyneuid
Neu pair pen annwlyn pwy y vynut
Gwrym a yroror a mererit
ny beirw bwyf llwyfr ny rhygit. (63a)

Naw morwyn sydd yn chwythu'r tân o dan bair sy'n eiddo i ben Annwfa, ac nid yw'r pair yn berwi bwyd ar gyfer dyn llwfr. Ai Taliesin yw awdur y gân? Bu Taliesin yn byw yn y chweched ganrif, ond bernir nad yw'r gân yn hŷn na'r nawfed ganrif. Beth bynnag, dyma, am wn i, y peth agosaf at *Witches' Cauldron* sydd ar gael yn yr iaith Gymraeg: pair yn perthyn i'r Brenin tandraearol a merched yn gofalu amdano. Er gwaethaf hynny, nid oedd arwydd o gasineb yno, ond casineb yn erbyn y dyn llwfr.

Rhaid sôn hefyd am y naw chwaer cymwynasgar o'r *Insula Pomorum* (56, ll. 908-41), sef Afallon (Ynys yr Afalau), a ofalodd am y Brenin Arthur wedi iddo gael ei glwyfo yng nghad Camlan. Adroddir yr hanes gan Sieffre o Fynwy yn y *Vita Merlini*, o amgylch 1150 O.C., ac yn yr iaith Ladin.

Yn ôl y stori hon, roedd naw chwaer yn teyrnasu ar yr ynys. Fe wyddid eu henwau. Mae tri o'r enwau yn dechrau gydag *M*; tri gydag *G*, a thri gyda *T*, ond y bwysicaf a'r dlysaf ohonynt oedd y chwaer hynaf, sef *Morgen*. Fel morwyn Llyn-y-Fan-Fach, roedd hi'n gwybod popeth am rinweddau'r llysiau i iacháu'r corff sâl. Fel Ceridwen, gwrach o Lyn Tegid, roedd hi'n gallu newid i ffurfiau gwahanol; ac yr oedd ganddi yr un ddawn ag a berthynai i wrachod yr Oesoedd Canol, yn ôl eu honiad, sef y ddawn o allu hedfan. Yn ychwanegol at hynny, fe drosglwyddodd hi i'w chwiorydd y wybodaeth am sêr-ddewiniacth (a elwir yma *mathematica*). Ac fe dderbyniodd Morgen y Brenin Arthur yn anrhydeddus. Fe'i gosododd ar ei gwely aur, a datgelu ei

glwyfau â'i llaw ei hun, gan addo y byddai'n gallu adfer ei iechyd pe byddai'n aros gyda hi am amser hir.


Nid ynys ddychmygol yw "Afallon" Sieffre, ond atgof am Ynys Sena yn Llydaw. Roedd oracl yno —yn ôl y stori am yr ynys a sgrifennwyd gan Pomponius Mela o amgylch 40 C.C. yn ei lyfr daearyddol. Roedd yr oracl yn eiddo i ryw dduw o Gâl, ac fe roddwyd gofal ohono i *naw rhaiin*. Yn ôl tyb pobl Gâl, yr oedd y gallu ganddynt i godi gwyntoedd â'u swynion. Gallent gymryd ffurf pa anifail bynnag a fynnent, a byddent hefyd yn iachau clefydau pan oedd pawb arall wedi anobeithio.

Credid bod llinell uniongyrchol yn arwain oddi wrth gyfeillach y naw chwaer at gyfeillach y dewinesau, sef "The Witches' Coven", yn yr Oesoedd Canol: rhai merched crefyddol a gwybodus a fynnai fynd ymlaen gyda'r hen ddefodau.

Mae'r saith chwaer hefyd yn cynrychioli atgofion am gyfeillach o ferched mewn swydd offeiriadol, er iddynt ymddangos fel "ysbrydion daearol a elwir Tylwyth Teg."

Awn yn ôl yn awr at lyfr y Dyn Hysbys o Sir Ddinbych ac edrych ar ffordd arall o alw ar yr ysbrydion a elwir Tylwyth Teg, sydd yn llai dymunol, ac yn gwreiddio mewn traddodiad sy'n nes at honiadau'r ysbrydegwyr, sef bod rhai eneidiau yn methu cael heddwch yn y bedd, ac yn mynnu dychwelyd i dir y rhai byw:

Y mae'n canlyn dull y cylch sydd yn gwasanaethu yr holl ymadrodd o'r blaen. Ond ambell waith dichon gwneud ffordd arall. Os bydd rhyw laddfa, neu ryw bechod arall anneddfol fod wedi ei wneuthur yn y lle hwnnw, neu ar y lle y bo un wedi ymwneud amdano ei hun neu'r cyffelybion i'r fath weithred; neu lle bo un wedi ymadael â'r byd mewn creulondeb ac anonestrwydd trwy fod yn eung o symud terfynau neu lwybrau neu amryw gam-weithredoedd ac rydd yn anafuddhau cyfiawnder —yn aflonyddu ei le trigianol, gan felly bydd dynion yn clywed yn y nos ryw ddiethrol ddychrynlyd ac



ymau Calua Buthy Calch Sudd yn
gwasaenethu yr holl ymadrodd o'r blaen
ond ysbell waith dichon gwneud ffordd
arall os bydd Rhun Suddfa neu ryw bechod
arall anneddfol fod Chwedi os wneuthur yr
y lle hwnnw neu y lle y bo un gwedi
ymwneud am dano i hun neu Cyfalib os
i'r fath weithred neu lle bo un gwedi
ymadael ar byd mewn Creulondeb ac
anonestrwydd trwy fod yn eung o symud
terfynau neu lwybrau neu amryw gam-
weithredoedd ac bydd yn anafuddhau
Cyfiawnder yn aflonyddu ei le
trigianol gan felly bydd dynion yn clywed
yn y nos ryw ddiethrol ddychrynlyd ac
Porthynas os un rhew ymaw yn Rhaid.

31: Y LLYFR CYFRIN O SIR DDINBYCH —(tudalen 9

ofnadwy leisiau neu luniau echrydus mewn perthynas i'r un rhyw, y mae'n rhaid bod yn gryf ac yn ffyddlon ac yn ddyfal weddio am nerth i beri iddynt siarad ac i eglurhau eu hachos a'u trwbleth. Diau fod yr ysbrydion hyn, sef y Tylwyth Teg, yn fwy daearol a chymdeithasol iddynt na rhai uffernol ac wybrennol. O achos hwn i gyd addeffont yn gwneuthur gwaith yn rhith crefftwyr yn lladrata brin arian ac aur ac yn cymryd o'r mwyn yn y wlad lle mae nhw yn cyffredin weithio yn enwedig mewn hen waith plwmbo...

Gwahaniaethir yn daclus, felly, unwaith eto rhwng yr ysbrydion daearol, y mae'r Tylwyth Teg yn perthyn iddynt, a'r ysbrydion uffernol ac wybrennol.

Yn yr ymgais nesaf y mae'r moddion o alw ar ysbrydion yn mynd yn fwy agos byth at y Gelfyddyd Ddu, sef *Ffordd y Ceiliog Du*:


Ffordd arall o alw ar yr ysbrydion a elwir Tylwyth Teg ac i gael allan-drysor cuddiedig. Mewn ystafell ddiregelaidd o oleuwch ac ynddi arogl peraidd, y mae'n gymwys gwneud y gwaith hwn sef ysgrifennu â gwaed y ceiliog du ar bapur gwan glân yn gyntaf eich deisyfiad fel y mae yn canlyn:

Sathan Barampar Barbarson, Dewch ataf fi mewn prysurdeb i'r lle hwn. Dygwch imi y trysor i'r fan a'r lle yma. Yna enwch y fan lle y mae eich amheuaeth fod trysor yn guddiedig. Yna bydded y cylch yn barod gennych ar lawr y stafell a chwmpawd wrth ei gonglau ddal ar lawr yn glos a phegiau ynddynt fel y gallant fod yn saad. Pan eloch i mewn i'r ystafell gosodwch eich deisyfiad sy wedi

ysgrifennu â gwaed y ceiliog du ar y drws a'r sircel ar lawr a galw yn y pen arall i'r ystafell yng ngolwg y drws a'r nos yn serog-olau dawel. Duall y sircel neu'r pedwar onglad sydd fel hyn. I wneud y sircel hon rhaid pisio pedwar paamant at ei gilydd neu groen llo. Rhaid iddynt fod yn sgwâr

ac yn llyfn a'r agrifen arno sef y modd y dangosir yn yr arwyddocâd sydd tu arall i'r ddalen yn batrwm. Ac yno hi a fydd yn gyfleus i'w chario i'r fan a fynnoch. Ac y mae yn fwy cymwys nag un wedi ei gwneud ar lawr os bydd y sircel wedi ei gwneud y modd yma. Rhaid i chwi gymryd sugungold Mair i olchi yr enwau sydd tu mewn i'r sircel a'r enwau sydd tu allan â gwaed y ceiliog du.

Ar dudalen 14 dangosir "yr arwyddocâd" gyda'r enwau:



Mae'r ffigur yma yn cynnwys yn ei ganol y gair *Aglia*. Mae hyn yn profi bod swyngyfaredd difrifol yn mynd ymlaen sydd yn gysylltiedig â'r *Cabala* Iddewig. Fe ffurfiwyd y gair cyfrin hwn o lythrennau dechreuol pedwar gair y frawddeg Hebraeg sydd yn golygu:

Yr wyt ti yn nerthol yn dragwyddol, O Dduw
ATHA GIBOR LEOLAM ADONAI

Oddi amgylch trefnwyd yn ychwanegol nifer o enwau Duw. Ac y mae'r ffigurau trionglog a phedwar-onglog eu hunain yn llawn o arwyddocâd cudd.

Y mae'r cyfan yn dangos pleser mewn defodau a'r cyffro sydd yn dod wrth chwarae â'r pethau sanctaidd. Cafodd yr ysfa i fod yn heretig neu yn gawr y gorau ar y dyn a gynlluniodd y swyn arbennig hwn.

Fe gawn ryw gymaint o ryddhad wrth ddod yn ôl i fyd natur gyda'r swyn olaf (a sgrifennwyd yn yr iaith Saesneg): "To conjure the spirits commonly called Fairies."

Mae cynnwys y swyn hwn yn debycach i'r arferion a gafwyd, yn ôl pob tebyg, adeg John Penry: galw ar yr ysbrydion ar ddydd Mercher a dydd Gwener, torri tair cangen o'r gollen a'u claddu ar ôl sgrifennu enwau'r ysbrydion arnynt, ond eu claddu ar fryncyn siriol ei olwg lle byddai'r Tylwyth Teg yn debyg o gwydro. Rhaid galw naw gwaith. Dyna'r math o Dylwyth Teg, siŵr o fod, a fyddai'n dawnsio mewn cylchoedd yn y goedwig gan dynnu, weithiau, rhai meidrol i fewn i'w cylch.

To conjure the Spirits commonly called Fairies:

First you must have a square cristal or Venice glass of three inches square. Lay that glass or cristal in the blood of a white hen three Wednesdays or three Fridays. Then take it out and wash it with holy water. Then take three hazel wands upon one side and write the spirits' name on the wand and calling the spirit three times by its name conjuring it to make its appearance unto you at the day and hour, naming the time. This you are to do with each wand separately.

Then bury the wands in the earth under some pleasant hill where they are most likely to hound upon Wednesdays. And on Friday following take them up and call her to appearance, in conjuring her in the usual way.

And if the spirit do not make its appearance at the first call you should continue until nine times, waiting a little between each time.

And the spirit will appear at the ninth call if not sooner. Then you bind the spirit in the usual way for to appear in that glass or cristal at any time when you call upon it.

The best time to do this is the moon increasing and in good aspect with Venus or Mercury or both. The hours of calling are at eight, ten or three and those are the best hours to call the spirit to the glass at any time after which you have no [need] to use cantation.

Tybed ym mha le y cafodd y Dyn Hysbys afael ar y swynion i

alw ar y Tylwyth Teg? Pam y sgrifennwyd un ohonynt yn unig yn Saesneg? Mae hynny'n awgrymu mai Cymraeg oedd iaith y swynion eraill yn wreiddiol, neu o leiaf ar yr adeg pryd y daeth y Dyn Hysbys o Sir Ddinbych ar eu traws. Pwy sgrifennodd nhw gyntaf, a pha bryd? Ni wn. Ond y mae gobaith gennyf o hyd i ddod o hyd i'r ateb. A dyma pam: tua'r adeg yr oeddwn ar fin gorffen teipysgrif olaf y llyfr bach hwn, cefais sgwrs gyda'r Athro Cecil Price o Goleg y Brifysgol, Abertawe, gan siarad yn gyntaf am ddarlithydd newydd yn ei adran sydd yn hyddysg yn y grefft o ddarllen tesni —neu ddweud ffortiwn— drwy astudio llinellau'r dwylo, crefft sydd yn gymwys i sipsiwn yn hytrach nag i Ddyn Hysbys; mynd ymlaen i enwi John Harries, Cwrtycadno a dynion hysbys tebyg yn Sir Drefaldwyn.

"Y mae rhai ar gael o hyd yno," meddai, "a bydd pobl yn sgrifennu atynt o bob cwr o'r wlad am gyngor a chymorth."

Siarad wedyn am lyfr y Dyn Hysbys o Sir Ddinbych, a roddodd gychwyn ar fy nhaith i "fyd y Dyn Hysbys."

Ac yna, er fy mawr syndod, cyfaddefodd yr Athro: "Mi brynais lyfr bach fel hwnnw tua deng mlynedd yn ôl yn Siop Lyfrau ail-law Ralph's, Abertawe —llyfr a sgrifennwyd â llaw tua dechrau'r ganrif ddiwethaf. Y mae'n llawn o gyfarwyddiadau ynglyn â hyfforddiant am reibio a dadreibio ac arwyddion sêr-ddewinol. Rwy'n siŵr i'r hen ddewiniaid gopio nodiadau oddi wrth ei gilydd."

Cyflymodd curiad fy nghalon: llyfr arall o gyfnod John Harries, Cwrtycadno, hwyrach o ddechudir Cymru, gan iddo ddod i'r golwg mewn siop yn Abertawe? Gofynnais am gael ei weld yn fuan, cyn i'r llyfryn hwn fynd i'r wasg.

Cytunodd yr Athro yn garedig, —ond bod un anhawster. Nid oedd yn siŵr a fedrai roi ei law ar y llyfryn ar unwaith. Y mae deng mlynedd yn amser hir i un sy'n arfer prynu lyfrau bron bob dydd, ac roedd yr Athro wedi anghofio ym mha le y gosodwyd y llyfr bach; ond mi fyddai'n chwilio amdano.

Ac felly rhaid aros. Ond rwy'n siŵr bod rhagor o lyfrau tebyg ar gael o'r un cyfnod. Hwyrach, yn y dyfodol agos, y bydd rhywun yn cael cyfle i'w cymharu, gan ddarganfod gwybodaeth newydd am fywyd cudd a ffynnai yng Nghymru ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, yn gyfoes â dechreuadau'r Eistedd-

Dyfynnir yn ôl y rbif yn y rbestr.

- 1: Ab Ithel, J.W., gol., *Meddygon Myddfai* (Llandyfri 1861).
- 1a: "Aeron" yn *Bye-Gones* (1893), t.4.
- 2: Ap Nicholas, Islwyn, *A Welsh Heretic*, Dr Williams Price, Llantrisant (Ffynnon Press 1973).
- 3: Apuleius, *Metamorphoses* (gol. R.Helm, Leipzig 1955).
- 4: Atkinson, D., "The origin and date of the 'Sator' Word Square" yn *The Journal of Ecclesiastical History* 2 (1957), 1 dil.
- 5: Barrett, Francis, *The Magus* (Llundain 1801).
- 6: Beyer, Ullim, *A Year of Sacred Festivals in one Yoruba Town* (Nigeria 1969).
- 7: Black, G.F., *County Folklore 3: Orkney and Shetland Islands* (Llundain 1903).
- 8: Bottrell, William, *Stories and Folk-lore of West Cornwall* (Penzance 1880).
- 9: Bowen, E.G., "Harries, Henry" yn *Y Bywgraffiadur Cymreig* (Llundain 1953), t. 317-8.
- 10: Breasted, J.H., *Ancient Records of Egypt* (Chicago 1906).
- 11: Budge, E.A.W., *The Book of the Dead* (Llundain 1911, adargraffiad Llundain 1950).
- 12: Carmichael, Alexander, *Carmina Gaedelica: Ortha nan Gaidheal I-IV* (Caeredin, 1900-1941).
- 12a: Chaucer, Geoffrey, *The Canterbury Tales*, gol. F.N.Robinson (Llundain 1957).
- 13: Davies, Aneurin Talfan, *Crwydro Sir Gâr* (Llandybie 1955).
- 14: Davies, D.T., *Peleenni Pitar* (Abertawe 1925).
- 15: Davies, J.H. (Penardd), *Rhai o hen Ddewiniaid Cymru* (Llundain 1901).
- 16: Dawson, W.R., "Notes on Egyptian Magic" yn *Aegyptus* 1 (Rhufain 1931).
- 17: Diverres, P., *Le plus ancien texte des Meddygon Myddveu* (Paris 1913).
- 17a: Dyer, T.F., *English Folk Lore* (Llundain 1878).

- 18: Evans, Gwenogvryn, gol., *Llyfr Du Caerfyrddin* (Pwllheli 1906).
- 19: "Elaeth", "Bywyd Gwledig yng Nghymru" yn *Cofnodion a Chyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Bangor, 1890*.
- 20: Gunther, R.T., *Life and Letters of Edward Lhwyd*, Early Science in Oxford, XIV (Rhydychen 1945).
- 21: Homer, *Odyseia XIX*, gol. W.B.Stanford (Llundain 1948).
- 23: Hull, E., *Folklore of the British Isles* (Llundain 1928).
- 24: Isaac, Evan, *Coelion Cymru* (Aberystwyth 1938).
- 25: Isidorus, *Etymologia I-XX*, gol. W.M.Lindsay (Rhydychen 1966).
- 26: James, M.R., *The Apocryphal New Testament* (Rhydychen 1969).
- 26a: Jones, E., "A Welsh Wizard" yn *The Carmarthen Antiquary*, 47 (1945-6).
- 27: Jones, Francis, *The Holy Wells of Wales* (Caerdydd 1954).
- 28: Jones, Gwenan, *Three Welsh Religious Plays* (Minnesota 1918).
- 29: Jones, Gwyn a Thomas, *The Mabinogion* (Llundain 1949).
- 30: Jones, J. (Myrddin Fardd), *Llên Gwerin Sir Gaernarfon* (Caernarfon 1908).
- 31: Jones, Glasnant, *Cyn Cof Gennyf ac Wedyn* (Abertawe 1949).
- 31a: Jones, Kilsby, "Brutus" yn *Y Traethodydd*, 22 (1867), t. 215-27: 421-8).
- 32: Jones, T.Gwynn, *Welsh Folklore and Folk-Custom* (Llundain 1930).
- 33: Jones, T.Gwynn, cyf. *Hamlet* (Aberystwyth 1960).
- 34: Jones, Thomas, *Disgrifiad o Gymru gan Gerallt Gymro* (Caerdydd 1958).
- 35: Jones, Thomas, "Llên Gwerin yn Nheithlyfr Gerallt Gymro" yn *Y Fflam*, 1 (1946), t. 33-8.
- 36: Jones, Thomas, gol., *Wil Brydydd y Coed* (Caerdydd 1949, adarg. 1950).
- 37: Jones, Thomas, *Rhyddiaith Gymraeg, II* (Caerdydd 1956).
- 37a: Jones, William (Bleddyn), "Chwedlau am Ogoffu a Thylwyth Teg" yn *Y Genhinen*, 13 (1895), t. 290-1.
- 38: Lewis, L.M., *Ecstatic Religion* (Penguin 1971).
- 39: Lewis, Timothy, *A Welsh Leech Book* (Lerpwl 1914).
- 40: Lewis, Thomas, *Emyn 855 yn Llawlyfr Mollant y Bedyddwyr* (Abertawe 1952).
- 41: MacCana, Proinsias, *Celtic Mythology* (Llundain 1970).
- 42: Matthews, Edward, "George Heycock a'i Amserau" (1867) yn *Morganwg Matthews Eweani*, gol. Henry Lewis (Caerdydd 1953).
- 43: Mee, Arthur, *The Harrieses of Cwrt y Cadno* (Abertawe 1910).
- 43a: Mee, Arthur, llythyr yn *Red Dragon*, 10 (1886), t. 373-4.
- 44: Menzies, Lucy, *St. Columba of Iona* (Glasgow 1964).
- 45: Molwynog, Hedd (J.I.L.Davies), "Dyn Hysbys Cwrt y Cadno" yn *Cymru*, 12 (1897), t. 215 dil.
- 46: Morgan, T.J., "Maen magl - Glain y Nadroedd" yn *BBCS*, 9 (1937-8), t. 124-5.
- 47: Nash Williams, V.E., *The Early Christian Monuments of Wales* (Caerdydd 1950).
- 47a: Nash Williams, V.E. ac A.H., *Catalogue of the Roman inscribed and sculptured stones found at Caerleon, Monmouthshire* (Caerdydd 1935).
- 48: Oht, J., *Da Signed Krist* (København 1927).
- 49: Owen, David (Brutus), "Ofergoelion yr Oes" yn *Brutusiana* (Llanymddyfri 1853), t. 71 dil.
- 50: Owen, David (Brutus), "Tynghedfeniaeth" yn *Brutusiana*, t. 315 dil.
- 51: Owen, Daniel, *Gwen Tomos* (Wrecsam 1894).
- 52: Owen, Elias, *Welsh Folk-lore* (Croesoswallt 1896).
- 53: Owen, Trefor, *Welsh Folk Customs* (Caerdydd 1959).
- 54: Parry, John J., *Vita Merlini* (Illinois 1925).
- 55: Parry-Williams, T.H., *Pedaïr Keinc y Mabinogi* (Caerdydd 1950).
- 56: Penry, John, *Three Treatises concerning Wales* (1587), gol. David Williams (Caerdydd 1960).
- 57: Phillips, D.Rhys, *The History of the Vale of Neath* (Abertawe 1925).
- 57a: Phillips, D.Rhys (Beili Glas), llythyr yn *Red Dragon*, 10 (1886), t. 375.
- 58: Pitcairn, Robert, *Criminal Trials in Scotland, I, ii* (Caerredin 1833).
- 59: Plinius, *Naturalis Historia*, 29, 12.
- 59a: Potts, Thomas, *The wonderful Discovery of Witches in the County of Lancaster* (1613, ail arg., Manccinion 1845).
- 60: Price, F.S., *History of Caio* (Aberystwyth 1904).
- 60a: Prichard, Rhys, *Canwyll y Cymry* (Caerfyrddin 1681).
- 61: Rowland, J. (Giraldus), "Dr Harries Cwrt y Cadno" yn *Carmarthen-shire Notes* (1889), t. 29.
- 61a: Quintus Serenus, *Liber Medicinalis*, gol. R.Pepin (Paris 1950).
- 62: Scholem, Gershom, *Die jüdische Mystik. Defnyddiwyd adroddiad yn Die Frankfurter Allgemeine Zeitung, Mai 11, 1974*.
- 63: Seligman, Kurt, *The History of Magic* (Efrog Newydd 1948).
- 65: Sethe, Kurt, *Die altägyptischen Pyramidentexte, II* (Leipzig 1910).
- 65a: Taliesin, *Cymmrodor* 28 (1918).
- 66: Trevelyan, Maria, *Folk-Lore and Folk-Stories of Wales* (Llundain 1909).

- 67: Van der Meer, F., a Mohrmann, C., *Atlas of the Early Christian World* (Llundain 1958).
- 68: Vries, Jan de, *La Religion des Celtes* (Paris 1963).
- 69: Wiedemann, A., *Religion of the Ancient Egyptians* (Llundain 1897).
- 70: Williams, D.G., "Caaglad o Lén-Gwerin Sir Gaerfyrddin" yn *Cyfansoddiadau Eisteddfod Llanelli* (1896), t. 520 dil.
- 70a: Williams, J. Ellis, *Twylio Hen Lwynog* (Caerdydd 1926).
- 71: Williams, J.E. Caerwyn, *Traddodiad Llenyddol Iwerddon* (Caerdydd 1958).
- 72: Williams, Glamor, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (Caerdydd 1962).
- 73: Williams, Stephen J., *Y Dyn Hysbys* (Aberystwyth 1955).
- 74: *Yr Haul*, 5 (1840).
- 74a: *Cymru Fu*, 1888, t. 117-8.
- 75: *Red Dragon*, 10 (1886), t. 373.
- 75a: *Journal of American Folk-Lore*, 22.

Llawysgrifau yn y Llyfrgell Genedlaetbol, Aberystwyth:

- 76: Llawysgrif Peniarth, 88, 27: "Llyma weddi i stopio gwaed" sef Swyn Lonsiwa.
- 77: Llsg. 11, 117 B: *Holograph Book* yn eiddo i John Harries, Cwrtycadno.
- 78: Llsg. 97 (Llawysgrifau Cwrwmawr): "Prescription Book" John Harries, Cwrtycadno.
- 79: Llsg. 11713 B: papur dyleb y Doctor John Harries, Cwrtycadno.
- 80: Llyfr Cyfrin y Dyn Hysbys o Sir Ddinbych (ym meddiant Miss Llinos Davies).

MYNEGAI

Doctoriaid Hysbys a'u tebyg

Stratus (David Owen, 1795-1866); golygydd *Yr Haul*, 19; ei ymddangosiad, 21; ganwyd ym mhlwyf Llanpumpaint, 20; yn ceisio dysgu'r gelfyddyd ddu, 21; yn ceisio mynd yn feddyg, 21; yn ceisio mynd yn weinidog, 21; yn ymosod ar Henry Harries, Cwrtycadno, 8,15,21,22, 23,90-1; ei goflech yn eglwys Llywel, 22.

Dyfyniadau o waith *Stratus*:

1. Pan fyddo Dewin yn myned at y gorchwyl o gonsuriaeth, 8;
2. Ymgynghori â Mr Harries, Cwrtycadno; agor y llyfr â'r clo egwyd; tynnu *Horoscope*, 15;
3. Yr Ysgrythur Lân a dysgeidiaeth y sêr Henry Harries, 22;
4. Prif lyfr Cwrtycadno, 39;
5. Henry Harries yn darllen tynged genethod a chrytiaid penchwiban, 82;
6. Mr Henry Harries, Tywysog *Fortunetellers* y ddaear, 91.

Harries, John, Surgeon, sef "Y Doctor John Harries, Cwrtycadno" (1787-1839); ei ymddangosiad, 18; sefyllfa ei dŷ, Pantcoy, 24; sefyllfa ei dafarndy, Ysgubor Nera, 25; ei bapur dyleb, 25; ei garreg fedd, 17; ei lyfrau: ei lyfr cyfrin, 13,15,39; ei lyfr o gyfarwyddiadau meddygol, 17-8,42; ei *Holograph Book*, 42-3; llyfrau amrywiol yn ei lyfrgell, 18, 39.

Hanesion amdano:

yn darganfod pethau a gollwyd, sef cerbyd a merlen Dai Ddafydd y Betws, 31; wats a gollwyd gan ddyn o Felinfoel, 32; yn cosbi lladron: gwraig y porthmon o Bum-heol, 32; yn darganfod corff merch a laddwyd, 16; yn mesmreiddio: brawd parchus o Landrilo, 29; cigydd o Abertawe, 30; yn ymddangos o flaen dau ustus yn Llandyfri, 16; cân amdano, 16; yn galw ar ysbrydion, 33; yn "gwerthu ei hun i'r ysbrydion drwg", 40; ei farwolaeth sydyn, 26; ei angladd drwgdybus, 33; yn trin clefydau'r meddwl, 28-9; drwy sioc, 28; drwy weithred seicolegol â llyffant, 29; yn feddyg ac yn Ddyn Hysbys, 17.

Harries, Henry, sêr-ddewin (o amgylch 1840); mab i'r Doctor John Harries, Cwrtycadno, 15; ei ymddangosiad, 26; yn mynychu *Commercial Academy* yng Ngharoe, 26; yn dysgu sêr-ddewiniaeth gan Raphael yn Llundain, 15; yn priodi Hannah ym 1843, 26; ei *Bidding Letter*, 26; ei hysbyseb *Nativities Calculated*, 93; ei bapur sêrddewinol, 90; yn ceisio yn ofer ddarganfod corff dyn, 15; yn darllen tynged, 82; yn cymryd lle

ei dad, 26-7; ymosodiadau personol arno gan Brutus, 8,15,21,22,23, 90-1.

Harries, John (1827-1869), Pantcoy; mab i'r Doctor John Harries, Cwrtycadno a brawd i Henry, 24,27; ei wraig Margaret (1827-1902), 24; ei garreg fedd yn yr iaith Gymraeg ym mynwent yr Eghwys, Caco, 24.

Meddygon Myddfai:

David Jones, Surgeon, bu farw 1719; ei goflech yn Eglwys Myddfai, 19; Rhiwallon, meddyg yn Llys Rhys Gryg, Arglwydd Llandyfri a Dinefwr; ei lyfr, 19; ei feibion Gruffudd, Cadwgan ac Einion, 19; enwau lleol yn gysylltiedig â Meddygon Myddfai, 19; eglwys Myddfai, 19.

Mr Lewis, Offeiriad plwyf Cynwyl, amser Brutus, 21.

Lewis ap Morgan, Aberedw, adeg Harri'r Wythfed, 33.

Dr William Price, Llantrisant (1808-1893), 36.

Shon y Rhose, 10.

Yn yr Alban: Bessie Dunlop a losgwyd ym 1578, 118-20.

Yng Nghernyw, y *pellar*, 99.

Yn Iwerddon, y *Fili*, 35,57,83,87,89.

Yn Rhodesia, Pennaeth Megemba, 36.

Traddodiad Iddewig, 96-7.

Y Llyfr Cyfrin

1. Y Llyfr Cyfrin o Sir Ddinbych, 13,43; ei ymddangosiad, 43; dyfyniadau o'r llyfr: hanesyn am ddadreibio (t.143-4), 10; *Certain general Aphorismes* (t.22), 45; *Daeargoel (Geomancy)* (t.1,2,20-1,137-9,145-6), 46-9; *Thus words being spoke with grate returns* (t.140), 57; *The ten general names of God* (t.19), 63; *Olwyn swyn* (tudalen rhydd), 64; *In the power of God I walk on my way* (t.123-5), 64; *The moon in Aries, life is long* (t.84-5), 80; SATOR AREPO TENET OPERA ROTAS (t.5-6), 95; *Os bydd gw'r wedi gadael y wraig* (t.185-6), 103; *To invoke and converse with the spirit of the dead* (t.122-3), 112-3; *Hyfforddiad i alw ar ysprydion a elwir tylwyth teg* (t.1-3,8-10,12,13) 46,121-5,128-30; *Ffigur swyn* (t.14), 131; *To conjure the Spirits commonly called Fairies* (t.4-5), 132.

2. Llyfrau Cyfrin Amrywiol:

Llyfr yn eiddo i John Harries, Cwrtycadno, 13,17,39;

Llyfr yn eiddo i George Heycock, 40;

Llyfr yn eiddo i Nansi'r Nant, 42;

Llyfr yn eiddo i Ellis Edwart, 46;

Llyfr Meddyginiaeth, 38,51;

Llyfr Meddygon Myddfai, 19;

Llyfr astrolegol, 38;

Llyfr Almanac, 38.

Swynion

Swynion yn ffurf chweddi:

Dydd da it lysse (i stopio gwaed), 51; *Lonsius marchog dall* (i stopio gwaed), 54; *Fel yr oedd Peir yn eistedd ar faen mynor* (yn erbyn y ddannoedd), 58; *Pan welas ein Harglwydd Iesu Grist y grog* (rhag y mwyth gryd), 59; *Santes Mair a eisteddodd ar garreg* (rhag y ddannoedd), 60; *Yr Arglwydd Iesu Grist a'r tribodyr* (i iacháu brathladau), 60; *Three little angels came from East and West* (i iacháu llosg), 61.

Swynion yn ffurf gweddi:

Yr Arglwydd goruchaf eurgledd, 62; *Cyntaf gair a ddywedaf*, 66; *O thou Stone of Might and Right*, 71.

Swynion paganaidd:

Dar a dyf rhawg dau lenn, 66; *Yr Eryr, Eryres* (i wella'r 'ryri, sef *shingles*), 67.

Swynion amrywiol:

In the power of God I walk on my way (yn erbyn lladron), 64-5; swyn San Colwmba, 89; "Ennill cariad", 103.

Geiriau cyfrin:

ABRACADABRA, 97-101; AGLA, 131; SATOR AREPO TENET OPERA ROTAS, 95-6.

Hud animistaidd (*animism*), 72.

Hud cyd-deimladol (*sympathetic magic*), 71,110.

Swyngyfaredd, achos ac effaith, 13-4.

Gweithredoedd y Dyn Hysbys

1. Cosbi lleidr, 32.

2. Dadreibio, 8,9,38,133.

3. Darganfod pethau a gollwyd, 8,31,32.

4. Darogan: darllen ffortiwn oddi wrth gardiau, 82; darllen tynged drwy "arwyddion y cylch mawr", 82,89-93; darogan yn ôl adar, 89; darogan yn ôl cangen o goeden, 89; darogan yn ôl costi llygad, 89; darogan yn ôl breuddwydion, 90; darogan yn ôl rheolau daeargoel (*geomancy*), 46-50; swyn-gwsg yr awenyddion, 82; troi y cwpan tē, 82.

5. Dewino mewn ffurf Geltaidd ar bair Gundestrup, 85 &c.

6. Galw ar ysbrydion, 8,31,102-3,111-5,122-5.

7. Mesmereiddio, 29.

8. Trin clefydau: "y ddafad wylt", 7-8; clefydau'r meddwl, 8; trin llygad, 70; meddyg anifeiliaid, 23. Meddyginiaethau swyngyfareddol: rhag y pias, 94; rhag y ddannoedd, 60; rhag y mwyth gryd, 59; i iacháu llosg, 61; i wella'r 'ryri (*shingles*), 67.

9. Ymofyn â'r meirw, 111-3.

Enwau ar bobl hysbys

Awenyddion (*Awemithion*), 82; brudiwr, 7,121; chwidog, 7; consurwyr, 7,38,40,121; daroganwr, 121; dewin, 7,121; dyn cyfarwydd, 7; dyn hysbys, 7 a llawer man arall; *Fili* (Gwyddelig), 35,83,87,89; gwraich, 7; gwyddon, 7; hudolwyr, 121; hudwr, 7; *Medicine Man*, 55; *Pellar* (Cernyw), 99; planedydd, 121; rheibes, 38,121; rheibiwr, 121; sêr-

ddewin, 91; Slemôn, 87; swynwraig, 121; yspiswyr, 19.

Offerynnau amrywiol

Y cylch, 8,122-3,128,130; y ceiliog du, 125,130-1; dol, 106; dŵr ffynnon, yn dda i'r llysgaid, 74, yn rhoi llwyddiant, 75; carreg, 68; Maen Magl, Glain Neidr, 68-72; gwialen o bren collen, 132; llythyr, 63; piniau, 106; dyddiau arbennig: Mercher a Gwener, 132; Mawrth a Iau, 117.

Pwerau Gweithredol

Angylion, 8, 63.

Enwau Duw: yn yr iaith Hebraeg, 8; *The ten general names*, 63.

Y Drindod, 10,35,52,59,60,61,62,71.

Yr Efengylwyr, 63.

Y Doethion o'r Dwyrain, 63.

Ffigurau Beiblaidd o'r Hen Destament, 65.

Ysbrydion y Fall: y Diafol, 12; Satan, 23,97; Satan Barampar Barbason, 130.

Ysbrydion amrywiol: Draig Awyr a Thwrf, 62; Ysbrydion dazarol, uffernol ac wybrennol, 130; "Yr ysbrydol o uwch deiar nag o is-deiar", 62; "Y pleined wibrennol a'r gwenwyn deiarol", 62.

Y saith chwaer gwasanaethgar, 123,125,125-6.

Y naw chwaer, 127-8.

Meiob ac Oberion, 123.

Y Sêr: Zodiac a meddyginiaeth, 76-80; arwyddion y cylch mawr, 82.

Y rhif naw, 125,127,128.

Enwau Lleorodd

Aberduar, 20; Aberedw, 33; Aberffraw, 72; Abertawe, 30,73; Betws, 31; Cao, 17,19,26; Caerfyrddin, 26,32,38; Caernarfon, 102; Cors Fochno, 29; Sir Gâr, 31; Castell Nedd, 31,73,76; Gorwen, 76 ac yn aml; Cwrtycadno, 15 ac yn aml; Cynwyl, 21; Dolau Cothi, 25; Dolgellau, 73; Dinelfw, 19; Felin-foel, 32; Hope, 10; Llanbedr Pont Steffan, 20,25; Llandarcy, 74; Llandeilo, 29,31,32; Llandeilo Talybont, 14,107; Llandybie, 31; Llandyfri, 16,19; Llanddewi Brefi, 26; Llanerfyl, 63; Llan-gan, 54; Llanidloes, 97; Llanfyllin, 98; Llanpumpainst, 20; Llansamlet, 68, 71,74; Llantrisant, 36; Llanyâl, 76; Llyn Tegid, 127; Llyn y Fan Fach, 19,127; Llywel, 22; Maes y Pandy, 72; Maes yr Onnen, 16; Myddfai, 19; Y Mynydd Du, 31; Pantcoy, 17,18,23,24,25,29 &c.; Pontardawe, 31; Pontarfynach, 64,98; Pum-heol, 32; Rhosgall, 63; Sain Ffagan, 9,72,98; Sgiwen, 74; Talyllchau, 52; Wrecsam, 10.

Enwau Gwledydd

Yr Aifft, 60,80,81,100,110,114,115; Yr Alban, 43,51,60,71,117,118 &c.; Cernyw, 61,70,71,94,99; Denmarc (Gundestrup), 85; Groeg, 51,114; Iwerddon, 43,83,84,126; Llydaw, 128; Mesopotamia, 60; Nigeria, 46,49; Rhodesia, 35.

LLUNIAU

tudalen

- 9 1: Y Dewin yn y cylch "yn darllen gweddïau perthnasol". (*Y Doctor Faustus*, llun a ymddangosodd ym 1636).
- 11 2: Pantcoy, cartref y Dewin a'r ffusigwr John Harries, Cwrtycadno, fel y mae'n ymddangos heddiw.
- 18 3: Eglwys Myddfai, tarddle "Meddygon Myddfai".
- 20 4: Tudalen blaen "Llyfr Meddyginiaeth" o'r unfed ganrif ar bymtheg gyda hyfforddiant "Rhwg Davadenav".
- 34 5: Y Doctor William Price, Llantrisant yn ei arwisg dderwyddol.
- 37 6: Y Pennaeth Megemba o Ddwyrain Rhodesia: Dyn Hysbys (*Medicine Man*) brodorol gydag offer ei grefft.
- 41 7: Tudalen o'r "Holograph Book" yn eiddo i John Harries, Cwrtycadno.
- 44 8: Tudalen o lyfr cyfrin y Dyn Hysbys o Sir Ddinbych.
- 48 9: Allwedd ar gyfer ymarfer darogan yn null *Geomantia*, o'r llyfr cyfrin o Sir Ddinbych.
- 55 10: Longinus ar Groes Geltaidd yn Llan-gan.
- 55 11: Llun ac enw Longinus mewn llawysgrif Surieg o'r chweched ganrif.
- 58 12: Pedr yn wylio: cerflun o'r bedwaredd ganrif yn Amgueddfa'r Lateran, Rhufain.
- 64 13: "Olwyn Swyn", tudalen o'r llyfr cyfrin o Sir Ddinbych.
- 69 14: Maen Magl (Glain y Nadroedd) yn eiddo i'r Athro T.J.Morgan, Abertawe.
- 73 15: Lluniau o fathau o "Glain Neidr" yn llythyr Edward Lhwyl.
- 75 16: Ffynnon Farged o dan bibau olew Llandarcy.
- 77 17: Dyn y Zodiac –llun cerfiad Eidalaid o'r flwyddyn 1495.
- 84 18: Pair Gundestrup gyda darluniau o ddewino Celtaidd.
- 86 19: Pair Gundestrup: dewino trwy ladd tarw.
- 88 20: Pair Gundestrup: dewino drwy swyn-gwg.
- 90 21: Horosgob o Gwrtycadno.
- 92 22: Horosgob gan Kepler ar gyfer y Cadfridog Wallenstein, 1608.
- 93 23: Hysbyseb Henry Harries fel yr ymddangosodd yn *Yr Heul*, 1839.
- 98 24: Swyn "Abracadabra" o Gernyw.
- 104 25: "Enmill cariad" –tudalen o'r llyfr cyfrin o Sir Ddinbych.
- 105 26: eto.
- 108 27: "Lladd Dollau" yn Lloegr ym 1964.
- 109 28: "Lladd Dol" yng Nghymru ym 1974

- 120 29: Y Brenin James yn holi'r dewinesau o ogledd Berwick, yr Alban, ym 1590.
- 124 30: Y Llyfr Cyfrin o Sir Ddinbych —tudalen 1.
- 129 31: eto, tudalen 9.
- 131 32: "Alga", y gair Cabalaidd, mewn ffigur swyn yn y Llyfr Cyfrin o Sir Ddinbych.